

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMWCHWIL GYMDEITHASOL:

63/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

06/10/2022

Gwerthusiad o'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid 2017-2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

 © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-922-1

Gwerthusiad o'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid 2017-2022

Awduron: Heledd Bebb, Nia Bryer a Tanwen Grover



Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Is-adran Ddiwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

E-bost: diwylliant@llyw.cymru

Cynnwys

Geirfa.....	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg	6
Dull gwerthuso	6
3. Y cyd-destun polisi.....	11
4. Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid	21
5. Adolygiad y DU gyfan o ffynonellau cyllid cyfalaf ar gyfer y sector	30
6. Nodau, amcanion a sail resymegol	34
7. Sut y cafodd y rhaglen ei dylunio a'i gweinyddu	39
8. Priodoldeb ac effeithiolrwydd cyflawni'r rhaglen	53
9. Gwersi a ddysgwyd ac anghenion yn y dyfodol	66
10. Casgliadau ac argymhellion	73
Atodiad B: Sefydliadau yn y sector sydd wedi cyfrannu at y gwerthusiad	87
Atodiad C: Adolygiad y DU gyfan o ffynonellau cyllid cyfalaf ar gyfer y sector	88
Atodiad Ch: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweiliadau â staff Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y sector.....	99
Atodiad D: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweiliadau ag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus	103
Atodiad Dd: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweiliadau â sefydliadau cymwys nad ydynt wedi gwneud cais	107
Atodiad E: Arolwg gydag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus	110
Atodiad F: Arolwg gyda sefydliadau cymwys na wnaeth gais.....	118

Rhestr o'r tablau a'r ffigurau

Tabl 4.1	Grantiau a ddyfarnwyd gan y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid.....	24
Tabl 4.2	Nifer y ceisiadau fesul sector.....	25
Tabl 4.3	Meini Prawf Blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid	26
Ffigur 4.1	Model rhesymeg Damcaniaeth Newid y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid....	29
Tabl 5.1	Symiau cyllid cyfalaf sydd ar gael o fewn cronfeydd y DU.....	31
Ffigur 8.1	Pa wahaniaeth y mae eich prosiect(au) wedi'i wneud hyd yma i gynaliadwyedd eich gwasanaeth?	57
Ffigur 8.2	Pa welliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned y mae eich prosiect neu brosiectau wedi'u gwneud hyd yma?	65
Ffigur 9.1	Yn gyffredinol, beth yw eich barn am eich profiad o'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid?.....	80

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
ACE	Arts Council England
ALI	Awdurdod Lleol
BREEAM	Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu – mesur o gynaliadwyedd adeilad a gydnabyddir yn rhyngwladol
CBC	Cwmni Buddiannau Cymunedol
CBS	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
COVID-19	Clefyd y Coronafeirws 2019
DCMS	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
HE	Historic England
LED	Deud Allyrru Golau
LIF	Libraries Improvement Fund
MALD	Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd
MEND	Museum Estate and Development Fund
MGS	Museums Galleries Scotland
RhCT	Rhondda Cynon Taf
TAW	Treth ar Werth
VAQAS	Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd Atyniadau Ymwelwyr
Y DU	Y Deyrnas Unedig
Y Gronfa Dreftadaeth	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Y Rhaglen	Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses o'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid rhwng 2017 a 2022.
- 1.2 Cronfa a sefydlwyd i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i foderneiddio eu cyfleusterau, i greu modelau cyflawni mwy cynaliadwy, i alluogi cydweithio rhwng gwasanaethau ac i wella'r hyn a gynigir i bobl a chymunedau yw'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid (y Rhaglen). Caiff ei rheoli gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru ac mae wedi dosbarthu bron i £5.2 miliwn o gyllid grant rhwng 2017 a 2022.
- 1.3 Mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar ddeall sut y mae proses a mecanweithiau cyflawni'r Rhaglen yn gweithio, ac a yw buddsoddiadau'n cael eu targedu yn y ffordd orau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Bydd y canfyddiadau'n llywio'r gwaith o gynllunio a chyflawni rhaglen 2022/23.
- 1.4 Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers 2010, ond mae'r cyfnod adolygu ar gyfer y gwerthusiad hwn yn cwmpasu o 2017 hyd heddiw, sy'n adlewyrchu'r cyfnod pan oedd y Rhaglen yn cynnwys archifau ac amgueddfeydd. Cyn 2017 dim ond ar gyfer llyfrgelloedd yr oedd y gronfa ar gael.
- 1.5 Er mwyn mynd i'r afael â'r nod cyffredinol, datblygwyd yr amcanion penodol a ganlyn:
- gwerthuso prosesau rheoli, monitro, gwerthuso a llywodraethu'r rhaglen; a darparu asesiad i weld p'un a ydynt yn cefnogi'r broses o gyflawni'r rhaglen yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.
 - archwilio proffil a chymhellion ymgeiswyr llwyddiannus ac ymchwilio i pam mae rhai sefydliadau cymwys yn dewis peidio â gwneud cais am grant.
 - gwerthuso canfyddiadau a boddhad derbynyddion grant, a rhanddeiliaid o'r sector ehangach, ynghylch priodoldeb ac effeithiolrwydd y rhaglen.
 - ystyried a yw'r rhaglen yn targedu ac yn ariannu'r sefydliadau sydd fwyaf mewn angen yn effeithiol, ac a yw rhai grwpiau wedi methu â manteisio ar gymorth. Os oes angen, argymhell newidiadau i gwmpas y rhaglen.

- gwerthuso i ba raddau y mae'r gweithrediadau'n gyson â blaenoriaethau polisi a blaenoriaethau strategol allweddol Llywodraeth Cymru a gwneud awgrymiadau ynghylch sut i'w cysoni ymhellach.
- gwerthuso a yw amcanion y Rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion y sector, ac a ellir eu gwella i ymateb i flaenoriaethau a nodir yn y dyfodol.
- darparu asesiad dangosol i weld a all prosiectau a ariennir gyflawni canlyniadau tymor hwy.
- nodi unrhyw wersi allweddol a ddysgwyd a gwneud argymhellion ymarferol sy'n berthnasol i unrhyw gylchoedd cyllido rhaglenni yn y dyfodol.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad desg, cyfweiliadau â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol, yn ogystal â gwaith maes gydag ymgeiswyr llwyddiannus a'r rhai a oedd yn gymwys i wneud cais ond nad oeddent wedi gwneud hynny eto.

1.7 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: y cyd-destun polisi y mae'r Rhaglen yn gweithredu o'i fewn
- pennod pedwar: trosolwg o'r Rhaglen
- pennod pump: canfyddiadau allweddol adolygiad y DU gyfan o gyllid cyfalaf ar gyfer y sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- penodau chwech i naw: ystyriaeth o'r adborth a gasglwyd o waith maes gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol yn y sector, ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus am grantiau a'r rhai sy'n gymwys ond nad ydynt wedi gwneud cais eto
- pennod deg: ein casgliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth ac argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull o gynnal yr adolygiad, proffil y rhai a gyfwelwyd ac yn trafod rhai o'r ystyriaethau methodolegol allweddol.

Dull gwerthuso

2.2 Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mehefin 2021. Roedd yn cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

Dechrau'r adolygiad

2.3 Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol dros Teams gyda grŵp llywio'r gwerthusiad yn Llywodraeth Cymru i drafod a chytuno ar:

- y fethodoleg a'r rhaglen waith arfaethedig
- mynediad at ddogfennau a data perthnasol
- opsiynau o ran samplu sefydliadau a chysylltu ac ymgysylltu â nhw
- cofrestr risgiau fanwl a matrices dibyniaeth ac
- adrodd ar gynnydd.

2.4 Cynhyrchwyd cofnodion o'r cyfarfod ac adroddiad cychwynnol manwl yn amlinellu rhaglen waith y cytunwyd arni.

Adolygiad desg a gwaith cwmpasu

2.5 Cynhaliwyd ymarfer desg i adolygu:

- dogfennau polisi perthnasol
- dogfennau eraill sy'n rhoi'r cefndir i sefydlu'r rhaglen
- dogfennau ar lefel rhaglen gan gynnwys manyleb y rhaglen; meini prawf ar gyfer Datgan Diddordeb; canllawiau a ffurflenni templed i ymgeiswyr; ceisiadau am brosiectau a gyflwynwyd yn 2017-21 a ffurflenni monitro prosiectau.

2.6 Mae penodau tri a phedwar yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad desg sy'n amlinellu'r cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth ac sy'n sail i naratif o gyflawniadau dros gyfnod yr adolygiad.

Adolygiad o ffynonellau tystiolaeth sy'n berthnasol i'r DU gyfan

2.7 Cynhwyswyd adolygiad desg arall o ffynonellau tystiolaeth sy'n cwmpasu'r DU gyfan er mwyn ystyried:

- dogfennau strategol, neu bapurau sefyllfa a ddatblygwyd gan gyrff perthnasol yn y sector
- unrhyw dystiolaeth neu ddeunyddiau gwerthuso sy'n ymwneud â chynlluniau tebyg yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu unrhyw gynlluniau grant sy'n berthnasol i'r DU gyfan gan amrywiol ymddiriedolaethau a sefydliadau diwylliannol.

2.8 Mae canfyddiadau'r elfen hon o'r adolygiad desg i'w gweld ym mhennod pump.

Cyfweliadau cwmpasu

2.9 Trefnwyd a chynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu cychwynnol drwy Microsoft Teams gyda thimau'r sector (Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau) yn Llywodraeth Cymru yn benodol er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu model rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer y Rhaglen. Cyfrannodd cyfanswm o wyth aelod o staff Llywodraeth Cymru at y cam hwn. Roedd pob cyfweiliad tuag awr o hyd.

Drafftio Model Rhesymeg ar gyfer y Rhaglen

2.10 Yn dilyn y camau adolygiad desg a chyfweliadau cwmpasu, cafodd y canfyddiadau eu dadansoddi a datblygwyd darlun gweledol o fodel rhesymeg Damcaniaeth Newid y rhaglen (gweler pennod pedwar). Cynhaliwyd cyfarfod cynnydd gyda grŵp llywio'r gwerthusiad er mwyn gallu trafod y model rhesymeg drafft a'i fireinio ymhellach.

Drafftio offerynnau ymchwil a samplu

2.11 Drafftiwyd cyfres o ganllawiau trafod ansoddol i'w defnyddio yn ystod cyfweliadau â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y sector, ymgeiswyr am grantiau (llwyddiannus ac aflwyddiannus) a sefydliadau cymwys na wnaethant gais na derbyn cymorth.

- 2.12 Roedd y canllawiau trafod yn adlewyrchu'r model rhesymeg ac yn adeiladu ar y cwestiynau ymchwil a amlinellwyd yn y fanyleb, yn ogystal â chanfyddiadau'r adolygiad desg.
- 2.13 Paratowyd dau arolwg dwyieithog ar-lein hefyd i'w dosbarthu i bob sefydliad a oedd yn gymwys ar gyfer y grant. Crëwyd un arolwg ar gyfer ymgeiswyr blaenorol am grant gyda llwybr o fewn yr arolwg i ofyn cwestiynau penodol i'r rhai a fu'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Roedd yr ail arolwg ar gyfer sefydliadau cymwys nad ydynt erioed wedi gwneud cais i'r gronfa. Cafodd pob arolwg ei ddrafftio fel na fyddai'n cymryd mwy na thua 5-10 munud i'w gwblhau. Roedd yr arolygon yn ddiennw ac nid oedd angen i ymatebwyr ddarparu manylion cyswllt na nodi'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli.
- 2.14 Cyflwynwyd yr holl offer ymchwil drafft a'r Hysbysiad Preifatrwydd i'r cleient er mwyn cael ei sylwadau a chytunwyd arnynt cyn i'r gwaith maes ddechrau.

Arolwg Ar-lein

- 2.15 Dosbarthwyd arolwg ar-lein i'r holl ymgeiswyr blaenorol am grant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i 48 o sefydliadau ac anfonwyd e-bost dilynol i'w hatgoffa. Daeth 16 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 33 y cant O blith y rhai a atebodd, roedd hanner (8) yr ymatebion gan wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus dan ofal awdurdodau lleol, pump arall gan amgueddfeydd dan ofal awdurdodau lleol, tri gan wasanaethau archifau, un gan ymddiriedolaeth sy'n darparu gwasanaeth llyfrgell ar ran awdurdod lleol ac un gan amgueddfa annibynnol.
- 2.16 Cysylltodd Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol â chyfanswm o 75 o sefydliadau cymwys nad ydynt wedi gwneud cais am grant eto gyda dolen i arolwg ar-lein a dosbarthwyd dau e-bost atgoffa dilynol. Ymatebodd cyfanswm o naw sefydliad cymwys i'r arolwg sy'n gyfradd ymateb cymharol isel o 15 y cant. O blith y rhai a atebodd, roedd pump yn amgueddfeydd annibynnol, tri yn wasanaethau archifau ac un yn ymddiriedolaeth sy'n rhedeg gwasanaeth llyfrgell ar ran awdurdod lleol.
- 2.17 Gofynnwyd am fanylion cyswllt y rhai a oedd yn gymwys i wneud cais am grant ond nad oeddent erioed wedi gwneud hynny ar ddiwedd yr arolwg.

Darparodd chwe sefydliad eu manylion, a chysylltwyd â phob un wedyn gyda gwahoddiad i gyfrannu at gyfweiliad a dolen i hysbysiad preifatrwydd.

Samplu

2.18 Cynhyrchwyd sampl o 20 o sefydliadau sydd wedi cael eu hariannu drwy'r Rhaglen er mwyn eu cyfweld. Dewiswyd y sampl ar hap ond roedd yn cynnwys croestoriad o ran:

- y grantiau Band A a Band B a ddyfarnwyd
- sectorau (llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau)
- lleoliad daearyddol
- math o sefydliad (e.e., awdurdod lleol, cwmnïau annibynnol, di-elw; ymddiriedolaethau)

2.19 Dewiswyd y sefydliadau hyn o'r gronfa ddata lawn, er mwyn dileu unrhyw duedd o ran y broses ddethol. Dewiswyd opsiynau wrth gefn hefyd, a dewiswyd sampl arall o bedwar sefydliad a oedd wedi gwneud cais ond na fuont yn llwyddiannus fel opsiynau amgen posibl.

Gwaith maes

2.20 Cyfwelwyd â deg aelod o staff Llywodraeth Cymru a naw rhanddeiliad arall drwy Teams ar gyfer y gwerthusiad hwn gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allweddol yn y sector.

2.21 Hysbysodd Llywodraeth Cymru y derbynyddion grantiau a samplwyd o'n bwriad i gysylltu â nhw gan ofyn am eu cytundeb i gyfrannu at yr astudiaeth. Paratôdd OB3 eiriad dwyieithog at y diben hwn ac ar ôl i'r cyfranogwyr gydsynio i gyfrannu, anfonwyd gwahoddiad a dolen i Hysbysiad Preifatrwydd dwyieithog at bob cyfrannwr.

2.22 Cafodd cyfanswm o 20 o dderbynyddion grant llwyddiannus ar gyfer 25 o brosiectau a gafodd gyllid grant eu cyfweld drwy Teams. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phedwar ymgeisydd aflwyddiannus a dau sefydliad cymwys na chawsant gymorth o'r gronfa grant cyfalaf hefyd.

Dadansoddiad o'r canfyddiadau

2.23 Dadansoddwyd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes yn thematig gan ddefnyddio'r cwestiynau gwerthuso allweddol a nodir yn y

fanyleb. Paratôdd pob ymchwilydd gofnodion manwl ar gyfer pob sefydliad a gyfwelwyd gan ddefnyddio templed geiriau mewnol (a oedd yn dilyn y themâu allweddol sydd yn y canllaw trafod) a bwydo'r ymatebion i ddogfen ddadansoddi Excel. Cyfrannodd yr ymchwilydd hefyd at sesiwn ôl-drafod fewnol. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn cael ei dadansoddi yn ôl y themâu allweddol a nodir yn y canllaw trafod.

- 2.24 Cyflwynwyd y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion a ddeilliodd ohonynt i grŵp llywio'r gwerthusiad drwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint a gwnaed nodiadau o'r drafodaeth a ddilynodd. Paratowyd adroddiad drafft yn dwyn ynghyd dystiolaeth o'r adolygiad desg a'r gwaith maes ac yn cynnig argymhellion cryno i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

Ystyriaethau methodolegol

- 2.25 Cysylltwyd â nifer fawr o sefydliadau sy'n gymwys ar gyfer y Rhaglen a chynigiwyd y cyfle iddynt fynegi eu barn drwy gyfweliad neu drwy'r arolwg. Roedd yr arolwg yn ddiennw ac fe'i anfonwyd at fwy nag un cyswllt mewn rhai sefydliadau (e.e. gallai fod wedi'i anfon at unigolion gwahanol yn y gwasanaeth llyfrgell, gwasanaeth archifau a gwasanaeth amgueddfeydd mewn awdurdod lleol). Felly, nid yw'n bosibl adrodd ar union gyfanswm y sefydliadau sydd wedi cyfrannu, ond mae'n ymddangos bod o leiaf hanner yr holl wasanaethau llyfrgell a gwasanaethau archifau wedi gwneud hynny. Cafwyd llai o ymatebion, o ran nifer a chanran y boblogaeth gyfan, gan y sector amgueddfeydd. Nid oedd y sampl yn darparu unrhyw ymatebion gan lyfrgelloedd cymunedol.
- 2.26 Yn y dadansoddiad o'r holl ymatebion a dderbyniwyd drwy'r arolwg a'r cyfweliadau, cafwyd llawer o sylwadau tebyg gan sefydliadau llwyddiannus a'r rhai a oedd yn gymwys i wneud cais ond nad oeddent wedi gwneud hynny. Er mwyn osgoi dyblygu diangen, cyflwynir canfyddiadau'r arolwg a'r holl waith maes ar y cyd. Lle roedd safbwyntiau neu brofiadau gwahanol yn ôl sector (amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd), yn ôl math (awdurdod lleol neu annibynnol) neu yn ôl profiad (llwyddiannus, aflwyddiannus neu heb wneud cais) mae'r rhain wedi'u hamlygu a'u disgrifio'n unol â hynny wrth gyflwyno'r canfyddiadau.

3. Y cyd-destun polisi

3.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi allweddol sy'n berthnasol i'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid.

Llywodraeth Cymru (2014), Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, tud.5

3.2 Cynhaliwyd yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014) i gydnabod bod angen i lyfrgelloedd cyhoeddus 'fabwysiadu [a dod o hyd i] atebion arloesol a rhagweithiol' fel y gallent barhau i ddarparu'r holl wasanaethau traddodiadol disgwylidig ynghyd ag 'ystod gyflawn o wasanaethau newydd, rhai digidol a rhai cymunedol'.¹

3.3 Roedd dau ddiben i'r adolygiad:

- 'adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o fis Ebrill 2014 ymlaen er mwyn asesu a yw'r ddarpariaeth ddiwygiedig yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon ledled Cymru, gan dynnu sylw at arferion gorau ac unrhyw bryderon.
- 'adnabod modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a geir trwy gydweithio, partneriaeth ac arloesedd'.²

3.4 O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd (1964), mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno gwneud defnydd ohono³, ond cydnabu'r adolygiad y byddai cyllid awdurdodau lleol yng Nghymru o 2014-15 ymlaen dan bwysau a'i fod yn debygol o arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.⁴

3.5 Roedd yr adolygiad yn cydnabod nifer o dueddiadau yn y dyfodol a oedd yn debygol o effeithio ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus gan gynnwys:

¹ Llywodraeth Cymru (2014), Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, tud.5

² Ibid., t.11

³ Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd (1964)

⁴ Ibid, tud.7

- technoleg – mae cyflymder newidiadau technolegol yn ei gwneud yn ddrud i lyfrgelloedd cyhoeddus gadw i fyny gyda datblygiadau, ond mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i wella'r gwasanaeth a chyrraedd defnyddwyr newydd⁵
- adeiladau llyfrgell – roedd tystiolaeth o dwf parhaus yn y defnydd o fannau gwasanaeth wedi'u moderneiddio mewn llyfrgelloedd ond lleihad yn nifer y llyfrau a fenthycwyd sy'n amlygu'r her o gydbwysu'r gofynion newidiol rhwng adnoddau print ac electronig. Cydnabu'r adolygiad hefyd 'bod gan adeiladau llyfrgell gyhoeddus rôl barhaus a honno'n rôl sy'n esblygu. Maent yn ganolog i'r gwasanaeth llyfrgelloedd gan eu bod yn ganolbwyntiau creadigol, diwylliannol ac addysgol i gymunedau' ac o ganlyniad roedd angen i ddyluniad mewnol y llyfrgell fod yn fwy hyblyg er mwyn darparu rhaglen eang o weithgareddau, gyda thuedd gynyddol i 'gydleoli gwasanaethau cyhoeddus eraill gyda gwasanaethau llyfrgell mewn cyfleuster a rennir'⁶.

3.6 Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod angen newid sylweddol yn y cydweithio rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Argymhellodd yr adolygiad y dylai Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a threfniadau cydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol⁷. At hynny, awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol i lyfrgelloedd cyhoeddus 'gyflenwi gwasanaethau ar y cyd ag eraill mewn byd digidol'.⁸

⁵ Ibid., tud.39

⁶ Ibid., tud.40

⁷ Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014), Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

⁸ Ibid., tud.10

Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (2015)

- 3.7 Ym mis Hydref 2014, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd adolygiad arbenigol gyda dau brif ddiben:
- 'adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol i ddarpariaeth amgueddfeydd lleol o fis Ebrill 2014' a
 - 'nodi modelau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, a fydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir drwy gydweithredu, partneriaeth ac arloesi'⁹.
- 3.8 Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod y Cynllun Achredu Amgueddfeydd¹⁰ wedi cael effaith gadarnhaol ar ddull proffesiynol amgueddfeydd o gadw cofnodion ond eto awgrymwyd bod diffyg gwybodaeth o hyd am berchnogaeth, lleoliad a chyd-destun llawer o gasgliadau. Daeth yr adolygiad hefyd i'r casgliad bod llawer o amgueddfeydd ar hyn o bryd wedi'u lleoli mewn adeiladau a ystyrir yn 'anfoddfaol', gydag adeiladau hanesyddol yn aml yn cael eu defnyddio fel cartref i amgueddfeydd lleol heb y buddsoddiad angenrheidiol i'w addasu neu ei ymestyn a'i wneud yn addas at y diben. Nododd fod mwy na 90 y cant o amgueddfeydd lleol Cymru wedi'u lleoli mewn adeiladau gwarchoddedig yn hytrach nag adeiladau llety pwrpasol a bod hyd yn oed y rhai a adeiladwyd yn bwrpasol wedi'u dylunio mewn cyfnod pan oedd gofynion mynediad yn wahanol iawn i ddisgwyliadau heddiw: 'mae stoc adeiladau amgueddfeydd yng Nghymru yn peri nifer o broblemau sydd yn eu tro yn cyfyngu ar yr hyn y gall amgueddfa ei gyflawni ar gyfer pobl ei hardal ac weithiau ei hatal rhag cyflawni unrhyw beth'¹¹.

⁹ Llywodraeth Cymru (2015), Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru, tud.4

¹⁰ Cynllun partneriaeth gwirfoddol ledled y DU sy'n cael ei redeg gan Arts Council England yw'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r cynllun yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys set o safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i sicrhau bod pob amgueddfa'n gynaliadwy, bod ganddynt ffocws, eu bod yn ddibynadwy, ac yn gallu ennyn hyder y cyhoedd, cyrff cyllido a chyrrff llywodraethu.

¹¹ Ibid., tud.24

- 3.9 Nododd yr adolygiad hefyd fod llywodraeth leol yng Nghymru yn gwario llai y pen o'r boblogaeth ar amgueddfeydd ac orielau (£3.03) na'r Alban (£7.84) a Lloegr (£3.61). Rhwng 2004-05 a 2013-14 roedd cyfanswm gwariant llywodraeth leol yng Nghymru ar amgueddfeydd ar gyfartaledd yn 3 y cant o gyfanswm y gwariant ar ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon, a dim ond 0.13 y cant o gyfanswm gwariant cynghorau ydoedd.¹² Noda'r adolygiad fod angen cynnal amgueddfeydd fel manau deinamig sy'n parhau i fod yn berthnasol i'r cyhoedd ac sy'n gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn arddangosfeydd ac adeiladau. Ers 1996, mae gwariant cyfalaf cyfartalog awdurdodau lleol ar amgueddfeydd wedi bod oddeutu £2 filiwn y flwyddyn (tua 0.2 y cant o gyfanswm gwariant cyfalaf awdurdodau lleol) a phrin iawn yw'r enghreifftiau o unrhyw fuddsoddiad hirdymor. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Dreftadaeth) wedi cyfrannu dros £1 biliwn i amgueddfeydd y DU (ac mae tua £24 miliwn o hwnnw wedi'i ddyfarnu i amgueddfeydd lleol yng Nghymru) ers ei sefydlu ym 1994. Dyfarnwyd £13 miliwn o'r cyllid a roddwyd i Gymru i brosiectau â oedd yn brosiectau cyfalaf yn bennaf.
- 3.10 Mae'r adolygiad yn cydnabod bod y buddsoddiad mewn amgueddfeydd lleol yng Nghymru, o unrhyw ffynhonnell, hyd yma wedi bod ar raddfa fach ac na ellir gwella llawer o amgueddfeydd heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol i '[wella] mynediad i ymwelwyr...newid neu wella arddangosfeydd, ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau, darparu mynediad digonol i gasgliadau ymchwil neu greu storfeydd priodol mewn amgueddfeydd'¹³. Mae'n galw am ymagwedd realistig tuag at ddarparu adeiladau i amgueddfeydd yn y dyfodol, a allai olygu bod angen rhesymoli casgliadau a storfeydd a gwneud newidiadau iddynt, ond gellir cyflawni hyn gyda buddsoddiad priodol a dychymyg. Mae hefyd yn nodi'n glir yr angen i fuddsoddiad cyfalaf fod yn seiliedig ar 'waith cynllunio strategol rhagorol a safonau gweithredol uchel, sydd â'r nod o gyflawni cyfres o flaenoriaethau clir'¹⁴.

¹² Ibid., tud.26

¹³ Ibid., tud.25

¹⁴ Ibid., tud.29

- 3.11 Mae'r adolygiad yn gwneud cyfres o argymhellion gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru 'sefydlu cronfa drawsnewid er mwyn hwyluso'r newidiadau mawr sydd eu hangen yn y sector amgueddfeydd yng Nghymru.'¹⁵ Fodd bynnag, gwneir yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun cyllid refeniw yn hytrach nag yn benodol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Awgryma'r adolygiad ymhellach, ochr yn ochr â'r trawsnewidiad sydd ei angen, y dylid meithrin dealltwriaeth lawer mwy hyddysg o'r ffordd y gellir datblygu arddangosfeydd er mwyn cyrraedd amrywiaeth demograffig ehangach o ymwelwyr.
- 3.12 Wrth ymateb i argymhellion yr adolygiad, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'nodi ffyrdd tecach i ariannu cyfleusterau rhanbarthol a gwella cynaliadwyedd a chydnerthedd.'¹⁶ Fe wnaeth hefyd ymestyn Cronfa Gyfalaf y Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol i gynnwys amgueddfeydd ac archifau lleol i gefnogi gwelliannau cyfalaf (a ddaeth i'w hadnabod wedyn fel y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid a drafodir yn yr adroddiad hwn).

Golau yn y gwyll: gweledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghymru (2016)

- 3.13 Roedd datganiad gweledigaeth Llywodraeth Cymru, Golau yn y gwyll: gweledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghymru (2016), yn cydnabod bod ansawdd cyfleusterau diwylliannol lleol yn aml yn dylanwadu ar ble mae cwmnïau'n penderfynu buddsoddi, a sut y gall lleoliadau diwylliannol newydd neu wedi'u hadnewyddu, gan gynnwys llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, 'sbarduno rhagor o adfywio'¹⁷ a sut y gall buddsoddiad o'r fath ym mhrofiad ymwelwyr gefnogi'r broses o ddatblygu twristiaeth ddiwylliannol¹⁸. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i 'annog awdurdodau lleol i ddadlau'r achos dros ddiwylliant' ac i weithio gyda nhw, a phartneriaid eraill, 'i ddod o hyd i ffyrdd tecach o ariannu cyfleusterau rhanbarthol a chenedlaethol'¹⁹. Mae'r ddogfen yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'r dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu strategaeth leol ar gyfer

¹⁵ Ibid., tud.57

¹⁶ [Datganiad Ysgrifenedig ar yr Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru](#)

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2016), Datganiad Gweledigaeth y Celfyddydau a Diwylliant – Golau yn y Gwyll, tud .9

¹⁸ Ibid., tud.8

¹⁹ Ibid., tud.22

diwylliant sy'n darparu 'fframwaith ar gyfer cydweithio' lle y gall unigolion, sefydliadau a mudiadau 'gyflawni canlyniadau ar y cyd.' Mae hefyd yn galw ar lywodraeth leol i alluogi 'defnydd creadigol o asedau cyhoeddus at ddibenion cymdeithasol'.²⁰.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.14 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant, ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill. Rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus a restrir osod a chyhoeddi ei amcanion llesiant i ddangos sut y maent yn bwriadu cyflawni'r nodau llesiant ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn erbyn yr amcanion.
- 3.15 Y nod ar gyfer diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'²¹.
- 3.16 Noda adroddiad diweddar Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn 2020 fod mynediad i leoliadau ffisegol sy'n 'gwella lleoedd,' gyda ffocws ar 'garbon isel, diwastraff' yn bwysig er mwyn sicrhau Cymru Lewyrchus²². Noda ymhellach fod angen cyfleusterau diwylliannol hygyrch â chyfarpar da ar Gymru'r dyfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu 'cronfeydd cyfalaf penodol i ymdrin â'r datblygiadau adeiladu cyffredinol sydd eu hangen'.²³.

²⁰ Ibid., tud.24

²¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - yr hanfodion](#)

²² Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020), Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, tud.7

²³ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2020), Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 – Crynodeb, tud.3

Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2016-21

- 3.17 Mae Rhaglen Lywodraethu 2016-21 'Symud Cymru Ymlaen' sy'n cyfateb i amserlen yr adolygiad hwn, yn nodi'r angen i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion yr oes sydd ohoni gan baratoi ar gyfer heriau'r dyfodol ar yr un pryd. Mae'n ymrwymo i fuddsoddi mewn seilwaith a fydd yn hybu economi a chymunedau Cymru ac yn addo 'diogelu cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd, gan gynnwys...llyfrgelloedd ac amgueddfeydd'²⁴. Yn benodol, mae'n ymrwymo i fuddsoddi 'dros £1 filiwn y flwyddyn er mwyn parhau â'r gwaith o weddnewid ein llyfrgelloedd a'n hamgueddfeydd lleol'²⁵.

Y Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol, 2020

- 3.18 Sefydlwyd y Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol gwerth £1 miliwn ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn 2020 i ddarparu cymorth gyda'r pwysau tymor byr brys sy'n wynebu amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Sefydlwyd y gronfa o ganlyniad i effaith negyddol sylweddol y pandemig COVID-19 ar y sector. Arweiniodd cau safleoedd ac eiddo ar unwaith at gollu incwm masnachol, gan olygu bod sefydliadau llai fel amgueddfeydd annibynnol sy'n fwy dibynnol ar incwm o'r fath yn agored iawn i niwed. Mae perygl y bydd y pandemig yn crebachu'r rhwydwaith o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig lle y maent yn rhoi hwb hollbwysig i'r economi leol.²⁶
- 3.19 Mae galwad o'r newydd gan randdeiliaid y sector am fuddsoddiad cyfalaf parhaus gan Lywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at y ffaith bod angen mynd i'r afael â'r diffyg buddsoddiad hanesyddol mewn adeiladau²⁷. Pwysleisiodd adroddiad diweddar pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd a gyhoeddwyd yn 2020, yn dwyn y teitl 'Effaith Covid-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau' bwysigrwydd buddsoddiad cyfalaf er mwyn

²⁴ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2016-21, tud. 13. Noder nid yw'r ddogfen hon ar gael ar-lein bellach felly cyfieithiad o'r newydd yw hwn.

²⁵ Llywodraeth Cymru (2016), Datganiad Gweledigaeth y Celfyddydau a Diwylliant – Golau yn y Gwyll, tud. 26

²⁶ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (2020), Effaith Covid-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau, tud.3

²⁷ Ibid., tud.13

cynnal a chadw adeiladau deniadol a hygyrch. Dywedodd yr adroddiad y gallai adeiladau o'r fath gynyddu cyflogaeth leol a bod o fudd i'r economi a'r gobraith oedd 'na fydd ail-flaenoriaethu cyllid yn y tymor byr i ymateb i'r cyfnod clo yn arwain at danariannu dros y tymor hir ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr sydd angen eu gwella' o fewn y sector llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau²⁸.

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru, 2020-21

- 3.20 Lanswyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ym mis Gorffennaf 2020 ac fe'i darparwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, ac awdurdodau lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru yr arian ar gyfer y sectorau creadigol, diwylliannol, digwyddiadau a threftadaeth i helpu i negyddu effeithiau'r pandemig COVID-19.
- 3.21 Dyrannwyd swm cychwynnol o £53 miliwn ym mis Gorffennaf 2020, a swm pellach o £10.7 miliwn o gymorth ariannol mewn ail gylch cyllido a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 a £15.4 miliwn pellach mewn trydydd cylch cyllido yn ystod mis Ionawr 2022.
- 3.22 Dangosodd gwerthusiad diweddar o'r gronfa fod 90 y cant o'r grantiau wedi'u dyfarnu i microfusnesau a sefydliadau. Defnyddiwyd y cyllid yn bennaf i dalu biliau, gorbenion a chyflogau staff. Defnyddiwyd yr arian gan ychydig dros hanner y sefydliadau i adolygu eu model busnes neu eu gwasanaethau neu i fuddsoddi mewn offer hefyd. Canfu'r gwerthusiad fod y cyllid wedi galluogi llawer o sefydliadau i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn gwahanol feysydd o'u busnes 'gan gynnwys costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu offer newydd neu gynnal a chadw ased sefydlog' yn ogystal â chostau hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr.
- 3.23 Mae'r gwerthusiad yn gwneud nifer o ystyriaethau, gan gynnwys y 'dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff sector allweddol sicrhau bod yr adferiad o COVID-19 yn cael ei ystyried a'i gynnwys wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliant genedlaethol' i helpu'r sector i symud 'o gam goroesi i gam ffynnu'.²⁹

²⁸ Ibid., tud.12

²⁹ [Crynodeb o'r Gwerthusiad o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru](#)

Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-26

3.24 Mae Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf 2021-26 Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio³⁰ yn cynnwys nifer o ymrwymadau perthnasol gan gynnwys:

- sicrhau bod 'hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd'
- 'parhau â'n partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau'
- 'buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd' ac
- ymgysylltu â 'sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd'³¹.

3.25 Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys 10 amcan llesiant ar gyfer y tymor ac mae'n cynnwys ymrwymiad i 'ddatgarboneiddio cyrniant â phosibl', i 'ddathlu amrywiaeth a...dileu anghydraddoldeb o bob math' ac i wneud dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru 'yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt'³².

Adolygiad o dystiolaeth y DU gyfan – blaenoriaethau strategol

*Maniffesto ar gyfer Amgueddfeydd yng Nghymru (Cymdeithas yr Amgueddfeydd)*³³

3.26 Yn ei dogfen eiriolaeth ar gyfer Cymru, mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn tynnu sylw at yr effaith negyddol y mae llymder, Brexit, a'r pandemig wedi'i chael, gydag amgueddfeydd a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd oherwydd 'tanfuddsoddi hanesyddol' bellach yn ei chael hi'n heriol i oroesi'r golled mewn incwm yn sgil llai o ymwelwyr. Mae'n galw ar wleidyddion yng

³⁰ Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio gyda Phlaid Cymru ar sawl maes sy'n cael ei gwmpasu gan Gytundeb Cydweithio.

³¹ Llywodraeth Cymru (2021), Rhaglen Lywodraethu, tud. 6

³² Ibid., tud.8

³³ [Maniffesto ar gyfer Amgueddfeydd yng Nghymru \(Cymdeithas yr Amgueddfeydd\)](#)

Nghymru i ailadeiladu rôl unigryw amgueddfeydd mewn cymdeithas drwy arwain yn strategol a sicrhau buddsoddiad mewn:

- Strategaeth Ddiwylliannol newydd i Gymru
- isadran Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) gref, arbenigol a llawn staff fel bod digon o gapasiti i ddatblygu 'seilwaith cenedlaethol amgueddfeydd'
- gwariant cyfalaf i sicrhau y gall amgueddfeydd lleol weithio gyda chymunedau lleol a'u croesawu i'w lleoliadau
- seilwaith digidol, capasiti a datblygu sgiliau i alluogi amgueddfeydd i greu model hybrid cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu.

3.27 Ni chanfuwyd dogfennau tebyg mewn perthynas â'r sector llyfrgelloedd nac archifau yng Nghymru.

Sylwadau i gloi

3.28 Mae'r polisïau a'r blaenoriaethau a oedd ar waith yn ystod y cyfnod adolygu ar gyfer y gwerthusiad hwn yn dangos bod y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid wedi gwneud ymdrech ar y cyd i addasu ei meini prawf yn rheolaidd er mwyn cyd-fynd â datblygiadau polisi. Yn benodol, mae wedi sicrhau bod cysylltiadau cryf â blaenoriaethau'r agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn yr un modd, mae wedi ceisio cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu drwyddi draw. Fodd bynnag, byddai'r rhaglen yn elwa o gyfeiriadau mwy penodol at nodau a blaenoriaethau o fewn dogfen strategol benodol y gallai alinio â hi. Efallai y bydd gan y Strategaeth Ddiwylliannol hirddisgwyliedig y cyfeirir ati yn y Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf rôl bwysig o ran llenwi'r bwloch presennol hwn.

4. Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid (y Rhaglen), gan ddefnyddio dogfennau allweddol megis canllawiau rhaglen.

Trosolwg

4.2 Sefydlwyd y Rhaglen i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i foderneiddio eu cyfleusterau, i greu modelau cyflawni mwy cynaliadwy, i alluogi cydweithio rhwng gwasanaethau ac i wella'r hyn a gynigir i bobl a chymunedau. Caiff ei rheoli gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru.

4.3 Mae'r grant ar gael ar gyfer:

- Llyfrgelloedd – gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus awdurdodau lleol (gan gynnwys y rhai a ddarperir gan ymddiriedolaethau neu gwmnïau dielw ar ran awdurdod lleol)
- Amgueddfeydd – amgueddfeydd sydd wedi'u hachredu'n llawn neu'n amodol gan awdurdod lleol neu'n cael eu rhedeg yn annibynnol³⁴
- Archifau – gwasanaethau archifau awdurdod lleol achrededig llawn neu dros dro³⁵

4.4 Nod y Rhaglen yw galluogi sefydliadau sy'n llwyddiannus yn eu ceisiadau am grant i drawsnewid eu gwasanaethau er mwyn:

- datblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau
- gwella gwasanaethau i bobl a'u cymunedau
- gwella datblygiad casgliadau, gofal amdanynt neu fynediad iddynt
- cyflawni yn erbyn blaenoriaethau a chanlyniadau strategol
- cynnal a datblygu ansawdd gwasanaethau³⁶.

4.5 Er ei bod wedi darparu buddsoddiad cyfalaf mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ers 2010, mae ei chymhwysedd wedi'i ymestyn ers 2017 i gynnwys amgueddfeydd ac archifau. Ers 2017, darparwyd dros £5 miliwn i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru.

³⁴ Fel rhan o gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU gyfan

³⁵ Fel rhan o gynllun Achredu Gwasanaethau Archifau y DU gyfan

³⁶ Llywodraeth Cymru (2020), Evaluation of Transformation Capital Grants 2017-22 FINAL Specification, p.4

Cyllid

- 4.6 Dim ond ar gyfer costau cyfalaf y mae cyllid y Rhaglen ar gael. Gall gwariant cymwys gynnwys:
- gwaith adeiladu a pheirianeg
 - ffioedd proffesiynol
 - ffitiadau/offer ychwanegol sy'n hanfodol i'r gwaith datblygu ehangach.
- 4.7 Disgwylir i bob prosiect llyfrgell gynnwys elfen o gydleoli fel rhan o'r cynlluniau a gellir defnyddio hyd at 10 y cant o'r grant a ddyfernir i gefnogi costau penodol staff rheoli prosiectau.
- 4.8 Gall gwasanaethau hefyd wneud cais am gyllid ar gyfer seilwaith TG a digidol i'w galluogi i ddiwallu'r angen cynyddol am fynediad i gasgliadau a gwasanaethau drwy ddulliau digidol. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer seilwaith lle mae cynllun hirdymor clir ar waith i gefnogi a chynnal y systemau y darperir y cyllid hwn. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau cydweithredol lle bydd system seilwaith TG neu ddigidol arfaethedig yn cael ei darparu i ar draws nifer o wasanaethau.
- 4.9 Mae dau fand o grantiau ar gael:
- Band A - grantiau gwerth hyd at £150,000
 - Band B - grantiau gwerth hyd at £300,000
- 4.10 Mae'r rhaglen grant yn darparu cyllid Band A (hyd at £150,000) ar gyfer gwelliannau i olwg mewnol ac allanol, ansawdd y gofal i'r casgliadau a phrofiad ymwelwyr, tra bod y grantiau Band B mwy ar gyfer prosiectau strategol sydd â'r nod o ail-alinio gwasanaethau neu ddatblygu trefniadau cydweithio ar draws awdurdodau neu ranbarthau.
- 4.11 Mae gan y rhaglen ethos gref o gynaliadwyedd, ac mae amod craidd ynghlwm y cyllid sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw adeilad newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyrraedd dwy safon adeiladu:

- safon 'Rhagorol' yn gyffredinol o dan fframwaith asesu BREEAM³⁷, neu safon debyg o dan fframwaith asesu cyfwerth.
- safon ofynnol ar gyfer cynnwys wedi'i ailgylchu. Dylai o leiaf 10% o gyfanswm gwerth ariannol y deunyddiau a ddefnyddir ddeillio o gynnwys wedi'i ailgylchu a'i aildefnyddio yn y cynhyrchion a deunyddiau a ddewisir.

4.12 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos nifer y grantiau a ddyfarnwyd bob blwyddyn. Mae'r ffigurau ar gyfer 2020/21 yn is oherwydd effaith y pandemig COVID-19. Mae'r ffigurau ar gyfer ceisiadau grant 2021/22 yn gywir ar yr adeg y cafodd yr adroddiad ei ddrafftio. Mewn blwyddyn arferol – dyfernir tuag £1.3 miliwn i rhwng naw ac 13 o brosiectau.

Tabl 4.1 Grantiau a ddyfarnwyd gan y rhaglen Grant Cyfalaf

Trawsnewid³⁸

Blwyddyn	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Cyfanswm y grantiau y gwnaed cais amdanynt	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Grant a ddyfarnwyd (£)	Grant a hawliwyd (£)
2017-18	ddim ar gael	ddim ar gael	13	£1,342,492	£1,339,222
2018-19	ddim ar gael	ddim ar gael	11	£1,403,703	£1,403,458
2019-20	24	£3,546,182	9	£1,137,814	£1,067,814
2020-21	23	£3,580,162	8	£990,850	£868,249
2021-22	13	£1,817,119	9	£1,296,915	£517,520 ³⁹
Cyfanswm			50	£6,171,774	£5,196,263

³⁷ BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu), a gyhoeddwyd gyntaf gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu(BRE) ym 1990 yw'r dull hynaf yn y byd o asesu, graddio ac ardystio cynaliadwyedd adeiladau.

³⁹ Dyma'r swm a hawliwyd hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyfanswm y gwariant disgwylidig yw £1,280,755 a fyddai'n dod â chyfanswm y grant a hawliwyd i £5,959,498.

4.13 Mae'r data o 2019/20 ymlaen yn awgrymu bod 26 o blith y 60 o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn llwyddiannus sy'n cyfateb i gyfradd llwyddiant gyffredinol o 43 y cant i ymgeiswyr. Mae sawl ymgeisydd wedi gwneud cais fwy nag unwaith ac wedi bod yn llwyddiannus yn y pen draw, felly mae'r gyfradd llwyddiant wirioneddol yn debygol o fod yn agosach at hanner yr holl geisiadau a gafwyd.

4.14 Mae Tabl 4.2 isod yn amlinellu nifer y ceisiadau a wnaed fesul sector ers 2017/18. Amgueddfeydd sydd wedi gwneud y nifer fwyaf o geisiadau hyd yma (30), mae llyfrgelloedd wedi gwneud 28 o geisiadau, a dim ond dau gais a gafwyd gan wasanaethau archifau (o blith cyfanswm o saith gwasanaeth cymwys). Mae gwasanaethau amgueddfeydd yn llawer mwy tebygol o wneud cais am y lefel is o gyllid, sef grantiau Band A.

Tabl 4.2 Nifer y ceisiadau fesul sector⁴⁰

Blwyddyn	Archifau		Llyfrgelloedd		Amgueddfeydd		Cyfanswm		
	Band A	Band B	Band A	Band B	Band A	Band B	Cyfanswm Band A	Cyfanswm Band B	Cyfanswm
2019-20	2	0	5	5	8	4	15	9	24
2020-21	0	0	5	5	9	4	14	9	23
2021-22	0	0	5	3	5	0	10	3	13
Cyfanswm	2	0	15	13	22	8	39	21	60

4.15 Mae dadansoddiad o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd fesul ardal awdurdod lleol yn awgrymu cwmpas da ar y cyfan, er bod ardal Gogledd Cymru wedi'i thangynrychioli rhyw fymryn o gymharu â rhanbarthau eraill. Dyfarnwyd 13 o grantiau ar draws Gogledd Cymru, saith yn y Canolbarth, 12 yn ne-orllewin Cymru a 18 yn ne-ddwyrain Cymru.

4.16 Dyfernir grantiau i awdurdodau lleol ar gymhareb o 2:1 o gymharu â sefydliadau neu ymddiriedolaethau annibynnol, gyda 33 o grantiau lleol

⁴⁰ Gwybodaeth ar gael o 2019-20 ymlaen yn unig

wedi'u dyfarnu gan y Rhaglen yn y cyfnod 2017-22 o gymharu ag 17 ar gyfer sefydliadau annibynnol.

- 4.17 Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn cael grantiau gan y Rhaglen dros y cyfnod 2017-22 gan gynnwys Cyngor Caerdydd (chwe grant), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (pum grant), Cyngor Sir Caerfyrddin (pum grant), Cyngor Sir Penfro (pedwar grant) a Chyngor Sir Ceredigion (tri grant). Mae Ymddiriedolaeth Awen, sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd wedi derbyn tri grant.
- 4.18 O blith y 50 o grantiau a ddyfarnwyd, dim ond chwech a oedd yn werth dros £250,000. Y grant lleiaf a ddyfernir yw tua £10,000 a'r mwyaf yw £300,000. Swm cyfartalog y grant yw £117,092. Mae swm cyfartalog y grant a ddyfarnwyd i awdurdodau lleol ychydig yn uwch, sef £124,751 o'i gymharu â'r swm cyfartalog a ddyfarnwyd i sefydliadau annibynnol, sef £107,760.

Y broses ymgeisio

- 4.19 Mae dau gam i weithdrefn ymgeisio'r Rhaglen.
- Cam 1 - Cais agored i'r sectorau ddarparu Datganiad o Ddiddordeb
 - Cam 2 - Gofynnir i'r ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng Ngham 1 ddatblygu a chyflwyno cais llawn y mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r cynnig cychwynnol.
- 4.20 Gall sefydliadau gyflwyno hyd at ddau gais y flwyddyn ond rhaid iddynt nodi'r flaenoriaeth a ffefrir mewn amgylchiadau o'r fath a darparu tystiolaeth o'u gallu i reoli dau brosiect cyfalaf ar yr un pryd.
- 4.21 Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb yng Ngham 1 eu sgorio yn erbyn pum maes blaenoriaeth, pob un â ffactor pwysoli gwahanol, fel y dangosir yn Nhabl 4.3 isod:

Tabl 4.3 Meini Prawf Blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

	Meini Prawf Blaenoriaeth	Sgôr	Pwysoli Band A	Pwysoli Band B
1	Datblygu Cynaliadwy	0-4	x 4	x 5
2	Pobl	0-4	x 5	x 4
3	Casgliadau	0-4	x 4	x 4
4	Cyweddu Strategaethau	0-3	x 2	x 2
5	Safonau	0-3	x 2	x 2

4.22 Mae'r meini prawf blaenoriaeth wedi'u mapio yn erbyn Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y meini prawf datblygu cynaliadwy, disgwylir i brosiectau ddangos sut y byddant yn datblygu model cyflawni mwy cynaliadwy sy'n:

- *ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd*⁴¹ (e.e., drwy gynnal gwasanaethau, gwella effeithlonrwydd adnoddau, lleihau'r defnydd o ynni a dŵr, neu ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy) neu/a
- *darparu seilwaith modern a chysylltiedig*⁴² (e.e., drwy ddefnyddio technoleg ddigidol a symudol, dulliau rhanbarthol neu bartneriaethol neu gydleoli gwasanaethau).

4.23 O dan y maen prawf blaenoriaeth Pobl, dylai cynigion ddangos sut y gall y prosiect:

- *hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb*⁴³ (drwy wella mynediad neu gynorthwyo gwasanaethau i fod yn hygyrch i bawb)

⁴¹ Amcan Llesiant 3

⁴² Amcan Llesiant 11

⁴³ Amcan Llesiant 5

- *helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial*⁴⁴ (e.e., drwy ddatblygu cyfleusterau addysgol neu gymunedol newydd neu well darpariaeth TG gan gynnwys argaeledd Wi-Fi) neu/a
- *datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnherth*⁴⁵ (e.e. gwella adeiladau er mwyn darparu amgylchedd gwasanaeth mwy modern a deniadol, cyfrannu at fentrau adfywio cymunedol ehangach).

- 4.24 Er mwyn cael sgôr uchel o dan y maen prawf blaenoriaeth Casgliadau, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut y byddai eu cynigion yn gwella datblygiad casgliadau, gofal amdanynt neu fynediad iddynt er mwyn *hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd*⁴⁶ (gallai hyn gynnwys cyfleusterau ac offer newydd ar gyfer mynediad i gasgliadau, eu storio a'u harddangos, gan gynnwys mesurau i wella sefydlogrwydd amgylcheddol).
- 4.25 Roedd y maen prawf Cyweddu Strategaethau yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau ddangos sut y gallent gyflawni yn erbyn blaenoriaethau a chanlyniadau strategol yn unol â pholisïau, strategaethau a deddfwriaeth lleol a chenedlaethol, ac oedd y maen prawf Safonau yn gofyn i brosiectau ddangos sut yr oeddent yn bwriadu cynnal a datblygu ansawdd gwasanaethau yn unol â'r safonau, cynlluniau a deddfwriaeth perthnasol⁴⁷.

Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid

- 4.26 Ar sail y wybodaeth uchod ynghylch meini prawf y Rhaglen, a chyfweliadau cwmpasu a gynhaliwyd ag aelodau allweddol o Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru, crëwyd model rhesymeg theori newid. Cyflwynwyd y model rhesymeg hwn, a nodir yn Ffigur 4.1, i staff craidd, a gwnaed diwygiadau pellach er mwyn iddo adlewyrchu mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen yn gywir.

⁴⁴ Amcan Llesiant 7


⁴⁵ Amcan Llesiant 10

⁴⁶ Amcan Llesiant 12

⁴⁷ Roedd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Achredu Gwasanaeth Archif, Cynllun Achredu Amgueddfeydd, Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llyfrgelloedd Cymru, Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Cydraddoldeb 2010, Cynllun Indemniad y Llywodraeth, Cynllun Sicrwydd Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr, BS4971:2017 Conservation and care of archive and library collections; BS EN 16893:2018 Conservation of Cultural Heritage Specification for location, construction and modification of buildings or rooms intended for the storage or use of heritage collections.

4.27 Amlygwyd nifer o ragdybiaethau a ffactorau allanol hefyd gan yr Is-adran Diwylliant yn ystod y cyfweiliadau cwmpasu, ac adlewyrchir y rhain yn y model rhesymeg. Roedd y model rhesymeg yn sail i'r fframwaith holi ar gyfer y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yn y gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad hwn, er mwyn ei brofi ymhellach.

Ffigur 4.1 Model rhesymeg Damcaniaeth Newid y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid



5. Adolygiad y DU gyfan o ffynonellau cyllid cyfalaf ar gyfer y sector

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr adolygiad o'r ffynonellau cyllid cyfalaf amrywiol sydd ar gael yn y sector ledled y DU i gymharu eu nodau a'u hamcanion a'u dull gweithredu â rhai'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid (y Rhaglen).

5.2 Ceir gwybodaeth fanwl am holl ffynonellau cyllido'r DU a ystyriwyd, gan gynnwys y rhai sydd ar gael drwy Arts Council England, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac amrywiol ymddiriedolaethau a sefydliadau, yn Atodiad C.

Blaenoriaethau a meini prawf strategol

5.3 Cefnogir ystod eang o flaenoriaethau strategol ar draws y ffynonellau cyllido a adolygwyd ar gyfer y sector, ond mae rhai elfennau cyffredin gan gynnwys ffocws ar:

- wella cyflwr adeiladau (e.e., cynnal a chadw, atgyweiriadau brys neu i'w galluogi i ddod yn fwy hyblyg neu fasnachol)
- gwella cynhwysiant a mynediad (gan gynnwys mynediad digidol)
- diogelu sefydliadau ar gyfer y dyfodol neu eu gwneud yn fwy cynaliadwy (e.e. cynyddu'r incwm a gynhyrchir drwy safle manwerthu neu gaffi)
- cyfrannu at adfywio'r economi leol
- cefnogi'r cysylltiad â'r gymuned leol (cynnwys y gymuned a llesiant cymunedol)
- gwella profiad yr ymwelydd neu nifer yr ymwelwyr
- gwella perfformiad amgylcheddol adeiladau (e.e., drwy leihau allyriadau carbon, cynyddu effeithlonrwydd ynni neu wella cyfleusterau cadwraeth).

Y cyllid sydd ar gael

- 5.4 Yn Lloegr mae cronfa wella benodol ar gael i lyfrgelloedd (LIF). Mae dwy gronfa bosibl ar gael i amgueddfeydd wneud cais amdanynt yn Lloegr, ac mae gan yr Alban hefyd gronfa gyfalaf bwrpasol ar gyfer y sector amgueddfeydd. Mae ffocws y ddwy gronfa ar gyfer amgueddfeydd yn Lloegr yn dra gwahanol: mae'r Gronfa Ystadau a Datblygu Amgueddfeydd (MEND) yn blaenoriaethu anghenion cynnal a chadw mwy dybryd ond diben y grantiau drwy'r DCMS/Sefydliad Wolfson yw gwella'r dehongliad o gasgliadau, storfeydd a chadwraeth yn bennaf. Ni chanfuwyd unrhyw gronfeydd penodol i gefnogi'r sector archifau yn Lloegr na'r Alban.
- 5.5 Roedd y cyllid a oedd ar gael drwy'r ffrydiau cyllido amrywiol a adolygwyd yn amrywio'n sylweddol, ond yn tueddu i ddarparu swm uwch o gyllid grant na'r Rhaglen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau mwy strategol fel y dangosir yn Nhabl 5.1:

Tabl 5.1 Symiau cyllid cyfalaf sydd ar gael o fewn cronfeydd y DU

Cronfa	Y cyllid sydd ar gael
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (y DU gyfan)	Grantiau llai (o dan £250,000) Grantiau mwy (£250,000 i £5 miliwn)
Libraries Improvement Fund (Arts Council England)	Gellir dyfarnu rhwng £50,000 a £5 miliwn.
Museum Estate and Development Fund (Arts Council England)	Gellir dyfarnu rhwng £50,000 a £5 miliwn.
DCMS/Cronfa Wolfson	Rhwng £20,000 a £300,000
Cronfa Datblygu Diwylliannol (DCMS)	£2-5 miliwn
Cronfa Grantiau Bach (Museums Galleries Scotland)	Hyd at £15,000
Museum Capital Resilience Fund (Museums Galleries Scotland)	Rhwng £3,000 a £75,000 (wedi'i gapio ar £20,000 ar gyfer amgueddfeydd heb eu hachredu)
Sefydliad Wolfson (ledled y DU)	£15,000-£500,000

Proses ymgeisio, rheoli a monitro

- 5.6 Yn gyffredinol, roedd cronfeydd cyfalaf llai (llai na £250,000) yn dueddol o fod â phroses ymgeisio un cam symlach ond roedd cronfeydd mwy yn aml yn cynnwys cam Datgan Diddordeb cynnar a oedd yn gofyn am gyflwyno cynnig prosiect cryno, wedi'i ddilyn gan gais llawn, mwy manwl. Fel arfer, roedd y Datganiadau o Ddiddordeb yn fyr (er enghraifft roedd angen llai na 400 o eiriau ar LIF).
- 5.7 Roedd ceisiadau llawn fel arfer yn gofyn am fanylion ynghylch sut yr oedd y prosiect yn bodloni nodau ac amcanion y gronfa, y trefniadau llywodraethu a rheoli a datganiadau ariannol (e.e. llif arian, cofrestr risg wedi'i chostio a datganiad dull mewn perthynas â chaffael). Roedd hefyd yn ofynnol yn nodweddiadol i brosiectau mwy gynnwys cynllun cost a manylebau dylunio neu gallai fod yn ofynnol iddynt ddangos tystiolaeth o arian cyfatebol, gweithio mewn partneriaeth neu gynlluniau codi arian.
- 5.8 Mae grantiau a ddyfarnwyd gan Arts Council England hefyd wedi newid yn ddiweddar i fod yn broses ymgeisio ddigidol, gan ddefnyddio porth cyflwyno ar-lein.
- 5.9 Amlygodd yr adolygiad hefyd rai prosesau sydd ar waith i ystyried ceisiadau. Yn aml roedd hyn yn cynnwys panel o arbenigwyr, ac yn nodweddiadol yn ystyried ceisiadau yn erbyn ffactorau fel:
- gwasgariad daearyddol (gydag awydd i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd pob rhanbarth neu ardaloedd â mwy o amddifadedd)
 - risg neu ymarferoldeb cyflawni'r ceisiadau
 - cydweddiad strategol neu dystiolaeth o angen
 - y math o brosiect
 - effaith y prosiect.

Sylwadau i gloi

- 5.10 Er bod nifer o gronfeydd wedi'u nodi fel rhan o'r adolygiad hwn o gyllid ar draws y DU, ychydig iawn o opsiynau sydd ar gael i'r sector yng Nghymru wneud cais am gyllid cyfalaf y tu hwnt i'r hyn a ddarperir drwy'r Rhaglen (er ei bod yn nodedig bod y rhaglen Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi

nodi yn ei fframwaith strategol nad oes cynrychiolaeth ddigonol o geisiadau o Gymru ar hyn o bryd).

- 5.11 Dengys yr adolygiad o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y sector ledled y DU fod y Rhaglen yn debyg iawn i'r hyn a gynigir mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r Rhaglen ar gael i lyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru, ond mae'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael mewn mannau eraill yn canolbwyntio ar y sector amgueddfeydd.
- 5.12 Mae'r prosesau ymgeisio ac asesu a ddefnyddir gan y Rhaglen hefyd yn ymddangos yn debyg i gronfeydd cyfalaf cyfatebol ar draws y DU, er ei bod yn ymddangos bod gan y rhain broses Datgan Diddordeb symlach, a'u bod yn symud fwyfwy tuag at brosesau ymgeisio ar-lein.
- 5.13 Gwelir blaenoriaethau cyllido strategol tebyg ar draws y DU. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod ffocws cryfach yng Nghymru a Lloegr ar ddarparu cyllid cynnal a chadw, yn enwedig ar gyfer amgueddfeydd. Mae cyllid mwy o faint ar lefel fwy strategol hefyd yn dod yn fwyfwy cyffredin yn Lloegr.

6. Nodau, amcanion a sail resymegol

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn y cyfranwyr mewn perthynas â nodau ac amcanion y Rhaglen, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag anghenion y sector. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y bernir bod y Rhaglen yn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

6.2 Roedd staff a rhanddeiliaid yn ymwybodol o gefndir y Rhaglen gan mai cronfa ar gyfer llyfrgelloedd ydoedd i ddechrau ond ei bod wedi'i hehangu i gynnwys archifau ac amgueddfeydd. I ddechrau, roedd y gronfa wedi ei sefydlu i ymateb i'r safonau llyfrgelloedd⁴⁸. Nododd dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd am y safonau o fewn yr Is-adran Diwylliant ddau faes penodol o bryder: lefelau safonau proffesiynol a diffyg buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau. Pwrpas y grantiau bach yn wreiddiol oedd 'newid gwedd' y lleoedd hyn – gwneud llyfrgelloedd yn 'lleoedd y mae pobl yn hoffi bod ynddynt' a'u gwneud yn fwy addas i gynnal amrywiaeth o weithgareddau. Pwrpas y grantiau mwy i ddechrau oedd cefnogi prosiectau strategol:

'Yn sylfaenol, mae amcanion y gronfa wedi aros yr un fath. Maent wedi'u hailddyfeisio ar gyfer blaenoriaethau newydd y llywodraeth, ond rydym am iddynt fod yn lleoedd braf a diogel i ymweld â nhw o hyd.'

6.3 Roedd barn, fodd bynnag, nad oedd y Rhaglen erioed wedi'i chynllunio'n briodol i ddiwallu anghenion traws-sector yn enwedig yn achos amgueddfeydd, lle roedd eu hanghenion a'u gofynion wedi'u 'gwasgu i mewn i rywbeth a oedd eisoes yn bodoli yn hytrach na sefydlu cronfa sy'n addas ar gyfer y sector.' Er bod yr Adolygiad o Amgueddfeydd wedi gwneud argymhelliad ar gyfer cyllid trawsnewid ar gyfer y sector amgueddfeydd, dadleuwyd bod hynny mewn perthynas â chyllid refeniw i greu tri chorff rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd ar lefel leol yn hytrach na chyllid cyfalaf.

6.4 At ei gilydd, disgrifiodd y rhanddeiliaid y Rhaglen fel un â'r nod o drawsnewid gwasanaethau fel bod y sector yn fwy cynaliadwy ac addas ar gyfer y dyfodol. Drwy wneud hynny, byddai'r gwasanaeth yn fwy rhyng-gysylltiedig

⁴⁸ Mae fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn darparu dull o fesur ansawdd a darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

â'r gymuned ac yn fwy hygyrch i'r cyhoedd: 'mae'n gweddu'n dda iawn i anghenion y sector.' Fe'i disgrifiwyd fel yr unig gynllun grant 'hawdd' y gallai'r sector wneud cais am gyllid cyfalaf iddo.

- 6.5 Disgrifiodd lleiafrif o randdeiliaid y gronfa yn fwy fel cronfa 'tai bach a boeleri,' neu gronfa cynnal a chadw, a sefydlwyd i lenwi bwloch amlwg, ond serch hynny, yn bennaf ar gyfer cyllido 'y pethau diflas nad oes neb arall eisiau eu cyllido' neu ar gyfer cyllido mân welliannau yn hytrach na dim byd mawr a gwirioneddol drawsnewidiol. Roedd y farn ynghylch a ddylai'r Rhaglen gyllido gwaith cynnal a chadw yn amrywio yn dibynnu ar y sector. Roedd barn gref mai awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am waith gynnal a chadw cyffredinol eu hadeiladau, ac y dylid gwneud hyn drwy eu hadnoddau eu hunain. Fodd bynnag, bu dadlau, yn achos amgueddfeydd yn arbennig, sy'n aml wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol, ynghylch a ellid ystyried gwaith cynnal a chadw ar gyfer amgueddfeydd o'r fath yn 'drawsnewidiol'. Teimlai rhai nad oedd nodau'r Rhaglen bob amser yn gwbl glir yn ei meini prawf o ran yr hyn y gellid neu na ellid ei ariannu mewn perthynas â gwaith 'cynnal a chadw' nac ychwaith ei bod yn cadw i fyny â'r galw am waith cynnal a chadw o'r fath. Roedd barn bod angen i'r Rhaglen gydnabod yn llawn, o ran y sector amgueddfeydd yn benodol, mai'r prif angen, ar ôl deng mlynedd a mwy o galedi, oedd cyllid cynnal a chadw.
- 6.6 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu a oedd y Rhaglen yn ddigon uchelgeisiol ac a oedd ei dyheadau'n ddigonol, gan nodi bod ganddi botensial enfawr i ariannu 'pethau sydd wir yn gwneud gwahaniaeth,' ond er mwyn cyflawni hynny, byddai angen i'r gronfa dyfu i tua £10-20 miliwn y flwyddyn.

'Mae enw'r grant yn awgrymu mai ei nod yw trawsnewid, ond nid yw'n gwneud hynny.'

- 6.7 O ran elfen cyweddu strategaethau'r Rhaglen, teimlai rhanddeiliaid a sefydliadau awdurdodau lleol fel ei gilydd bod cyfatebiaeth gref rhyngddi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, o ran Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid bod 'bwloch strategol mewn perthynas â diwylliant.' Heblaw am ymrwymiad ar gyfer strategaeth ddiwylliant newydd, teimlai'r rhanddeiliaid

mai prin oedd y blaenoriaethau penodol y gellid eu cysoni'n hawdd â'r Rhaglen. Yn hyn o beth, disgrifiwyd y Rhaglen fel un a oedd mewn 'dipyn o wactod o ran polisiau', gan gydnabod y gallai amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd gyfrannu at lawer o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas ag addysg, adfywio, a newid yn yr hinsawdd.

6.8 Cydnabuwyd ymhellach, gyda llyfrgelloedd ac archifau bellach yn gyfrifoldeb i adran weinidogol ar wahân i amgueddfeydd, fod hyn yn cyflwyno rhagor o heriau (neu gyfleoedd posibl) ar draws adrannau ac ar draws y llywodraeth. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gellid sicrhau mwy o gyfatebiaeth a chreu mwy o gysylltiadau rhwng y Rhaglen a chyllid ehangach ar gyfer adfywio a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o ran cydweithredu amlasiantaeth o fewn ardal neu ranbarth.

6.9 Mae dealltwriaeth gyffredinol ymhlith llawer o sefydliadau cymwys mai nod y Rhaglen yw cefnogi'r sector i wella a datblygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Eglurwyd mai nod y Rhaglen, o'u safbwynt hwy, yw sicrhau bod llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau yn addas at y diben, yn ogystal â darparu cymorth i foderneiddio a thrawsnewid eu harlwy presennol. Er bod sefydliadau'n cydnabod mai rhaglen grant cyfalaf yw hon, mae cytundeb cyffredinol mai'r uchelgais terfynol yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gymunedau.

'Mewn ystyr ehangach, trawsnewid y gwasanaethau gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth, gan roi cyfalaf iddynt sy'n caniatáu iddynt gymryd cam ymlaen - rhywbeth y byddent yn ei chael hi'n anodd ei wneud gyda chyllid craidd awdurdodau lleol yn unig.'

6.10 Fframiodd sefydliadau eraill eu dealltwriaeth o'r Rhaglen mewn perthynas â'u prosiectau eu hunain. Eglurodd y sefydliadau hyn nodau'r Rhaglen mewn ystyr ychydig yn fwy cul, er enghraifft, gan awgrymu bod y Rhaglen yn anelu at gefnogi adnewyddu cyfleusterau neu fynd i'r afael â heriau cynnal a chadw.

'Mae yno i ddarparu cyllid ar gyfer y pethau diflas, cyffredin sydd eu hangen arnom. Nid yw yno fel cronfa grantiau gyffrous...mae yno i dalu am bethau'n ymwneud â brics a mortar.'

- 6.11 Dywedodd sefydliadau'n aml bod y sector yn wynebu heriau a bod y Rhaglen wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â'r rheini. Mae hyn yn cynnwys heriau sy'n ymwneud â dirywiad adeiladau a sicrhau mynediad a chyfleusterau priodol, yn ogystal â'r her o fodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran ansawdd a moderneiddio gwasanaethau.

'Bydd angen cymorth arnom i sicrhau bod ein casgliad yn parhau i gael ei warchod yn y dyfodol ac rydym yn bryderus iawn am ein casgliad o waith celf.'

- 6.12 Rhoddodd rhai sefydliadau'r Rhaglen mewn cyd-destun strategol ehangach, gan nodi ei bod yn anelu at helpu'r sector i gyflawni ei flaenoriaethau, ei strategaethau a'i uchelgeisiau ei hun (er enghraifft, yn ymwneud â chydleoli neu hygyrchedd gwasanaethau). Dywedodd lleiafrif hefyd fod y Rhaglen yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector ac yn eu cefnogi, er nad oeddent yn nodi strategaethau neu flaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru.

- 6.13 Roedd cytundeb ymhlith llawer o sefydliadau mai prin yw'r cyfleoedd eraill iddynt gael cyllid cyfalaf. Dywedodd sefydliadau llai, annibynnol nad oes ganddynt fynediad at gyllid cyfalaf o'r fath, ac yn yr un modd, dywedodd sefydliadau mwy sydd â mynediad at gyllid awdurdodau lleol hefyd fod angen grantiau o ffynhonnell ychwanegol arnynt i gyflawni eu huchelgeisiau. Un o fanteision allweddol y Rhaglen a amlygwyd gan sefydliadau yw ei bod wedi'i theilwra i anghenion cyfalaf y sector yng Nghymru yn benodol; maent felly yn ei gweld fel y cam cyntaf naturiol wrth ystyried cyllid grant. Yn hynny o beth, cydnabyddir bod y Rhaglen yn ategu cyllid arall mwy cyffredinol y sector treftadaeth a allai fod ar gael ac yn ychwanegu gwerth ato.

'I ni, mae'n ymddangos yn gronfa gyllido hynod ddefnyddiol oherwydd ei bod yn caniatáu i ni wneud rhywbeth nad yw grantiau eraill yn hoffi ei gyffwrdd... fe'n helpodd ni i wneud ychydig o waith cyfalaf sylfaenol yr oedd ei angen arnom ac yr oedd yn anodd iawn ei gyfiawnhau i gyllidwyr eraill.'

'Mae'n gyllid priodol i ymgeisio amdano a byddech yn gobeithio eu bod yn deall yr hyn rydym yn ceisio ei wneud hefyd...byddech yn gobeithio y bydden nhw'n deall y cyd-destun fel y byddai hynny'n rhoi mantais i chi ar

unwaith, yn hytrach na mynd at ryw ariannwr preifat ar hap a cheisio egluro beth yw archif.'

- 6.14 Dywedodd rhai sefydliadau hefyd fod amcanion y Rhaglen yn ddigon eang i adlewyrchu anghenion amrywiol y sector. Er enghraifft, er bod angen gwaith adnewyddu sylfaenol ond ar raddfa fach ar rai sefydliadau, mae angen trawsnewidiad ar raddfa fawr ar eraill mewn perthynas â lle. Roeddent yn teimlo bod amcanion cyffredinol y Rhaglen yn caniatáu i'r anghenion amrywiol hyn gael eu diwallu. Roedd y sefydliadau hynny nad oeddent wedi gwneud cais am grant yn flaenorol hefyd yn cytuno bod amcanion cyffredinol y Rhaglen yn golygu ei bod yn debygol o fodloni eu gofynion cyllid cyfalaf yn y dyfodol agos.

'Roedd gennym rai adeiladau adfeiliedig iawn yr oedd angen eu hadnewyddu a'u hailwampio'n eithaf difrifol ac felly byddwn yn dweud ei bod yn hawdd iawn yn rhan wreiddiol y Rhaglen i ni gyflwyno cynigion....wrth i amser fynd heibio, os ewch i bob un o'n llyfrgelloedd mae'r cyflwr yn dda iawn mewn gwirionedd...felly, wrth iddi ddatblygu, rydym wedi ceisio ychwanegu gwerth at y llyfrgelloedd sydd gennym. Er enghraifft, rydym wedi dewis cael ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd TG, manau i bobl ifanc yn eu harddegau, lle y gallwn ddarparu gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd.'

7. Sut y cafodd y rhaglen ei dylunio a'i gweinyddu

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y farn a gasglwyd yn ystod y gwaith maes ynglŷn â dyluniad y Rhaglen gan gynnwys y broses ymgeisio am y gronfa. Trafodir hefyd y trefniadau rheoli a chymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, y gofynion monitro ac adrodd a threfniadau llywodraethu'r Rhaglen.

Dod i wybod am y Rhaglen

- 7.2 O blith yr ymatebion i'r arolygon a dderbyniwyd gan 16 o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i'r rhaglen, roedd 11 wedi clywed am y Rhaglen yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru, gan aelodau unigol o dîm staff yr Is-adran Diwylliant neu ddatganiad i'r wasg/e-bost. Soniodd wyth arall eu bod wedi derbyn gohebiaeth yn ymwneud â'r Rhaglen gan sefydliadau yn y sector (e.e. Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru neu Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru). Roedd pawb yn teimlo y bu'n weddol hawdd neu'n hawdd iawn cael gafael ar wybodaeth am y rhaglen. Yr unig awgrym o ran ffyrdd o wella mynediad at wybodaeth oedd y gellid ei hyrwyddo'n ehangach drwy rwydweithiau awdurdodau lleol yn ogystal â rhwydweithiau sector.
- 7.3 O blith y naw a ymatebodd i'r arolwg o sefydliadau cymwys nad oeddent wedi gwneud cais i'r rhaglen eto, roedd pump wedi clywed amdani'n flaenorol drwy'r un sianeli â'r rhai a grybwyllwyd uchod. Fodd bynnag, nid oedd pedwar ymatebydd (pob un ohonynt yn amgueddfeydd annibynnol) wedi bod yn ymwybodol o'r Rhaglen o'r blaen sy'n awgrymu nad yw'r wybodaeth yn cyrraedd y garfan hon cystal ag y gallai. O blith y rhai nad oeddent wedi gwneud cais am grant eto, teimlai tri eu bod yn debygol neu'n weddol debygol o wneud cais yn y dyfodol – i gyflawni rhan o becyn cyllido ehangach neu i ddatblygu eu seilwaith presennol. Teimlai pedwar ymatebydd eu bod yn annhebygol o wneud cais oherwydd nad oedd gan eu gwasanaeth anghenion cyfalaf penodol ar hyn o bryd e.e., roedd un sefydliad mewn adeilad cymharol newydd gyda darpariaeth TG dda, ac felly nid oedd angen cymorth grant arno ar hyn o bryd, neu oherwydd nad oedd ganddynt wybodaeth ddigonol am y Rhaglen i wneud asesiad ynglŷn â hyn.

7.4 Er mwyn gwella mynediad at wybodaeth am y Rhaglen, awgrymodd sefydliadau cymwys nad oeddent wedi gwneud cais eto y dylid darparu tudalen we benodol gyda gwybodaeth bellach am y meini prawf a'r broses ymgeisio, negeseuon e-bost uniongyrchol a gweithdai i'r sector er mwyn amlinellu sut y mae'r Rhaglen yn gweithio ynghyd ag enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus. Ond er gwaethaf gwelliannau o'r fath, dywedodd sefydliadau cymwys y byddent yn parhau i'w chael hi'n anodd gwneud cais oherwydd 'diffyg arbenigedd o ran llunio ceisiadau am gyllid grant' neu ddiffyg capasiti staff (e.e., nid oeddent yn cyflogi staff ac roeddent yn dibynnu ar wirfoddolwyr).

7.5 Awgrymodd y rhanddeiliaid nifer o rwystrau canfyddedig tebyg i ymgeisio am grant ar hyn o bryd, ac roedd diffyg capasiti yn arbennig o berthnasol. O fewn gwasanaethau archifau, amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac amgueddfeydd annibynnol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, canfuwyd bod y gallu i baratoi ceisiadau yn arbennig o brin.

'Mae'n cymryd llawer o waith i ddatblygu cais – y ddau gam, ac amserlen heriol. Mae'n straen a does dim llawer o hyblygrwydd'

7.6 Ymysg y rhwystrau canfyddedig eraill a amlygwyd gan randdeiliaid roedd:

- diffyg hyder i wneud cais am gyllid ac i reoli prosiect cyfalaf o fewn y sector
- sefydliadau o fewn awdurdodau lleol yn gorfod gofyn am ganiatâd i wneud cais am grantiau, gan arwain at oedi pellach, neu rwystrau ymhellach i fyny'r gadwyn reoli
- dibyniaeth ar sawl adran arall yn yr awdurdod lleol (megis adrannau TG, cynllunio neu ystadau) i wneud cais, a'r heriau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar yr arbenigedd hwnnw o fewn terfynau amser tynn, yn enwedig wrth gystadlu yn erbyn adrannau eraill sydd â gofynion mwy am gyllid cyfalaf.
- y gallu i ddod o hyd i arian cyfatebol yn dod yn anos fyth oherwydd caledi parhaus o fewn y sector cyhoeddus.

Dyluniad y rhaglen

- 7.7 Teimlai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod blaenoriaethau a meini prawf strategol y gronfa yn briodol ac yn 'iawn' er bod eu pwysigrwydd yn amrywio yn ôl sector. Er bod cydnabyddiaeth bod y dull presennol o osod y meini prawf yn dilyn dull 'un ateb sy'n addas i bawb', teimlwyd hefyd bod y meini prawf yn cael eu hystyried mewn ffordd hyblyg ac yn ystyried y gwahanol flaenoriaethau a allai fod gan bob sector. Er enghraifft, cydnabuwyd bod yr agenda mynediad digidol yn arbennig o berthnasol ar draws y sectorau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau. Roedd llyfrgelloedd yn arbennig yn awyddus i gyllido prosiectau a oedd yn ymwneud â'r flaenoriaeth hon. Roedd archifau'n edrych yn gynyddol ar uwchraddio systemau TG a gwasanaethau digidol (yn enwedig gan fod llawer o wasanaethau archifau wedi'u lleoli mewn adeiladau cymharol newydd), ond nid oedd y flaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y sector o reidrwydd yn cael ei hadlewyrchu ar lefel awdurdodau lleol unigol. Ar gyfer y sector amgueddfeydd, roedd buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith ffisegol yn fwy o ffocws ar gyfer y dyfodol agos gan eu bod yn tueddu i gael eu harwain yn fwy gan arddangosfeydd, ond roedd diddordeb hefyd mewn cyfleoedd datblygu digidol.
- 7.8 O ran meini prawf y grant, disgrifiodd y rhanddeiliaid a fu'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau fod y terfynau cyllido ar gyfer y Rhaglen yn 'weddol fympwyol' ond gan gydnabod mai cronfa fach ydoedd ac felly bod angen iddi fod o fudd i gymunedau ledled Cymru a chefnogi nifer o brosiectau llai yn hytrach na llond llaw o brosiectau mwy. Teimlai rhai rhanddeiliaid fod y meini prawf ar gyfer y grant yn fwy addas ar gyfer y sector llyfrgelloedd, a bod archifau, yn arbennig, yn ei chael hi'n anodd cyflawni rhai o flaenoriaethau strategol y Rhaglen e.e. roedd natur y gwasanaeth yn golygu y byddent yn sgorio'n is ar y maen prawf yn ymwneud â darparu mynediad. Yn hynny o beth, awgrymwyd y gellid addasu pwysoliad y blaenoriaethau strategol i ymateb i ofynion y sector.
- 7.9 Cododd rhai rhanddeiliaid lyfrgelloedd cymunedol hefyd, yn enwedig gan fod y syniad o 'hybiau cymunedol' ar gynnydd o fewn awdurdodau lleol, gyda llyfrgelloedd yn aml yn chwarae rhan greiddiol yn hyn o beth. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r meini prawf cymhwysedd i addasu i hyn maes o law.

Roedd lleiafrif o randdeiliaid hefyd yn dadlau nad oedd rhai prosiectau'n cydfynd ag unrhyw nodau strategol penodol a bod angen cyllid arnynt ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu ar gyfer gwasanaethau sylfaenol (e.e., adnewyddu toiledau neu silffoedd newydd). Mewn achosion o'r fath, fel arfer ar gyfer lefelau cyllido is, ystyriwyd bod ymateb i feini prawf y grant yn rhy feichus.

- 7.10 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid a sefydliadau cymwys yn gyfforddus â'r terfynau cyllid uwch ac is sydd ar gael, ond awgrymodd lleiafrif o'r rhai a gyfwelwyd y byddai cap uwch ar y cyllid yn cael ei groesawu ac y byddai defnydd da yn cael ei wneud ohono (pe bai modd ei wario dros gyfnod hwy).
- 7.11 Roedd staff Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd unrhyw ddyraniad penodol wedi'i wneud fesul sector o'r cyllid a oedd ar gael a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail cryfder y prosiect, er bod daearyddiaeth, ardaloedd o amddifadedd ac ymgysylltu â chymunedau oll yn feini prawf ychwanegol, nad oeddent o reidrwydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau, a oedd yn cael eu defnyddio lle roedd yn anodd penderfynu rhwng ceisiadau prosiectau.

'mater o geisio cael cydbwysedd ydyw yn y pen draw - rydym yn ceisio cael cydbwysedd daearyddol a sicrhau ein hunain ein bod wedi gwneud ein gorau.'

- 7.12 Roedd 12 o blith yr 16 o ymgeiswyr a ymatebodd i'r arolwg wedi ei chael hi'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd addasu eu cais i gyd-fynd â blaenoriaethau a meini prawf y Rhaglen, tra bod pedwar wedi'i chael hi'n weddol anodd.
- 7.13 Dywedodd sefydliadau'n aml fod blaenoriaethau strategol a meini prawf grant y Rhaglen yn briodol. Roedd llawer yn ystyried bod y broses o ddangos sut y mae eu prosiectau'n bodloni blaenoriaethau a meini prawf y Rhaglen yn syml. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i natur eang y blaenoriaethau a'r meini prawf, yr oedd sefydliadau'n teimlo eu bod yn caniatáu iddynt gyflwyno prosiectau amrywiol. Dywedwyd mai ychydig o anhawster a gafwyd wrth ddehongli a deall y blaenoriaethau a'r meini prawf.
- 7.14 Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am bob sefydliad. Dywedodd lleiafrif, yn enwedig y rhai â llai o brofiad o wneud ceisiadau am gyllid cyfalaf, sefydliadau llai a/neu'r rhai a oedd yn gwneud cais am brosiectau ar raddfa fach, nad oedd meini prawf y grant o reidrwydd yn briodol ym mhob achos. Teimlent y

gallai fod yn heriol ac nad oedd bob amser yn briodol disgwyl i brosiectau bach, llai cymhleth ddangos cyfatebiaeth glir â holl feini prawf y grant.

- 7.15 Fe wnaeth sefydliadau rai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r Rhaglen o ran y blaenoriaethau neu 'r newidiadau i'r meini prawf. Roedd y rhain yn cynnwys 'blaenoriaethau a meini prawf mwy realistig a sector-benodol' neu ddim ond dileu'r gofyniad i'r prosiectau gyd-fynd â blaenoriaethau ac agendâu cyfredol a chydabod:

'weithiau dim ond buddsoddiad a gwelliannau sydd ei angen ar adeilad er mwyn gwneud lle yn ddiogel, yn ddymunol, yn gynnes ac yn addas at y diben. Dylai hyn fod yn ddigon o reswm i fuddsoddi.'

- 7.16 Roedd lefel y cyllid a oedd ar gael yn cael ei hystyried yn briodol ar y cyfan ac roedd sefydliadau yn aml yn mynegi eu gwerthfawrogiad o gael grant. Dywedodd sefydliadau â chyllidebau craidd llai fod y lefelau ymhell y tu hwnt i unrhyw beth y gallent fod wedi'i gyllido eu hunain, tra bod eraill yn gwerthfawrogi'r ffordd y gallai'r grant fod yn arian cyfatebol ar gyfer cyllid craidd awdurdodau lleol. Yn yr ystyr hon, dywedodd sefydliadau fod y Rhaglen yn ymateb yn dda i'w gofynion cyfalaf. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd bod uchafswm y grant yn fach o gymharu â gofynion prosiectau cyfalaf mawr. Yn yr achos hwn, cydnabuwyd efallai na fyddai'r grant yn caniatáu trawsnewidiadau mwy uchelgeisiol ar raddfa fawr neu y gallai ond gwneud hynny fel rhan o becyn cyllido ehangach. Roedd sefydliadau'n deall pwrpas y lefelau cyllido gwahanol sydd ar gael gyda'r grantiau Bandiau A a B ac yn teimlo eu bod wedi gwneud cais am y Band priodol.

'Roedd yn swm perffaith oherwydd mae'r rhain yn symiau o arian sydd ymhell y tu hwnt i amgueddfeydd bach.'

'Rwy'n meddwl y byddem bob amser wedi croesawu'r cyfle i allu gwneud cais am fwy o arian oherwydd mae [ein hamgueddfa] yn safle cymhleth iawn...felly, mewn gwirionedd, pan fyddwn yn sôn am ddatblygiad cyfalaf mawr, nid yw £300,000 yn swm mawr iawn o arian i ni ond ar yr un pryd dyma'r cynllun grant a oedd ar gael ac fe wnaethom ddylunio prosiect a

oedd yn cyd-fynd â pharamedrau'r cynllun ac roeddem yn dal i fod yn hapus i gael cymorth.'

7.17 Roedd y brif broblem a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â meini prawf y grant yn ymwneud â'r cylch cyllido blynyddol. Ystyriwyd bod hon yn agwedd heriol ar ddyluniad y Rhaglen ar draws pob sector a allai 'gyfyngu ar uchelgais' ar brydiau. Roedd gwneud cais am grantiau cyllid cyfalaf a'u rheoli yn broses anghyfarwydd i lawer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd, ond dylid nodi bod gofynion o'r fath yn cyd-fynd ag amodau cyffredinol grantiau Llywodraeth Cymru ac nad ydynt yn ofynion sy'n benodol i'r Rhaglen hon. Amlygwyd nifer o ffactorau gan randdeiliaid gan gynnwys y canlynol:

- mae awdurdodau lleol a sefydliadau annibynnol yn gallu symud arian i wahanol flynyddoedd ariannol ac felly nid ydynt yn gyfarwydd â gorfod gwario'r cyfan o fewn un flwyddyn ariannol
- mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda thimau ystadau canolog, sy'n aml yn gweithio ar draws nifer o brosiectau cyfalaf, ac nid ydynt bob amser yn gallu ymateb yn amserol
- mae llawer o amgueddfeydd, a rhai llyfrgelloedd ac archifau wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol, sy'n ychwanegu haen arall o gynllunio ac ymgynghori cyn y gellir ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf, sy'n achosi rhagor o oedi
- mae gweithio i amserlen mor gaeth yn ei gwneud yn anodd alinio arian cyfatebol arall neu gael gafael ar arian grant o fannau eraill
- mae natur cynigion partneriaeth yn fwy cymhleth ac yn llai tebygol o allu cael eu cyflawni o fewn amserlen mor fyr oherwydd bod angen delio â nifer o sefydliadau neu adrannau
- nid yw oedi gyda chaffael a/neu gadwyni cyflenwi a phroblemau o ran dod o hyd i gontractwyr bob amser yn gweithio o fewn terfynau amser mor dynn ac anhyblyg.

7.18 Dywedodd sefydliadau eu bod yn aml yn cael trafferth cwblhau prosiectau o fewn y cyfnod presennol o flwyddyn, hyd yn oed pan oeddent wedi llwyddo i gyflawni eu prosiectau o fewn y flwyddyn ariannol fel y bwriadwyd. Roedd hyn

yn wir am brosiectau bach a mawr gan y gallai pob proses gaffael gymryd amser hir ac roedd oedi gyda gwaith adeiladu yn gyffredin. Roedd prosiectau mawr, a oedd yn cynnwys grant gan y Rhaglen fel rhan o becyn cyllido ehangach, yn fwy tebygol o allu ymateb i'r cylch blynyddol, gan eu bod yn cynllunio'n strategol i ddefnyddio pob grant ar yr amser mwyaf priodol.

- 7.19 Nid oedd rhanddeiliaid yn teimlo bod strwythur presennol y Rhaglen yn annog gweithio mewn partneriaeth o reidrwydd. Er y byddai'n fuddiol gweld seilwaith digidol yn cael ei brynu ar y cyd ar draws gwasanaethau, byddai hyn yn cael ei ystyried yn gymhleth. Awgrymwyd y gallai sefydliadau ochel rhag arwain ar unrhyw gais cydweithredol rhag iddo gael ei gyfrif fel un o'u dau gais mewn unrhyw flwyddyn benodol.
- 7.20 Cafwyd ymateb tebyg gan sefydliadau nad oeddent yn teimlo bod y Rhaglen yn annog neu'n mynnu gweithio mewn partneriaeth yn weithredol fel rhan o'r cais am grant neu gyflawni prosiect. Felly nid oedd cynnwys partneriaethau fel rhan o'u cynigion yn brif ystyriaeth i'r rhan fwyaf o sefydliadau. Fodd bynnag, roedd gan lawer o sefydliadau uchelgais eisoes i weithio mewn partneriaeth fel rhan o'u prosiectau (yn enwedig prosiectau cydleoli) ac roeddent yn teimlo y byddai'r Rhaglen yn cefnogi ac yn annog yr uchelgeisiau presennol hyn. O'r herwydd, roedd sefydliadau fel arfer yn penderfynu ar eu dull o weithio mewn partneriaeth yn annibynnol ar flaenoriaethau strategol a meini prawf grant y Rhaglen. Nid oedd gweithio mewn partneriaeth o reidrwydd yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer pob math o brosiectau cyfalaf (er enghraifft, pan fo angen gwelliannau strwythurol sylfaenol i adeilad).

'Rhaid i mi ddweud 'nac ydy' yn blwmp ac yn blaen. Rydyn ni wedi dilyn y trywydd hwn gyda [noddwr arall] ac rydyn ni'n teimlo bod ganddyn nhw fantais wirioneddol o ran gorfodi pobl i weithio gyda chymunedau ac os bydd llwyth o grantiau eraill y mae'n rhaid i ni wneud hyn gyda nhw, mae'n mynd i fod yn anodd iawn. Gyda'r [noddwr arall] fe wnaethon ni geisio gwneud prosiect cymharol fach gyda nhw rai blynyddoedd yn ôl ac roedden nhw eisiau cymaint o gyfranogiad cymunedol nes iddo ddinistrio'r prosiect mewn gwirionedd.'

Y broses ymgeisio

7.21 Yr adborth gan randdeiliaid oedd bod cyflwyno'r cam Datgan Diddordeb wedi bod yn welliant i strwythur y broses ymgeisio gan ei fod yn sicrhau mai dim ond ymgeiswyr addas a oedd yn symud ymlaen i'r cam ymgeisio llawn. Roedd hefyd yn golygu nad oedd ymgeiswyr anaddas wedi buddsoddi gormod o amser yn paratoi, ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael cyllid, ar ôl cyrraedd y cam ymgeisio llawn, i tua 60-70%. Er gwaethaf hyn, dadleuodd rhai rhanddeiliaid nad oedd angen y cam Datgan Diddordeb (yn enwedig os oedd prosiectau'n cael cymorth gan staff yr Is-adran Diwylliant ymlaen llaw).

7.22 O ran y broses ymgeisio llawn, cafwyd ymateb cymysg gan randdeiliaid. Teimlai rhai fod y broses mor syml a darbodus â phosibl, tra bod eraill yn teimlo ei bod yn rhy feichus ac y gellid ei haddasu ymhellach drwy wneud rhai o'r newidiadau a ganlyn:

- caniatáu o leiaf ddeg mis rhwng clywed bod y Datganiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus a chyflwyno'r cais llawn
- symleiddio'r cam Datgan Diddordeb ymhellach fel ei fod yn gyfle i amlinellu'r prosiect arfaethedig gyda dim ond dadansoddiad sylfaenol o'r costau disgwylid yn hytrach na chostau cadarn na ellir eu haddasu yn y cam ymgeisio llawn
- dileu'r gofyniad i gyflawni blaenoriaethau strategol yn y meini prawf ar gyfer ceisiadau llai am gyllid neu ar gyfer y rhai sy'n gofyn am welliannau neu waith cynnal a chadw sylfaenol
- tynnu sylw at y cymorth rhagorol sydd ar gael gan yr Is-adran Diwylliant ar hyn o bryd neu hyd yn oed neilltuo swyddog grant penodol i bob ymgeisydd
- newid y dull cyllido, fel bod y Rhaglen yn cyllido canran o brosiect mwy yn hytrach nag eitemau penodol a diffiniedig. Awgrymwyd y byddai hyn yn galluogi'r cyllid i gefnogi prosiectau mwy strategol yn hytrach na 'phethau ar ddiwedd prosiect' megis y dodrefn fel y gwna ar hyn o bryd.

- darparu mwy o hyblygrwydd pan fydd cost eitemau'n uwch neu'n is na'r gyllideb.

7.23 Ymhlith sefydliadau a oedd wedi gwneud cais i'r Rhaglen a'r rhai nad oeddent wedi gwneud cais iddi, gellir nodi rhai ffactorau allweddol fel rhai sydd wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i wneud cais neu beidio:

- rhagdybiaethau ynghylch y tebygolrwydd y bydd eu cais yn llwyddiannus. Roedd sefydliadau'n teimlo y byddai Llywodraeth Cymru yn debygol o ddeall yn llawn yr angen am eu prosiect cyfalaf o gymharu â chyllidwyr eraill yn y DU
- yr anallu i gyllido gwaith cyfalaf angenrheidiol eu hunain. Roedd rhai sefydliadau wedi nodi angen clir am waith cyfalaf ond yn teimlo y byddai'n amhosibl cyllido'r gwaith hwn o'u cyllidebau craidd eu hunain
- roedd eraill yn ystyried bod y grant yn rhan allweddol o becyn cyllido ehangach. Wrth gynllunio i gyflawni prosiect cymhleth ar raddfa fawr, ystyriodd sefydliadau'r ffordd y gallai'r grant ychwanegu gwerth at ffynonellau cyllido eraill a'u hategu.
- roedd sefydliadau hefyd yn ystyried amseriad gwneud cais am grant mewn perthynas â chynlluniau datblygu eraill. Gallai hyn gynnwys defnyddio cyllid amgen i gefnogi gwaith adeiladu, gyda'r bwriad o ddefnyddio grant cyfalaf o'r Rhaglen ar gyfer gwaith adnewyddu mewnol.
- p'un a oes gan eu sefydliad y gallu a'r arbenigedd i wneud cais am brosiect cyfalaf a'i gyflawni ar yr adeg honno. Trafodir yr her hon yn fanylach isod.

7.24 Dywedodd pob un o'r deuddeg ymgeisydd a ymatebodd i'r arolwg a oedd wedi cael cymorth gan yr Is-adran Diwylliant y bu'r cyngor a gawsant yn ddefnyddiol a'i fod wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth (7) neu wahaniaeth mawr (5) i'w cais.

'Mae'r gwaith y mae'r cynghorwyr yn ei wneud gyda'r ceisiadau yn amhrisiadwy.'

7.25 Roedd yr adborth gan yr ymgeiswyr a gyfwelwyd hefyd yn gadarnhaol am y cymorth a gafwyd gan gynghorwyr Llywodraeth Cymru gan eu disgrifio fel hygyrch a chymwynasgar. Rhoesant enghreifftiau o sut yr oedd y cynghorwyr wedi eu cynorthwyo, gan gynnwys darparu cyngor ar ddyluniad eu prosiectau, ar lenwi rhannau o'r ffurflen gais ac ar ddefnyddio terminoleg a geiriau allweddol priodol. Ystyriwyd bod rôl y cynghorwyr yn hanfodol o ran hwyluso'r broses ymgeisio.

'Roeddwn i'n eithaf hapus gyda'r broses gyfan ac os oedd gennyf unrhyw gwestiynau, roedd y swyddogion grantiau yn wych am eich rhoi chi ar ben ffordd.'

7.26 Roeddent yn teimlo y gallent estyn allan at y cynghorwyr pan oedd ganddynt unrhyw gwestiynau a theimlent fod y cynghorwyr yn fodlon gweithio gyda nhw i fynd i'r afael ag unrhyw heriau neu rwystrau i gyflawni prosiectau hefyd.

7.27 Yn yr un modd, roedd sefydliadau'n gadarnhaol ar y cyfan am ansawdd yr adborth a dderbyniwyd ar geisiadau aflwyddiannus. Roeddent fel arfer yn deall y rhesymau dros wrthod ceisiadau a cheir enghreifftiau lle roedd ymgeiswyr aflwyddiannus wedi gweithio'n effeithiol gyda chynghorwyr Llywodraeth Cymru i ailymgeisio'n llwyddiannus. Ambell waith, dywedodd sefydliadau nad oeddent yn deall yn iawn pam y gwrthodwyd eu cais cychwynnol gan nad oeddent yn deall pam nad oeddent yn bodloni meini prawf y grant.

7.28 Mae'r broses ymgeisio dau gam (Datgan Diddordeb ac yna gais Cam 2) yn cael ei gwerthfawrogi gan sefydliadau at ei gilydd. Dywedwyd ei bod yn ddefnyddiol cael sêl bendith ar gyfer dyluniad cyffredinol eu prosiect cyn ymrwymo amser i gwblhau cais llawn. Roeddent felly'n teimlo bod y cais dau gam yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser prin ac yn eu hannog i weithio gyda chynghorwyr Llywodraeth Cymru i ystyried eu cynnig yn ofalus.

7.29 Roedd adborth o'r arolwg o ymgeiswyr yn cytuno bod y cam Datgan Diddordeb yn eu helpu i ganolbwyntio ar nodau eu prosiect ond awgrymwyd y dylai'r broses gael ei digideiddio ac y dylai ofyn am lai o fanylion. Yn yr un modd, teimlai'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod y manylion sydd ei angen yn y cais llawn hefyd yn heriol a bod y gofyniad i ddarparu amserlenni prosiect a

chael digon o ddyfynbrisiau ar y cychwyn (cyn proses gaffael) yn dod yn fwyfwy anodd ei gyflawni. Roedd yr amser rhwng Datgan Diddordeb, cais llawn a chadarnhad yn aml yn golygu bod 'prisiau...yn cynyddu'n gynt ac yn gynt.' Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r broses ymgeisio yn cynnwys symleiddio neu leihau'r dyblygu yn y ffurflen gais; gofyniad i ddarparu cyfanswm cost ar gyfer y prosiect a dadansoddiad dangosol yn hytrach na 'manyion dibwys y costau', ac ystyriaeth bellach o amserlenni fel bod mwy o amser yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr llwyddiannus gyflawni eu prosiectau. Awgrymwyd hefyd bod gwneud cais am ymweliad â safle, taith rithwir neu gyflwyniad gan ymgeiswyr yn ddefnyddiol ar y cam ymgeisio llawn.

- 7.30 Gwnaeth rhai sefydliadau sylwadau cadarnhaol ynghylch eglurder y canllawiau sy'n ymwneud â'r Rhaglen a'r broses ymgeisio, yn ogystal â'r camau sydd ynghlwm wrth gwblhau cais. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos sefydliadau sydd â phrofiad o wneud cais am gyllid tebyg; yn yr achos hwn, roedd yn ymddangos bod y broses ymgeisio gyfan yn unol â'r disgwyl, ac roedd lefel y wybodaeth a oedd yn ofynnol yn y cais yn unol â'r disgwyl. Dywedwyd bod y gofynion ymgeisio yn glir, a bod cymesuredd y broses yn cymharu'n ffafriol â phrosesau cyllidwyr eraill yn y sector treftadaeth.
- 7.31 Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd bod y broses ymgeisio yn heriol i rai sefydliadau. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o wir yn achos sefydliadau llai a'r rhai â llai o brofiad o wneud cais am gyllid cyfalaf. Barnwyd bod y broses yn un heriol oherwydd cymhlethdod y gwaith sydd ei angen i ddatblygu prosiect a'r adnoddau y mae'n eu cymryd i ddeall y broses ymgeisio ac i wneud cais. Er nad oedd yr heriau hyn o reidrwydd yn debygol o atal sefydliadau rhag gwneud cais am grant, byddent o leiaf yn gwneud i sefydliadau ystyried yn ofalus a oeddent mewn sefyllfa i wneud cais. Ystyriwyd bod y cymorth a gafwyd gan gynghorwyr Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn fwy hanfodol mewn achosion o'r fath.

'Mae'n gymorth uniongyrchol i wasanaethau cyhoeddus ond yn anffodus nid yw'r broses o wneud cais amdano bob amser yn caniatáu i bob gwasanaeth llyfrgell wneud cais. Mae'r cyfan yn dibynnu ar lwythi gwaith ar y pryd. Rwy'n meddwl bod y cais ei hun yn drafferthus a llafurus iawn ac yn mynd ag amser swyddogion o'u prif rolau a all fod yn eithaf beichus yn yr

amseroedd hyn. Mae'n llwyth gwaith trwm i'w ysgwyddo yn ychwanegol at eich prif rôl, yn fy marn ni, ond mae'n hanfodol er mwyn cael yr arian hwnnw. Er enghraifft, nid ydym wedi gwneud cais am un eleni gan nad oes gennym y capasiti.'

'Y gwir amdani yw mai ar gyfer llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac yn y blaen y mae [y grant] ac efallai na fyddai'r sgiliau neu'r profiad hwnnw o wneud ceisiadau mawr am gyllid bob amser o fewn y gwasanaethau hynny'n benodol. Nid yw bob amser yn rhan hanfodol o waith llyfrgellwyr ac felly mae'n bwysig iawn bod [Llywodraeth Cymru] yn ei gadw'n rhywbeth sy'n teimlo'n llawer mwy hygyrch.'

- 7.32 Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at bwysigrwydd cael y sgiliau priodol ymhlith aelodau'r tîm i 'werthu' y prosiect mewn cais. Ystyrir bod y cysyniad o 'werthu' prosiect yn cynnwys defnyddio'r geiriau allweddol cywir, cyfeirio at y strategaethau cywir, a gwneud cysylltiadau â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft. Teimlai sefydliadau fod gwybod pa flychau i'w ticio felly yn rhan bwysig o'r broses a bod hyn yn dod yn haws wrth i sefydliadau ddod yn fwy profiadol wrth wneud cais am grantiau tebyg. Roedd rhai sefydliadau'n derbyn hyn fel arfer o fewn cyd-destun cyllid grant, tra bod eraill yn pwysleisio'r angen am gymorth gan gynghorydd Llywodraeth Cymru i 'werthu' y prosiect neu'n rhybuddio rhag cosbi sefydliadau y mae eu staff yn llai profiadol yn hyn o beth.

'Mae yna ddigon o ganllawiau, ond... rwy'n meddwl ei fod yn eithaf cyfyngol gan fod Llywodraeth Cymru yn gweld y blychau y mae'n rhaid eu ticio. Ni allwch gysylltu pob prosiect â phob blwch y maent yn disgwyl ei weld yn cael ei dicio ac yna rwy'n meddwl weithiau eu bod ychydig yn naïf yn y ffordd y maent yn darllen i mewn i bethau ac yn edrych ar bob maes y mae'n rhaid cael tic yn y blwch ar ei gyfer. Hanner yr amser, os ydych chi'n storiwr da, fe wnewch chi lwyddo yn eich cais am grant heb fod yn onest. Os gallwch chi ddweud stori a bodloni'r meini prawf, yna rydych chi'n mynd i gael y grant ac nid wyf yn meddwl mai dyna'r defnydd gorau o'r grant hwnnw.'

- 7.33 Er bod rhai sefydliadau'n teimlo bod y broses ymgeisio yn unol â'r disgwyl ac yn cymharu'n ffafriol â phrosesau cyllidwyr treftadaeth eraill, roedd eraill o'r farn ei bod yn cymryd gormod o amser ac ymdrech. Mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth barn i'w briodoli'n bennaf i lefelau amrywiol o brofiad sefydliadau wrth ymgeisio am grantiau tebyg, yn ogystal â'r gallu o fewn sefydliadau i wneud cais am grant.
- 7.34 Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid a sefydliadau bwysigrwydd cadw'r broses ymgeisio mor syml â phosibl a gwneud unrhyw newidiadau a allai symleiddio'r broses, megis ffordd o lanlwytho'r dogfennau angenrheidiol ar-lein neu gyflwyno ffurflen gais ddigidol neu electronig. Cyfeiriodd rhai at gynllun grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru⁴⁹ fel enghraifft dda o broses ymgeisio i'w hefelychu.

Trefniadau monitro, rheoli a llywodraethu

- 7.35 Teimlai'r rhanddeiliaid fod swyddogion Llywodraeth Cymru a darpar ymgeiswyr yn cydweithio'n agos a bod ganddynt berthnasoedd anffurfiol cryf. O'r herwydd, byddai darpar ymgeiswyr yn hapus i drafod ceisiadau neu broblemau gyda'u cymheiriaid yn yr Is-adran Diwylliant. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod trefniadau llywodraethu'r Rhaglen yn gadarn, a bod y ddogfennaeth yn fanwl ac yn gyfredol.
- 7.36 Soniodd sawl aelod o staff Llywodraeth Cymru am y baich presennol sydd ar dîm bach o staff yn yr Is-adran Diwylliant gan ddisgrifio proses a threfniadau gweinyddol presennol y Rhaglen fel rhai anghymesur. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid hefyd fod rhaglen grantiau cyfalaf yn gofyn am wybodaeth ac arbenigedd penodol ac y byddai hyn yn helpu i leihau'r baich ar staff polisi presennol. Roedd awgrymiadau eraill ar sut i wella neu addasu trefniadau monitro a rheoli cyfredol yn cynnwys:
- darparu gwasanaeth mentora, hyfforddiant, neu gefnogaeth (hyd yn oed gweithio ochr yn ochr) i ymgeiswyr, yn enwedig y rhai o sefydliadau llai a arweinir gan wirfoddolwyr nad oes ganddynt gapasiti

⁴⁹ [Trawsnewid Trefi: cymorth i wella canol trefi](#)

- rhannu enghreifftiau o geisiadau da, astudiaethau achos, neu adborth ar 'yr hyn sy'n gwneud cais da' gyda'r sector
- hyrwyddo'r Rhaglen yn fwy, yn enwedig ymhlith y sector amgueddfeydd annibynnol
- gwahanu'r swyddogaeth cymorth a hyfforddi a ddarperir i ymgeiswyr yn ystod y cam Datgan Diddordeb/cam ymgeisio a'r broses gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau tryloywder llawn a chwalu unrhyw ganfyddiad o wrthdaro buddiannau
- defnyddio aseswyr annibynnol y tu allan i'r isadran, a hyd yn oed y gyfarwyddiaeth, er mwyn gwneud y broses yn fwy cynhwysol, manteisio ar arbenigedd a gwella cysylltiadau â blaenoriaethau strategol o fewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru.

7.37 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n fodlon â'r broses o hawlio'r cyllid grant, gan nodi bod y broses yn syml ac yn glir. Er bod llawer yn fodlon ar amseriad yr hawliadau, teimlai eraill nad oedd yr amseriad wedi cyd-fynd yn gyfleus â'u cynlluniau gwariant. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd amserlenni caffael ac adeiladu yn newid yn aml yn ystod prosiect.

7.38 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod gofynion monitro ac adrodd y Rhaglen yn gymesur ac yn briodol, yn enwedig o gymharu â gofynion cyllidwyr eraill yn y sector treftadaeth. Nid oedd prosiectau a oedd wedi cyflwyno adroddiadau diwedd prosiect yn gweld y broses hon yn rhy feichus. Fodd bynnag, mae ansawdd adroddiadau diwedd prosiect yn amrywio ac nid yw pob prosiect yn cyflwyno adroddiadau diwedd prosiect yn ôl yr angen.

7.39 Teimlai sefydliadau fod y gofynion rheoli prosiect sy'n gysylltiedig â'r grant yn unol â'r disgwyl ac yn gyffredinol yn gyson â'r prosesau y byddent fel arfer yn eu rhoi ar waith ar gyfer prosiectau o'r fath. Amlygwyd y gofynion rheoli prosiectau fel her bosibl i rai sefydliadau llai, yn enwedig os nad oes unrhyw staff a chanddynt arbenigedd rheoli prosiect penodol. Roedd galwadau rheoli unrhyw brosiect cyfalaf – hyd yn oed prosiect ar raddfa fach – yn cael eu hystyried yn rhy heriol a/neu'n cymryd gormod o amser i sefydliadau ar adegau, ac roedd hyn yn debygol o effeithio ar eu penderfyniad i wneud cais am grant.

8. Priodoldeb ac effeithiolrwydd cyflawni'r rhaglen

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn rhanddeiliaid a sefydliadau cymwys sydd wedi gwneud cais ynghylch sut y caiff y Rhaglen ei chyflawni. Mae hefyd yn adrodd ar yr effaith a'r gwahaniaeth canfyddedig a wneir gan y Rhaglen.

Cyflawni prosiectau

8.2 Gofynnodd yr arolwg o ymgeiswyr i'r ymatebwyr raddio pa mor dda yr oeddent yn teimlo eu bod wedi cyflawni yn erbyn yr allbynnau a ariannwyd. O blith yr 14 o ymatebwyr o brosiectau llwyddiannus, roedd 13 yn teimlo eu bod wedi cyflawni'n dda iawn neu'n eithaf da yn erbyn yr allbynnau a ariannwyd ganddynt a dim ond un a deimlai nad oedd wedi gwneud hyn yn dda o gwbl, gan nodi effaith y pandemig fel rheswm. Priodolodd yr ymatebwyr eu llwyddiant o ran cyflawni allbynnau i waith cynllunio trylwyr, rheolaeth dda ar brosiectau, tîm ymroddedig ac ansawdd yr hyn y buddsoddwyd ynddo.

8.3 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio natur eu prosiectau, gwelwyd amrywiaeth sylweddol yn ymatebion y sefydliadau a gyfwelwyd mewn perthynas ag uchelgais a chwmpas y prosiect. Er bod rhai sefydliadau'n disgrifio eu prosiectau fel ailddatblygiad cymhleth ar raddfa fawr o'u gwasanaeth cyfan (y cyfrannodd grant y Rhaglen tuag ato), esboniodd eraill fod natur eu prosiect yn canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â phryderon penodol ar safleoedd presennol (fel mynd i'r afael â phroblemau gyda lleithder neu faterion yn ymwneud â hygrychedd). I eraill, roedd y grant trawsnewid yn ddigon ynddo'i hun i ganiatáu iddynt wneud gwaith adnewyddu cymharol sylweddol i'w safleoedd.

'Roedd ei angen oherwydd bod yr adeilad ble roedd y gwasanaeth archifau yn anaddas, roedd y gwasanaeth llyfrgell hefyd mewn adeilad anaddas, ac roedd gennym ryw fath o weledigaeth i gydleoli gwasanaethau a chael mwy na chyfanswm ei rannau...felly roedd yn diwallu llawer o anghenion yn enwedig o ran y cyfle i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, sy'n rhywbeth a oedd yn anodd iawn ei wneud yn ein hadeiladau blaenorol. A hefyd, y ffaith nad oedd y casgliadau treftadaeth yn cael eu cadw mewn ffordd ddiogel,

felly roedd yn diwallu'r angen craidd i warchod casgliadau ynghyd â'r angen i ddenu cynulleidfaoedd newydd ar yr un pryd.'

- 8.4 Er gwaethaf yr amrywiad hwn, roedd bron pob sefydliad yn teimlo bod ei brosiect wedi'i gynllunio'n wreiddiol i gefnogi ei gynllun strategol cyffredinol, waeth beth oedd maint y prosiect. Mewn rhai achosion, roedd amcanion y prosiect yn cynnwys ailystyried sut i sicrhau mynediad i gasgliadau neu wneud newidiadau sylweddol i ansawdd eu safleoedd. Mewn achosion eraill, roedd prosiectau'n cynnwys gwaith adnewyddu llai i gyfleusterau a oedd, serch hynny, wedi'u bwriadu i gefnogi uchelgeisiau hygyrchedd y sefydliad. Yn hynny o beth, er gwaethaf yr amrywiaeth yn natur y prosiectau, roedd bron pob sefydliad yn teimlo bod ei brosiect wedi'i fwriadu i gefnogi eu hamcanion strategol er mwyn diwallu anghenion cymunedau yn well.
- 8.5 Nid oedd sefydliadau'n teimlo bod angen iddynt wneud newidiadau sylweddol i'w prosiect i fodloni meini prawf y grant. Roedd hyn yn bennaf oherwydd yr ystyriwyd bod meini prawf y grant yn ddigon eang i gefnogi prosiectau amrywiol. Yn gyffredinol, roedd prosiectau'n cymryd meini prawf y grant i ystyriaeth wrth benderfynu pa waith cyfalaf i'w flaenoriaethu neu wrth benderfynu sut y gellid defnyddio grant trawsnewid y Rhaglen fel rhan o becyn cyllido ehangach.

'Nid oedd angen i ni [addasu ein prosiect i fodloni'r meini prawf] mewn gwirionedd. Y rheswm am hynny yw oherwydd ei fod yn brosiect mwy ac rwy'n meddwl mai dim ond tua thraean o'r arian a oedd yn cael ei wario oedd y grant, felly gallem wedyn edrych ar y prosiect cyfan a dweud, 'mae'r pethau hyn yn cyd-fynd â'r grant Trawsnewid, felly gallwn wneud cais am y rhannau hyn o'r prosiect cyfan.'

- 8.6 Ar y cyfan, cyflawnwyd prosiectau a ariannwyd drwy'r Rhaglen yn unol â'r bwriad. Nododd sefydliadau newidiadau cyfyngedig i allbynnau o gymharu â'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl i ddechrau ac roeddent yn fodlon â'r gwaith a oedd wedi'i gwblhau. Roedd rhai mân newidiadau i'r allbynnau a ddarparwyd mewn rhai achosion. Roedd y mân newidiadau hyn yn aml oherwydd nad oedd adnoddau penodol ar gael, er enghraifft, neu heriau

caffael eraill a oedd yn golygu bod angen prynu deunyddiau neu gyfarpar amgen.

- 8.7 Roedd sefydliadau'n aml yn wynebu heriau cyflawni penodol yn ymwneud â'u prosiectau. Yn aml, roedd yr heriau hyn o ganlyniad i ffactorau allanol annisgwyl a thu hwnt i reolaeth y sefydliadau neu Lywodraeth Cymru. Y prif heriau a adroddwyd gan sefydliadau oedd oedi gyda'r gwaith adeiladu, effaith y pandemig COVID-19 ac argaeledd cysylltiedig rhai adnoddau, deunyddiau a chontractwyr. Mewn rhai achosion, roedd yr heriau hyn yn golygu bod sefydliadau'n wynebu cynnydd mewn costau prosiect dros amser, yr oedd angen i'r timau rheoli prosiect eu rheoli.
- 8.8 O'r herwydd, tynnodd lleiafrif o sefydliadau sylw at y ffaith bod diffyg hyblygrwydd o ran dyrannu cyllideb yn rhwystr. Roeddent yn teimlo, ar ôl i'r grant gael ei ddyrannu iddynt, mai ychydig iawn o hyblygrwydd oedd ar gael yn amodau'r grant i'w galluogi i addasu i amgylchiadau sy'n newid. Roedd hyn yn golygu bod sefydliadau'n wynebu heriau pan oedd costau adeiladu yn newid yn ystod y prosiect neu pan oedd angen dod o hyd i ddeunyddiau amgen. Yn yr un modd, nododd lleiafrif o sefydliadau hefyd y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o hyblygrwydd i ailddyrrannu costau o un llinell gyllideb i'r llall pe bai angen, gan gynnwys arbedion cost a gyflawnwyd mewn un maes o'r prosiect.

'Byddai ychydig mwy o hyblygrwydd wedi bod yn werthfawr iawn. Er enghraifft, rhywbeth nad oedd wedi'i gynnwys yn y prosiect gwreiddiol a fyddai wedi gwella hygyrchedd (a nodwyd gennym yn ystod y prosiect) neu gontractwyr wedi nodi problem gyda'r tendr gwreiddiol...byddai ychydig mwy o hyblygrwydd i ailddyrrannu tanwariant wedi bod yn werthfawr iawn.'

- 8.9 Ambell waith, dywedodd sefydliadau eu bod yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu prosiect oherwydd y gofynion ar eu hamser a'r straen a deimlwyd gan unigolion nad oeddent yn gyfarwydd â rheoli prosiectau cyfalaf cymhleth. Er bod eu prosiectau wedi'u cyflawni yn unol â'u cynllun gwreiddiol yn y pen draw, dywedodd lleiafrif o sefydliadau nad oedd y profiad wedi bod yn arbennig o hawdd neu bleserus. Eglurwyd nad oes disgwyl i'r gwaith o reoli


prosiect o'r fath fod yn rhan o'u swyddi bob-dydd fel arfer a bod rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn heriol.

'Mae capasiti yn broblem fawr iawn. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae llu o gyfleoedd cyllid grant wedi cael eu taflu atom, ac mae wedi bod yn ormod braidd a bod yn onest. Ac yna mae'n rhaid gwneud y cais, sylweddoli bod gennyh chi'r arian ar gyfer prosiect grant ac yna mynd ati i gyflawni'r prosiect hwnnw. Mae capasiti yn broblem enfawr.'

Y canlyniadau a'r gwahaniaeth a wnaed

- 8.10 Darparodd y Rhaglen lefelau gwahanol o gyfraniadau ariannol tuag at y canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiectau. Mewn rhai achosion, roedd y Rhaglen yn cyllido prosiectau yn eu cyfanrwydd fwy neu lai; yn yr achosion hyn, mae priodoli unrhyw ganlyniadau i'r grant yn gymharol syml. Mewn achosion eraill, roedd y Rhaglen yn cyllido un elfen benodol o fewn prosiect llawer ehangach; yn yr achosion hyn, disgrifiodd prosiectau sut yr oedd y canlyniadau a gyflawnwyd gan y grant yn ategu gwaith ehangach a gyflawnwyd ac yn ychwanegu gwerth ato. Er bod yr ategu hwn yn cael ei ystyried yn un o gryfderau'r Rhaglen, mae'n golygu bod angen ystyried effaith y grant o fewn cyd-destun gweithgaredd prosiect ehangach. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr holl ganlyniadau wedi'u hunanadrodd gan y prosiectau a ariannwyd ac nad ydynt wedi bod yn destun unrhyw werthusiad annibynnol, allanol.
- 8.11 Holwyd y sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg ynghylch y gwahaniaeth yr oedd eu prosiect(au) a ariannwyd wedi'i wneud hyd yma. O ran gwneud gwahaniaeth i gynaliadwyedd eu gwasanaeth, y ffactorau a nodwyd amlaf oedd gwell effeithlonrwydd adnoddau a mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol a symudol:


Ffigur 8.1 Pa wahaniaeth i gynaliadwyedd eich gwasanaeth y mae eich prosiect(au) wedi'i wneud hyd yn hyn? [n=14]



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o ymgeiswyr y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

8.12 O ran y gwahaniaeth yr oedd y gwelliannau i wasanaethau yn ei wneud i'r gymuned, roedd pob ymgeisydd llwyddiannus a gymerodd ran yn yr arolwg wedi gwella hygyrchedd i fannau ffisegol ac wedi creu amgylchedd mwy modern a deniadol. Cafodd gwell darpariaeth TG, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaethau digidol sgôr uchel hefyd.

Ffigur 8.2 Pa welliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned y mae eich prosiect neu brosiectau wedi'u gwneud hyd yn hyn? [n=14]



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o ymgeiswyr y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

- 8.13 Teimlai'r ymgeiswyr llwyddiannus a holwyd hefyd eu bod wedi gwneud gwahaniaeth mewn meysydd eraill, yn enwedig o ran gwell hygyrchedd i gasgliadau (12), cyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol (12), cyrraedd safonau ansawdd perthnasol (12) a gwella sefydlogrwydd amgylcheddol casgliadau (8).
- 8.14 Dywedodd bron pob sefydliad a gyfwelwyd fod y grant o leiaf wedi cyfrannu at effaith drawsnewidiol ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl yn y gymuned, o ran natur ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Nodwyd effaith o'r fath beth bynnag oedd maint y prosiect, yn bennaf oherwydd bod prosiectau wedi'u cynllunio'n benodol i ymateb yn well i anghenion cymunedol a nodwyd. Oherwydd y pandemig COVID-19, nid oedd pob sefydliad wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oedd wedi'i obeithio o ran darparu gwasanaethau, ond ystyriwyd mai amhariad dros dro oedd hyn. Yn gyffredinol, gwelwyd bod y grantiau yn aml yn cefnogi sefydliadau i chwarae rhan fwy canolog yn eu cymunedau. Ar draws yr ystod o brosiectau a

ariannwyd gan y grantiau, amlygwyd yr elfennau allweddol canlynol o wella gwasanaethau:

- Gwelwyd gwelliant yn safon cyffredinol y safleoedd, gan ddarparu safleoedd diogel, modern a deniadol sydd wedi'u cynllunio'n well i ymwelwyr.
- Dywedwyd bod y safleoedd yn fwy croesawgar a diddorol (yn enwedig pan oedd derbynfydd ymwelwyr wedi'u huwchraddio), gan gynorthwyo ymwelwyr i ymlacio tra roeddent ar y safle a'u hannog i wneud ymweliadau anffurfiol.
- Cafodd hygyrchedd ei wella ar rai safleoedd, o ran sicrhau bod ymwelwyr yn gallu symud o amgylch y safleoedd yn hawdd a chael mynediad i ardaloedd a allai fod wedi bod yn anodd eu cyrraedd yn flaenorol, yn ogystal â sicrhau bod anghenion hygyrchedd ymwelwyr anabl yn cael eu diwallu.
- Dywedodd sefydliadau eu bod yn gallu darparu mwy o amrywiaeth o wasanaethau o ganlyniad i welliannau i safleoedd a chyfarpar newydd (e.e., gwell gwasanaethau digidol, cyfleoedd i rentu cyfarpar).
- Mewn rhai achosion, roedd y grant wedi hwyluso cydleoli gwasanaethau (er enghraifft, cydleoli gwasanaethau llyfrgell â gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol eraill). Adroddwyd bod model Hyb o'r fath yn ei gwneud hi'n haws i ymwelwyr wybod ble i droi pan oedd angen cymorth arnynt.
- Adroddwyd hefyd bod gwelliannau i leoedd ar draws gwahanol safleoedd yn rhoi mynediad uniongyrchol gwell i ymwelwyr at staff, gan ei gwneud yn haws i staff ymateb i ymholiadau a'u gwneud yn haws siarad â nhw.
- Roedd rhai prosiectau wedi darparu manau newydd ar gyfer gweithio gyda grwpiau cymunedol, gan alluogi sefydliadau i greu partneriaethau newydd a chynnwys cymunedau wrth ddylunio a defnyddio arddangosfeydd.

- Yn yr un modd, darparodd rhai prosiectau fannau newydd i sefydliadau ddarparu rhaglenni addysg gwell wedi'u targedu at grwpiau ysgol.
- Roedd y manau a adnewyddwyd hefyd yn galluogi sefydliadau i ddod yn fwy uchelgeisiol wrth ddylunio arddangosfeydd, gan gynnwys arddangos casgliadau na fyddent wedi gallu eu harddangos fel arall.

'Er nad yw pethau ar agor, rydym wrthi'n cynllunio arddangosfeydd yn y manau hynny, felly rydym yn gweithio'n fwy creadigol mewn partneriaeth ag artistiaid a gwneuthurwyr. Felly, rydym wedi creu gofodau arbrol ac, er nad ydynt wedi'u cwblhau eto, mae'r ffaith ein bod yn cydweithio'n frwd â gwneuthurwyr yn newid pwysig iawn i ni.'

'Rydym newydd drawsnewid y ffordd rydym yn gweithredu gwasanaethau llyfrgell yn llwyr, mae fel siop lyfrau newydd, lleoliad anffurfiol iawn, lle mae pobl yn cael eu hannog i fod yn nhw eu hunain. Mae'n amgylchedd cyfeillgar braf i fod ynddo.'

'Mae'n bendant yn wasanaeth gwell oherwydd ei fod yn fwy hygyrch. O'r blaen, roedd yr archifau mewn math o adeilad digroeso i lawr stryd ochr, lle roedd yn rhaid mynd drwy ddau ddrws caeedig, ond nawr mae mewn adeilad gwydr hyfryd. Mae'n llawer mwy croesawgar, mae gennym gaffi ar y safle ar gyfer pobl fydd yn galw heibio. Mae'r gwasanaeth yr ydym yn gallu ei ddarparu ar y safle i bobl yn llawer mwy croesawgar ac mae'r cyfleusterau'n llawer gwell.'

- 8.15 Lle y bo'n berthnasol, adroddodd y sefydliadau hefyd am welliannau i ddatblygu casgliadau, gofalu amdanynt, a mynediad atynt. Roedd hyn yn cynnwys gwneud newidiadau i sicrhau bod casgliadau'n cael eu cadw mewn amgylcheddau storio priodol (fel cypyrddau arddangos priodol, rheolyddion tymheredd a lleithder, a rheolyddion goleuo). I rai sefydliadau, arweiniodd eu prosiectau at welliant aruthrol mewn storio casgliadau, gan ganiatáu iddynt gadw casgliadau yr arferwyd eu storio mewn amodau llaith ac amhriodol mewn amgylchedd diogel. Fe wnaeth sefydliadau eraill welliannau i'w dehongliadau a'u harddangosiadau, gan gynnwys moderneiddio'r ffordd y

cyflwynir gwybodaeth a bod yn fwy arloesol o ran y modd yr oeddent yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn olaf, roedd lleiafrif wedi gallu gwella hygyrchedd casgliadau i ymwelwyr, a oedd yn gasgliadau yr arferwyd eu cadw mewn storfa neu leoliadau anhygyrch eraill.

'Rydym wedi canolbwyntio ar arddangos casgliadau o safon uchel iawn, a fyddai wedi bod y tu hwnt i'n cyrraedd yn llwyr. Mae wedi golygu ein bod wedi gallu eu cyd-ddylunio ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, fel eu bod yn cyrraedd safonau cadwraeth uchel. Yn pen draw, fe wnaethom ddewis opsiynau pwrpasol oherwydd maint anarferol [ein casgliad] a phroblemau'n ymwneud â'i bwysau wrth geisio ei arddangos ac yn y blaen, ond mae wedi golygu ei fod wedi creu cyfleoedd i ni fenthylg deunydd o amgueddfeydd eraill a chan berchnogion preifat hefyd.'

'Mae gennym fannau lle y gallwn ofalu am ein casgliadau nawr, mae'r amgylchedd yn llawer gwell o ran ein storfa ac nid ydym yn cael dŵr na dim yn dod i mewn i ddifetha'r dodrefn yn yr adeilad.'

'Roedd [ein casgliad] yn cael ei storio'n briodol ond byddwn i'n dweud bod 5% o'n casgliad yn cael ei arddangos a 95% yn cael ei storio mewn silffoedd rholio. Rwy'n meddwl y bydd hyn yn ein galluogi i wneud yr ymwelydd achlysurol yn fwy ymwybodol bod y casgliad yno a beth sydd yno.'

- 8.16 Roedd rhai sefydliadau wedi gweld gwelliant yng nghynaliadwyedd amgylcheddol eu safleoedd o ganlyniad i'w prosiectau. Mewn lleiafrif o achosion, cynaliadwyedd amgylcheddol oedd un o amcanion craidd eu prosiect, yn enwedig lle roedd gwaith adeiladu ar raddfa fawr yn cael ei wneud. Yn yr achosion hyn, nododd sefydliadau well effeithlonrwydd o ran rheolaethau amgylcheddol, llai o ddefnydd o ynni drwy ddefnydd mwy effeithiol o oleuadau naturiol ac ystyriaeth ofalus o gynaliadwyedd deunyddiau adeiladu. Er nad oedd cynaliadwyedd amgylcheddol o reidrwydd yn ffocws allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, roedd rhai wedi gweld gwelliant mewn cynaliadwyedd fel sgil-gynnyrch gwaith adnewyddu penodol a wnaed yn eu hadeiladau (er enghraifft, y gallu i agor ffenestri newydd fel dull awyru naturiol).

'Roedd yr archifau mewn adeilad Fictoraidd godidog...ond nid oedd yn addas ar gyfer yr archifau, ac nid oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac roedd y llyfrgell hefyd mewn adeiladau anaddas. Mae'r [adeilad newydd] yn cyrraedd safon ragorol BREEAM, felly mae'n adeilad gwyrdd iawn gyda tho gwyrdd ac mae'r casgliad treftadaeth yn cael ei gadw yn yr islawr. Y rhan fwyaf o'r amser nid oes angen i ni gael unrhyw wresogi artiffisial na pheiriannau dad-leithio, mae'r cyfan yn passivhaus...felly rwy'n sicr yn meddwl ein bod wedi cyflawni'r dyhead i fod yn fwy cynaliadwy.'

- 8.17 I ryw raddau, roedd sefydliadau'n disgwyl y byddai gwelliannau o'r fath i'r gwasanaethau a ddarperir yn eu cefnogi i fodloni'r gofynion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau. Ambell waith, dywedodd sefydliadau y byddai'r gwelliannau hyn yn eu helpu i fodloni gofynion safonol ac achrededig o fewn cynlluniau sector penodol, sy'n ymwneud â chydarddoldeb ac amrywiaeth (drwy wella hygyrchedd) neu'r Gymraeg (drwy ddarparu gwell dehongliad dwyieithog a mynediad at staff dwyieithog). Ystyriwyd bod gwelliannau i ofalu am gasgliadau a'u storio, yn ogystal â gwella'u dehongliad, yn ddefnyddiol ar gyfer ennill yr achrediad angenrheidiol a nodwyd bod gwell gwasanaeth yn ddefnyddiol ar gyfer cyrraedd safonau VAQAS⁵⁰.
- 8.18 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn gallu darparu rhywfaint o naratif ynghylch sut yr oedd y grant yn eu galluogi i gyflawni yn erbyn eu blaenoriaethau strategol eu hunain. Yn benodol, tynnodd sefydliadau sylw at effaith y prosiect o ran eu helpu i ddatblygu lefel o gynaliadwyedd economaidd, gwneud cynnydd o ran dod yn safle hygyrch neu wneud cynnydd tuag at sefydlu eu hunain fel atyniad lleol sy'n werth ei weld. Roedd rhai yn gallu ymhelaethu ar y naratif hwn i gynnwys blaenoriaethau lleol ehangach lle roedd hynny'n berthnasol, megis cynlluniau darparu gwasanaethau awdurdodau lleol. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd prosiectau'n rhan o ymgyrch ehangach awdurdodau lleol tuag at fodel penodol o ddarparu gwasanaethau, megis Hybiau.

⁵⁰ [amgueddfeydd](#)

'Rwy'n meddwl mai'r hyn rydyn ni'n ei anghofio yw bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn gysylltiedig â'r hyn y mae gwasanaethau llyfrgell traddodiadol yn ei gynnig ond mewn ffordd wahanol iawn.'

'Cafodd y gwaith ei wneud mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid felly er enghraifft fe wnaethom osod toiledau rhyw niwtral o ganlyniad i ymgynghori â phobl yn ein cymuned. Fe wnaethom wella hygyrchedd ein toiledau, a chreu man tawel i aelodau'r gymuned hefyd. Felly, roedd yn bendant yn rhan o'n strategaeth gyffredinol i ddod yn lle mwy hygyrch a chynhwysol i'r gymuned.'

- 8.19 Roedd yn fwy anghyffredin i sefydliadau gysylltu'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy eu prosiectau â blaenoriaethau rhanbarthol neu genedlaethol yn ystod y cyfweiliadau, er bod y cysylltiadau hyn wedi'u gwneud yn glir yn eu ffurflenni cais. Mae hyn yn awgrymu, er bod sefydliadau'n gallu dangos sut y mae eu prosiectau'n cyd-fynd â blaenoriaethau fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ystod y cam ymgeisio, roedd dyluniad y prosiectau wedi'u seilio'n bennaf ar uchelgeisiau'r sefydliad a/neu'r awdurdod lleol ei hun, yn ogystal â heriau cyffredin sy'n wynebu'r sector cyfan.
- 8.20 Roedd sefydliadau'n weddol bendant bod y newidiadau y maent wedi'u gweld yn rhai hirdymor ac y byddant yn darparu cynaliadwyedd hirdymor i'w gwasanaeth. Roedd effaith hirdymor yn haws i brosiectau mwy ei dangos, lle mae trawsnewidiadau sylweddol wedi digwydd (fel cydleoli gwasanaethau neu adeiladu adeiladau newydd). Fodd bynnag, roedd hyd yn oed brosiectau llai yn teimlo bod y newidiadau yn golygu eu bod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau gwell yn y dyfodol. I rai, mae'r canlyniadau hirdymor i'w gweld ar ffurf gwell cynaliadwyedd economaidd (e.e., siop well) tra bod eraill yn teimlo bod y prosiect wedi arwain at wella eu henw da gyda phartneriaid allweddol sy'n golygu bod eu sefyllfa yn y dyfodol yn fwy sicr, yn enwedig yn wyneb toriadau i gyllid.

'Mae'r ffaith y buddsoddir yn y gwasanaeth amgueddfeydd, ei fod wedi cael y cyllid Trawsnewid hwn, wedi arwain at wella amlygrwydd y gwasanaeth amgueddfeydd yn sylweddol o fewn yr awdurdod lleol ac fel partner

deniadol i eraill...rwy'n meddwl bod hynny'n newid pwysig iawn, os yw pobl am fuddsoddi ynoch chi, bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynoch chi, ac y gallwch siarad gyda balchder mawr am y newidiadau hynny y mae'r cyllid wedi'u cyflawni, yna rydych chi'n dod yn sefydliad y mae pobl eisiau dod yn bartner iddo.'

'O ran y fynedfa gyfan a'r siop, a oedd yn ymwneud â gwneud ein hunain yn fwy sefydlog, yn gynaliadwy...Dyma fydd ein blwyddyn gyntaf gyda thymor llawn a siop newydd - ond hyd yn oed yn y pedwar mis yr oeddem ar agor y flwyddyn ddiwethaf, roedd eisoes yn sylweddol well na blynyddoedd blaenorol...felly gobeithio y bydd yn dod â mwy o incwm i ni.'

'Mae beth sydd gyda ni nawr yn llawer fwy cynaliadwy oherwydd ni'n cydweithio fwy, mae pob llyfrgell wir wrth wraidd eu cymuned nhw. Dwi'n credu allai ddweud...pe bai ni'n cael cyfnod o 'austerity' eto, dwi'n credu y peth diwethaf fyddai'r Cyngor rhoen gwneud yw mynd ag unrhyw lyfrgell bant, maen nhw'n rhy bwysig.'

- 8.21 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod eu prosiectau wedi cael rhai effeithiau tymor hwy ar eu gwasanaethau. Teimlai'r rhan fwyaf (11 o blith 14) fod casgliadau wedi cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ganlyniad i'r Rhaglen, a dywedodd y rhan fwyaf (12) hefyd fod mwy o gydweithio a mwy o gyfraniad at adfywio cymunedol ehangach o ganlyniad i'r buddsoddiad a wnaed yn eu gwasanaeth. Teimlai dros hanner (8) fod y buddsoddiad wedi helpu i gynnal eu gwasanaeth neu ei arbed rhag cau. Nododd pump fod eu prosiect wedi cyflawni mwy o gydleoli gyda gwasanaethau amgueddfeydd, archifau neu lyfrgelloedd eraill, ond ni ddarparwyd unrhyw fanylion pellach.
- 8.22 Dywedodd lleiafrif o sefydliadau a gyfwelwyd eu bod wedi gweld rhai canlyniadau cadarnhaol annisgwyl o ganlyniad i'w prosiect, gan gynnwys canlyniadau a fyddai'n darparu rhywfaint o effaith hirdymor. Mae enghreifftiau'n cynnwys gallu defnyddio cyllid y prosiect a'r gwelliannau i ysgogi buddsoddiad ychwanegol gan bartneriaid allweddol a'r awdurdod lleol perthnasol, yn ogystal â'r prosiect yn darparu model darparu gwasanaeth y gellid ei efelychu mewn lleoliadau awdurdodau lleol perthnasol eraill.

Datblygodd eraill bartneriaethau gyda grwpiau a sefydliadau allanol na fyddent wedi'u datblygu fel arall neu cawsant fwy o sylw gan gymunedau.

'Dwi'n meddwl ein bod ni wedi cael sawl syrpreis neis. Rydyn ni wedi cael cwmni ffilm sydd eisiau ffilmio yn y manau sydd wedi'u trawsnewid...ond mae hyn yn rhywbeth nad ydyn ni erioed wedi'i wneud o'r blaen, felly rwy'n meddwl bod y cyffro ynghylch y buddsoddiad wedi dod â'r amgueddfa i'n sylw. Ac fe wnaeth sgriptiwr lleol ysgrifennu sgript ar gyfer drama deledu yn seiliedig ar yr hyn a oedd yn digwydd yn ein hamgueddfa, a'r trawsnewidiad, felly fe gysylltodd hi â ni ar y dechrau ac mae wedi dilyn hynt y newid...felly rwy'n meddwl y bydd hynny'n cyflwyno'r amgueddfa i gynulleidfa wahanol iawn, cynulleidfa Gymraeg a fydd yn bwysig i ni hefyd.'

'Un o ganlyniadau'r grantiau hyn yw eu bod wedi codi ein proffil o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dod yn fwy parod i wneud rhywfaint o fuddsoddiad ei hun, felly mae'n ein gweld ni fel hybiau hanfodol i'r gymuned nawr; mae'n debyg mai ni yw'r unig adeilad Cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd mewn llawer o ardaloedd ar hyn o bryd felly mae wedi codi ymwybyddiaeth o'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r hyn y gallwn ei wneud.'

- 8.23 O blith yr ymgeiswyr aflwyddiannus a gyfwelwyd, neu a ymatebodd i'r arolwg, nid oedd yr un ohonynt wedi gwneud cais am unrhyw ffynonellau cyllid eraill.


9. Gwersi a ddysgwyd ac anghenion yn y dyfodol

- 9.1 Yn y bennod hon, trafodir y gwersi allweddol a ddysgwyd, a'r gwelliannau a awgrymir gan rhanddeiliaid a sefydliadau. Amlinellir hefyd flaenoriaethau strategol posibl ar gyfer cyllido yn y dyfodol.

Gwersi allweddol a gwelliannau i'r Rhaglen

- 9.2 Yn gyffredinol, roedd y sefydliadau yn yr arolwg a oedd wedi gwneud cais i'r Rhaglen yn fodlon ar eu profiad fel y dangosir yn Ffigur 9.1.

Ffigur 9.1 Yn gyffredinol, beth yw eich barn am eich profiad o'r Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid? [n=13]



Ffynhonnell: Arolwg OB3 o ymgeiswyr y rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

- 9.3 Manteisiodd yr ymgeiswyr llwyddiannus ar y cyfle fel mater o drefn, yn yr arolwg ac yn ystod y gwaith maes, i bwysleisio pa mor werthfawr oedd y grant iddynt ac roeddent yn ddiolchgar bod Rhaglen o'r fath ar gael iddynt.
- 9.4 Gellir grwpio'r gwersi allweddol a ddysgwyd gan staff Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid y sector, a sefydliadau cymwys yn fras o dan dair thema. Yn gyntaf, gwnaed sylwadau am y cyfle i wella'r cyfathrebu mewn perthynas â'r Rhaglen. Er bod gwybodaeth gyffredinol am fodolaeth y gronfa, drwy ddiweddariadau rheolaidd gan staff Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid a thrwy e-byst atgoffa a anfonir pan fydd y cylch cyllido'n agor, mae'n ymddangos bod llai o wybodaeth am yr hyn a ariannwyd, beth oedd yn gyfystyr â chais 'da', a pha effaith a gafodd y cyllid ar ymgeiswyr llwyddiannus. Cododd rhanddeiliaid yr angen am well cyhoeddusrwydd i

hysbysu'r sector am y gwahaniaeth a wneir gan y cyllid, ac i Lywodraeth Cymru godi dyheadau drwy ddangos enghreifftiau o astudiaethau achos.

9.5 Yn yr un modd, teimlai'r rhanddeiliaid, er bod cyfathrebu â'r sector yn golygu bod penaethiaid gwasanaeth yn ymwybodol o'r Rhaglen, bod cyfle i godi ymwybyddiaeth ar lefel uwch o fewn awdurdodau lleol – gydag arweinwyr awdurdodau lleol, aelodau cynghorau â chylch gorchwyl sy'n cynnwys diwylliant/hamdden, ac aelodau o'r mudiad Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru yn arbennig. Oherwydd y trosiant uchel yn y rolau hyn, byddai angen ei hyrwyddo'n rheolaidd.

9.6 Yn ail, awgrymodd rhanddeiliaid a sefydliadau nifer o addasiadau posibl (yn ychwanegol at y rhai a awgrymwyd eisoes mewn penodau blaenorol) i ddyluniad y Rhaglen gan gynnwys:

- cyllideb fwy ar gyfer y Rhaglen - £10m+ er mwyn caniatáu datblygu prosiectau mwy uchelgeisiol a mwy o faint (gan ganiatáu digon o amser paratoi a chyllideb datblygu) neu lefel uwch o gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu'n achlysurol (e.e., pob pum mlynedd) er mwyn cefnogi prosiectau blaenllaw
- dau neu dri chylch cyllido i ganiatáu digon o amser i gyflawni prosiectau, ac i annog prosiectau cyfalaf mwy uchelgeisiol i ddod i'r amlwg
- mwy o hyblygrwydd ar draws y gronfa i ymateb i newidiadau anochel mewn costau a phrisiau ac adolygiad o derfyn uchaf y gronfa yng ngoleuni'r cynnydd yng nghostau deunyddiau
- proses ymgeisio ar 'raddfa symudol' – gyda phroses ymgeisio un cam symlach ar gyfer grantiau llai, a phroses fanylach ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am fwy na £250,000
- cyllid sbarduno neu ddatblygu cychwynnol (e.e., i gyllido astudiaeth ddichonoldeb) a fydd yn cynnwys cam cynllunio i gefnogi prosiectau i ddatblygu eu cynlluniau
- hyblygrwydd o ran cyllid refeniw e.e., i dalu am arbenigwr dehongli i baratoi testun ar gyfer byrddau arddangos, i ddigolledu

amgueddfeydd llai am golli incwm yn sgil gorfod cau dros dro yn ystod y gwaith adnewyddu neu i dalu am gapasiti rheoli prosiect yn ystod cyfnod y grant cyfalaf

- cronfa grant dreigl ar gyfer gofynion cyllido llai e.e., i wella arloesedd digidol ac amserlen hwy o geisiadau grant mwy fel y gallant ddenu arian cyfatebol neu fod yn rhan o brosiectau adfywio mwy hirdymor
- ystyried a ellid defnyddio cronfa 'Y Pethau Pwysig' Croeso Cymru ar gyfer rhai o ofynion uwchraddio amgueddfeydd annibynnol
- cynnwys cymal adfachu pum mlynedd ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf digidol a chymal adfachu 10 mlynedd ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf eraill.

9.7 Yn olaf, gwnaeth y rhanddeiliaid nifer o awgrymiadau i wella'r broses o fonitro a gwerthuso'r Rhaglen. Roedd teimlad y dylai Llywodraeth Cymru fod yn well am fesur canlyniadau a gwerthuso effaith ei buddsoddiad. Ceir adborth anecdotaidd o'r effaith gadarnhaol a wnaed gan y buddsoddiad hyd yma, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi mewn ffordd ystyrlon. Er bod adroddiadau diwedd prosiect yn cael eu paratoi gan rai, roedd eu defnyddioldeb a'u hansawdd yn amrywio, ac nid yw'r effaith lawn bob amser yn cael ei chofnodi, yn enwedig gan fod angen dull tymor hwy (yn hytrach na chwe mis o ddiwedd y cyllid fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd) i grynhoi yn llawn y cynnydd mewn defnydd a nifer yr ymwelwyr. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd fod cyfle i dynnu sylw at yr effeithiau a'r canlyniadau ar draws y buddsoddiad a wnaed hyd yma fel y gellid eu cyhoeddi i amlygu ymhellach y gwahaniaeth yr oedd y Rhaglen wedi'i wneud i'r sector dros y blynyddoedd.

9.8 Awgrymodd sefydliadau cymwys nad oeddent wedi gwneud cais eto y byddent yn croesawu'r gallu i wneud cais am grantiau llai (o dan £20,000) a mwy o hyblygrwydd i gyflawni prosiect dros amserlen hwy.

Blaenoriaethau cyllido ar gyfer y dyfodol

9.9 Yn gyffredinol, mae blaenoriaethau cyllido sefydliadau ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau strategol y Rhaglen. Dywedwyd bod hyn yn wir yn bennaf oherwydd natur eang briodol y blaenoriaethau strategol, y

mae sefydliadau'n teimlo eu bod yn eu hannog i ymgeisio am brosiectau amrywiol. Gellir grwpio prif flaenoriaethau cyllido sefydliadau yn y dyfodol yn dri chategori.

- 9.10 Y cyntaf o'r categorïau hyn yw cyllid cyfalaf ar gyfer gwaith cyfalaf sylfaenol a hanfodol. Mynegodd rhai sefydliadau angen parhaus am gyllid cyfalaf i'w cefnogi i wneud gwaith adnewyddu a chynnal a chadw hanfodol ar eu safleoedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith adnewyddu mewnol, gwella'r dehongli, mynd i'r afael â dirywiad strwythurol, uwchraddio rhannau o amgueddfeydd, diweddarau llwybrau ymwelwyr ac ail-ddylunio ardaloedd presennol.
- 9.11 Yr ail o'r categorïau hyn yw cyllid cyfalaf at ddibenion datblygiad ehangach, yn enwedig o ran hyrwyddo natur gwasanaethau'r sefydliad a gwireddu ei uchelgeisiau. Roedd hyn yn arbennig o wir am sefydliadau a deimlai eu bod eisoes wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r dirywiad yn eu hadeiladau a/neu a oedd yn dibynnu ar dimau eiddo corfforaethol ehangach o fewn awdurdodau lleol ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Roedd enghreifftiau o'r mathau hyn o flaenoriaethau cyllido yn cynnwys datblygu seilwaith digidol, datblygu prosiectau cydleoli a hybiau, datblygu mannau arddangos newydd, addasu rhannau o'u safleoedd i gefnogi cynaliadwyedd economaidd a threialu modelau arloesol o ddarparu gwasanaethau (fel gwasanaethau symudol). Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu barn gyffredinol sefydliadau ynghylch nod trosfwaol y Rhaglen i gefnogi gwelliant ehangach mewn gwasanaethau.

'Cyfrifoldeb [yr awdurdodau lleol] yw gofalu am wasanaethau. Rwy'n meddwl y dylai'r grantiau hyn ymwneud â datblygu, nid arbed to adeilad y dylai'r awdurdod lleol fod wedi'i gynnal a'i gadw neu y dylai fod yn ei ariannu drwy ei systemau cyfalaf yn y lle cyntaf.'

'Rydym am wneud yr amgueddfa yn adeilad dyfodolaidd, trawiadol, mwy o faint, i ddenu cynulleidfa fwy.'

- 9.12 Mae'r trydydd o'r categorïau hyn yn cynnwys anghenion cyllido nad ydynt yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf fel y cyfryw ac sydd felly'n bennaf y tu hwnt i gwmpas y Rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am gyllid refeniw yn

dilyn y pandemig COVID-19, yn ogystal â chyllid i ddatblygu cynnwys digidol a chadwraeth ddigidol, ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, a datblygu masnach ar-lein. Nid yw sefydliadau'n disgwyl i'r Rhaglen ehangu ei meini prawf y tu hwnt i gyllid cyfalaf ond nodwyd y gallai eu blaenoriaethau eu hunain ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod o hyd i gyllid amgen ychwanegol yn y dyfodol. Roedd hefyd yn amlwg bod angen mwy o eglurder ymhlith staff Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymwys ynghylch pryd a sut y gellid cyfalafu costau. Darparwyd rhai enghreifftiau yn ystod gwaith maes a oedd fel pe baent yn awgrymu bod dehongliad a chyingor gwahanol yn cael eu darparu mewn perthynas â chostau cyfalaf cymwys.

- 9.13 Dywedodd sefydliadau eu bod yn debygol iawn o ystyried gwneud cais am grant gan y Rhaglen pan fo angen yn y dyfodol agos ac yn ôl pob tebyg fel man cyswllt cyntaf. Fe'i hystyriwyd yn ffrwd gyllido hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd parhaus y sector. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd efallai nad grant Trawsnewid fyddai'r dewis mwyaf priodol ym mhob sefyllfa, er enghraifft pe bai angen lefelau sylweddol uwch o gyllid.

'Y si yw bod cyllidebau cyfalaf wedi'u cwtogi i'r byw ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid, felly rwy'n meddwl bod y gronfa Trawsnewid yn mynd i ddod yn llawer mwy o achubiaeth i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.'

- 9.14 Bu rhanddeiliaid hefyd yn ystyried y blaenoriaethau cyllido strategol ar gyfer y Rhaglen yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y ffaith bod pobl, ar ôl y pandemig, yn edrych ar adeiladau a lleoedd yn wahanol a bod y defnydd ohonynt yn newid. Roedd gan lyfrgelloedd yn arbennig rôl bosibl i'w chwarae o ran darparu manau gweithio i bobl sy'n gweithio gartref, ac roedd potensial hefyd i ddefnyddio manau o fewn adeiladau rhestredig mewn modd mwy hyblyg a gwneud mwy o gysylltiadau rhwng lleoedd a blaenoriaethau iechyd a llesiant.
- 9.15 Roedd cydnabyddiaeth bod angen i flaenoriaethau'r sector gyd-fynd yn agosach ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn hyn o beth, amlygwyd dwy agwedd ar y Rhaglen Lywodraethu yn gyson fel rhai a oedd yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r Rhaglen: datgarboneiddio a'r agendâu digidol.

- 9.16 O ran lleihau'r ôl troed carbon a chyfrannu at y targed sero net, teimlwyd y byddai gwella effeithlonrwydd adeiladau yn parhau i fod yn ffocws priodol ac addas i'r Rhaglen, er bod rhai rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at yr angen parhaus gan y sector am gyllid cyfalaf 'i drwsio boeleri a gollyngiadau.' Ystyriwyd bod y rhaglen Green Libraries⁵¹ yn bwysig o ran y dyfodol. Amlygwyd cronfa gyfalaf Chwaraeon Cymru fel enghraifft yn y maes hwn.
- 9.17 Roedd gwella cynhwysiant digidol ac arloesedd hefyd yn flaenoriaeth a godwyd gan y sectorau llyfrgelloedd ac archifau yn arbennig. Er y dadleuwyd y byddai'r angen i wneud cais am waith adnewyddu ffisegol yn parhau, roedd gwaith digidol yn dod yn flaenoriaeth gynyddol i'r gwasanaethau hyn a gallent wneud cyfraniad mawr at gefnogi cynnydd strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai'r Rhaglen, yn y dyfodol, roi mwy o gyfarwyddyd neu bwyslais ar flaenoriaethau penodol mewn rhai galwadau cyllido i geisio creu'r newid sylweddol gofynnol, gydag arloesi digidol yn enghraifft amlwg o ddull o'r fath.
- 9.18 Amlygodd nifer o'r staff a'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yr angen am gynllun strategol ar gyfer y sector diwylliant yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, fel y gellir amlinellu blaenoriaethau sector-benodol (h.y. llyfrgelloedd, archifau neu amgueddfeydd) yn glir, a blaenoriaethu'r cyllid cyfalaf yn unol â'r anghenion a amlinellir mewn dogfen o'r fath.
- 9.19 Galwodd sawl rhanddeiliad am ddull llai rhagnodol ag iddo fwy o ffocws ar arloesi yn y dyfodol, gan roi mwy o ddisgwyliad ar ymgeiswyr i ddisgrifio'r hyn yr hoffent ei gyflawni yn eu lleoliad yn hytrach na disgrifio'r dodrefn yr oeddent yn bwriadu eu prynu.

'mae angen i'r grant hwn drawsnewid...darparu profiadau go iawn i gwsmeriaid ac ymgysylltu â phobl mewn ffordd fwy deinamig yn y dyfodol – nid dim ond gwella silffoedd.'

⁵¹ Mae hyn yn cyfeirio at raglen Green Libraries Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Llyfrgell a Gwybodaeth (CILIP), a ariennir drwy Arts Council England sy'n ceisio helpu llyfrgelloedd i fynd i'r afael â'u heffaith amgylcheddol.

- 9.20 Er y gwelwyd rhai enghreifftiau o hyn hyd yma e.e. 'gofod gwneud' mewn llyfrgelloedd gyda'r nod o ddenu pobl ifanc, disgrifiodd y rhanddeiliaid syniadau mwy uchelgeisiol a gwahanol a welwyd mewn mannau eraill y dylai Llywodraeth Cymru dynnu sylw atynt er mwyn ysbrydoli pobl i'w hefelychu yng Nghymru, gan gyfeirio at enghraifft yng Ngogledd Swydd Efrog, ble yr ychwanegwyd sinema at lyfrgell, ac enghreifftiau yn Awstralia a'r Unol Daleithiau lle y cyflwynir pethau diddorol i leoliadau megis hybiau digidol, labordai cof, caffis trwsio, realiti rhithwir a lleoedd ar gyfer ioga.
- 9.21 Yn olaf, cododd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd cydweithio a dulliau partneriaeth yn y dyfodol a theimlwyd y dylid defnyddio'r Rhaglen i gefnogi llywodraeth leol i reoli eu gwasanaethau'n fwy effeithlon, drwy brosiectau wedi'u dylunio ar y cyd (e.e. dod â chanolfan hamdden, llyfrgell ac amgueddfa ynghyd mewn un gofod). Un awgrym oedd clustnodi rhywfaint o'r cyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cydweithredol traws-sector neu draws-ranbarthol. Awgrym arall oedd cysylltu'n agosach â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chronfeydd neu ymddiriedolaethau eraill e.e., Wolfson er mwyn iddynt allu blaenoriaethu ac ariannu prosiectau addas ar y cyd.

10. Casgliadau ac argymhellion

- 10.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau ynghylch prosesau'r Rhaglen, sut y caiff ei rheoli, y trefniadau llywodraethu a sut y caiff fei chyflawni. Gan gyfeirio at yr adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes, a'r dadansoddiad pen desg o bolisïau perthnasol ac enghreifftiau eraill o gronfeydd ledled y DU, mae'r bennod hon yn ystyried i ba raddau y mae'r Rhaglen yn cyflawni yn erbyn ei model rhesymeg Damcaniaeth Newid ar hyn o bryd. Mae'r bennod hon hefyd yn nodi ein hargymhellion ar addasiadau a gwelliannau posibl i'r dull gweithredu presennol i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn y dyfodol.
- 10.2 Mae Damcaniaeth Newid y Rhaglen yn amlinellu dau ysgogydd polisi cyffredinol ar gyfer y Rhaglen: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae cyfatebiaeth gref rhwng canllawiau a meini prawf y Rhaglen a rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a gall y gweithgareddau a ariannwyd ddangos yn glir eu cyfraniad at y saith nod llesiant.
- 10.3 Mae cyfraniad y Rhaglen at Raglenni Llywodraethu blaenorol a phresennol Llywodraeth Cymru yn llai clir. Nododd Rhaglen Lywodraethu 2016-21 yr angen i fuddsoddi yn y seilwaith lleol sy'n dod â phobl ynghyd a chyfeiriodd yn benodol at y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid. Er bod adroddiad gan y Senedd ar effaith COVID-19 ar y sector wedi pwysleisio pwysigrwydd buddsoddiad cyfalaf yn yr hirdymor, nid yw'r Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf ar gyfer 2021-26 yn mynd i'r afael â hyn a phrin yw'r blaenoriaethau strategol penodol y gall y Rhaglen sicrhau cyfatebiaeth â nhw. Mae dogfennau polisi perthnasol eraill bellach wedi hen ddyddio. Cyflwynodd yr Adolygiadau Arbenigol o lyfrgelloedd yn 2014, a'r ddarpariaeth amgueddfeydd lleol yn 2015 ill dau yr achos dros 'newid sylweddol' o ran cydweithio (yn ffisegol ac yn ddigidol), 'fuddsoddiad cyfalaf sylweddol', a rhesymoli casgliadau a storio. Nid ydym yn teimlo bod lefel bresennol y cyllid a ddarperir drwy'r Rhaglen yn galluogi'r sector i gyflawni'r nodau hyn. Er ein bod yn cydnabod yr heriau o wneud hynny yn yr hinsawdd ariannol bresennol, **rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio**

dyblu swm y cyllid sydd ar gael drwy'r Rhaglen os yw'n parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r nodau hyn. Rydym yn argymhell ymhellach bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu adnoddau gweinyddol mewnol ychwanegol i reoli a monitro'r Rhaglen os caiff yr argymhellion eu gweithredu.

- 10.4 At hynny, mae angen mynd i'r afael â'r diffyg cyd-destun polisi cryf ar gyfer y gronfa gyfalaf. Mae ffocws y Rhaglen ar ddatgarboneiddio ac arloesi digidol yn parhau i fod yn berthnasol a gall gyfrannu rhywfaint at flaenoriaethau tebyg yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae awydd clir gan sefydliadau i'r rhain barhau i fod yn flaenoriaethau cyllido hefyd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf hefyd yn cyfeirio at y bwriad i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd ar gyfer sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. **Ar ôl i'r strategaeth ddiwylliant newydd gael ei cyhoeddu, rydym yn argymhell y dylid addasu meini prawf y Rhaglen i adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi a nodir yn y ddogfen honno pan gaiff ei chyhoeddi**
- 10.5 Mae'r adolygiad o enghreifftiau ledled y DU o gronfeydd cyfalaf eraill yn y sector hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar y ffordd y caiff y sector ei gefnogi mewn mannau eraill. Mae'n drawiadol bod cylch gorchwyl cronfeydd eraill yn eang, gan adlewyrchu anghenion amrywiol y sector o bosibl. Yn yr Alban, mae grantiau ar gyfer y sector amgueddfeydd yn arbennig yn tueddu i fod ar raddfa lai – gall amgueddfeydd wneud cais am hyd at £15,000 drwy'r gronfa grantiau bach i dalu am refeniw a chyfalaf, tra bod y Gronfa Cydnerthedd Cyfalaf ar gyfer amgueddfeydd yn addas ar gyfer ceisiadau am gyllid rhwng £3,000 a £75,000. Mae cyfatebiaeth glos rhwng dyluniad cronfeydd LIF a MEND yn Lloegr a chynllun y Rhaglen ond gyda therfynau cyllido uwch (£50,000-£5 miliwn). Mae cronfa MEND yn amlwg yn caniatáu ceisiadau ar gyfer 'gwaith cynnal a chadw er mwyn cynnal a chadw' ar gyfer y sector amgueddfeydd. Roedd adborth gan sefydliadau hefyd yn awgrymu bod galw am hyn. **Rydym yn argymhell y dylid ehangu meini prawf Band A y Rhaglen i gyfeirio'n benodol at welliannau cynnal a chadw**
- 10.6 Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol broses ymgeisio un cam symlach a phroses benderfynu gyflym ar gyfer prosiectau sy'n werth llai na £250,000, tra bod proses dan gam manylach ar gyfer ceisiadau am rhwng

£250,000-£5 miliwn. Gwneir y penderfyniadau cyllido hefyd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Er bod y paramedrau cyllido yn wahanol i baramedrau'r Rhaglen, mae'n ymddangos y byddai proses wedi'i symleiddio ar gyfer ceisiadau Band A yn cael ei chroesawu a gallai helpu i ehangu mynediad i'r gronfa i'r rhai sydd â llai o arbenigedd a chapasiti i baratoi ceisiadau. **Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi proses syml, un cam ar waith ar gyfer prosiectau a ariennir ym Mand A, a chynnal y broses dau gam ar gyfer prosiectau a ariennir ym Mand B**

- 10.7 Yn ystod yr adolygiad, mae nifer o gynlluniau grant o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt wedi eu hamlygu fel enghreifftiau o arfer da. Ceir enghreifftiau hefyd lle mae'r gofynion ar ymgeiswyr, ac ar weinyddwyr yn llai beichus. Cyfeirir at yr enghreifftiau hyn yn yr adroddiad hwn drwyddo draw e.e. cynllun grant adfywio Trawsnewid Trefi. **Rydym yn argymhell bod y ffurflenni cais a'r prosesau cysylltiedig o fewn y cynlluniau grant eraill hyn yn parhau i gael eu hadolygu'n rheolaidd gan is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru, a bod yr arfer da yn cael ei fabwysiadu lle y bo modd. Yn benodol, rydym yn argymhell y dylai'r broses ymgeisio ar gyfer y Rhaglen fod yn broses ar-lein neu y dylid defnyddio ffurflenni cais electronig yn y dyfodol**
- 10.8 Nid oes amheuaeth bod y Rhaglen yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y sector ac mae wedi'i dylunio mewn ffordd sydd wedi galluogi llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau i gael mynediad at gronfeydd cyfalaf a chyflawni gwelliannau i'w gwasanaethau. Mae'r sail resymegol dros y Rhaglen ei hun a'i pharhad yn gadarn. Mae'n ymddangos bod digon o ddarpariaeth ar gyfer llyfrgelloedd yn arbennig a'u bod wedi llwyddo i gael cyllid gan y Rhaglen i wneud gwelliannau angenrheidiol i adeiladau a gwasanaethau digidol, ac mewn rhai enghreifftiau, maent wedi defnyddio'r cyllid i ddarparu arlwy mwy arloesol yn eu safleoedd ffisegol.
- 10.9 Hyd yma, cyfyngedig fu'r defnydd a wnaed o ehangu cylch gorchwyl y gronfa i gynnwys archifau ac amgueddfeydd. Mae'r sector archifau yn arbennig yn llai tebygol o fod angen y gronfa i gefnogi trawsnewidiad ffisegol, tra bod gan y sector amgueddfeydd broblemau cynnal a chadw mwy dybryd, ac felly'n ei chael hi'n anodd sicrhau bod ei anghenion yn cyd-fynd â'r llu o ofynion sy'n

gysylltiedig â meini prawf strategol y Rhaglen. Mae trawsnewidiad digidol yn arbennig o bwysig i'r sectorau llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd, ond mae'n rhaid cydnabod bod y sector amgueddfeydd yn fwy amrywiol a bod anghenion yn wahanol ar draws gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol. **Rydym yn argymhell y dylid ailedrych ar feini prawf y Rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hyblyg ac mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion amrywiol ac unigryw y sectorau llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd. Gallai hyn gynnwys rhoi pwysoliad sector-benodol i bob maen prawf prosiect neu gynnwys rhai meini prawf sector-benodol.**

- 10.10 Er bod teitl y Rhaglen yn awgrymu ei bod yn canolbwyntio ar 'drawsnewid', mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y newidiadau a gyflawnwyd gan y cyllid hyd yma yn gymharol geidwadol. Nid yw'r meini prawf (na maint y cyllid) ar gyfer y Rhaglen yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais ddangos newid sylweddol yn y gwasanaeth. Mae hefyd yn amlwg bod y term 'trawsnewid' yn oddrychol a chynnil iawn, ac yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yn yr un modd, ystyriwyd bod buddsoddiad ar raddfa gymharol fach i ddiwallu anghenion cynnal a chadw difrifol yn drawsnewidiol i rai prosiectau a ariannwyd, tra bod eraill yn anelu at newid mwy uchelgeisiol.
- 10.11 Mae'r adolygiad hefyd wedi dangos bod y sector, o ganlyniad i danfuddsoddi cyfalaf dros sawl degawd (fel yr amlygwyd gan yr Adolygiad Arbenigol o Amgueddfeydd) a heriau mwy diweddar, yn parhau i fod angen cymorth i gynnal a chadw adeiladau a moderneiddio gwasanaethau. Yn briodol ddigon, mae'r Rhaglen wedi ariannu'r gwaith o foderneiddio manau a gwasanaethau digidol o fewn ei lefel gyllido bresennol, sef yr hyn y mae modd ei gyflawni. Fodd bynnag, er mwyn i'r sectorau esblygu'r hyn y maent yn ei gynnig ac ymateb i anghenion dinasyddion a chymunedau yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol, mae angen mecanwaith i alluogi trawsnewidiad mwy radical a fyddai'n cynnwys gwasanaethau arloesol a newydd mewn lleoliadau a ffocws mwy penodol ar gydleoli a chydweithio. Mae trawsnewidiad mor sylweddol ar raddfa mor fawr yn gofyn am amser paratoi hir a digon o amser i gyflawni'r allbynnau a fwriedir. Mae hyn hefyd yn amlwg yn y Gronfa Datblygu Diwylliant a lansiwyd yn ddiweddar gan yr Adran dros

Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n darparu rhwng £2-5 miliwn o gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf (ac sydd hefyd yn cyllido rhywfaint o weithgaredd refeniw) dros dair blynedd ar gyfer ceisiadau partneriaeth.

Rydym felly'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi galwad bob tair blynedd ar gyfer y prosiectau partneriaeth mawr hyn o dan y Rhaglen, pe bai cyllid ychwanegol ar gael.

10.12 Codwyd y cynnydd mewn costau deunyddiau a chontractwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar ôl y pandemig COVID-19, yn gyson gan sefydliadau. Mae adborth gan sefydliadau hefyd yn awgrymu bod terfyn uchaf presennol y gronfa yn llesteirio uchelgais a'r gallu i fod yn wirioneddol drawsnewidiol ac arloesol.

Rydym yn argymhell y dylid cynyddu terfyn uchaf y gronfa i £500,000.

10.13 Ymddengys fod cryn dipyn o ymwybyddiaeth o fodolaeth a diben cyffredinol y gronfa o fewn y sector, o ganlyniad i ohebiaeth a chyfathrebu rheolaidd rhwng cynghorwyr yn yr Is-adran Diwylliant a'r sefydliadau cyfatebol sy'n cynrychioli'r sector ond mae'r ymateb cyfyngedig i'r arolwg o sefydliadau cymwys yn awgrymu nad oes cymaint o ymwybyddiaeth ymysg amgueddfeydd annibynnol. Er mwyn i'r cyllid gael ei ystyried ar gyfer buddsoddiad mwy strategol, mae'n ymddangos hefyd bod cyfle pellach i ehangu cyrhaeddiad deunydd cyfathrebu i uwch staff ac aelodau etholedig ar draws awdurdodau lleol.

10.14 Mae adborth gan randdeiliaid a sefydliadau'n awgrymu bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Rhaglen wedi'i gyllido hyd yma, neu'r math o ddulliau mwy arloesol a allai fod yn gymwys i gael cyllid, yn fwy cyfyngedig. Nododd y gwaith maes hefyd ddiffyg hyder a phrofiad wrth baratoi ceisiadau a rheoli prosiectau cyfalaf o fewn y sector. O'r herwydd, dylid canolbwyntio mwy ar hysbysu darpar ymgeiswyr o'r hyn a ddisgwylir mewn ffurflen gais, gydag enghreifftiau o beth yw cais 'da', a chyflwyno enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd hyd yma neu arferion gorau mewn rhannau eraill o'r byd y gellid eu hefelychu yng Nghymru. **Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei strategaeth gyfathrebu mewn perthynas â'r Rhaglen ac**

- y dylai'r deunyddiau cyfathrebu am y Rhaglen (ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy e-bost uniongyrchol at ddarpar ymgeiswyr) gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus yn ogystal â thynnu sylw at y ffurflen gais a'r canllawiau sydd ar gael
- y dylid gwahodd pob sefydliad cymwys i weithdy (bob dwy neu dair blynedd) lle y cyflwynir enghreifftiau o astudiaethau achos ac arferion gorau, a lle y cynhelir trafodaethau sy'n canolbwyntio ar unrhyw agwedd ar y Rhaglen lle y byddai angen cymorth pellach
- Y dylid rhoi diweddariadau rheolaidd am y gronfa a'i heffaith i arweinwyr ac aelodau cynghorau, ac i uwch reolwyr allweddol mewn awdurdodau lleol.

10.15 Roedd yn amlwg bod sefydliadau'n gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan y cynghorwyr yn yr Is-adran Diwylliant wrth iddynt baratoi ceisiadau ac mae hyn yn rhan bwysig o strwythur presennol y Rhaglen y mae angen iddi barhau. Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth gymorth hon yn cael ei chynnal, a bod pawb sy'n gwneud cais i'r Rhaglen yn manteisio ar y cynnig. Mae hyn yn arbennig o wir am sefydliadau llai neu unigolion a chanddynt lai o brofiad o ysgrifennu cynigion. **Rydym yn argymhell y dylid neilltuo cynghorydd penodedig o'r cychwyn cyntaf fel cyswllt uniongyrchol i bob ymgeisydd ar y cam Datgan Diddordeb.**

10.16 Fodd bynnag, os caiff yr argymhelliad uchod ei roi ar waith, daw'n bwysicach fyth gwneud gwahaniaeth amlwg rhwng y swyddogaeth gefnogi a'r broses asesu ceisiadau. Byddai'r broses asesu hefyd yn elwa ar gael mewnbwn gan unigolion ychwanegol, y tu allan i'r adran, ar y panel sy'n gwneud penderfyniadau. Byddai hyn yn sicrhau ymhellach bod y prosiectau a ariennir yn cyd-fynd â datblygiadau ar draws meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru (fel y celfyddydau, chwaraeon, adfywio, neu dwristiaeth). Gellid hefyd gyfleu gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau perthnasol ar draws y llywodraeth yn y sesiynau gweithdy a argymhellir er mwyn annog ymhellach ddulliau partneriaeth neu gyfleoedd cydleoeli. Er mwyn bod yn

gwbl dryloyw a chydgyssylltu'n fwy effeithiol â blaenoriaethau eraill
Llywodraeth Cymru, **rydym yn argymhell bod y panel asesu yn cynnwys aelodau sy'n annibynnol ar y swyddogaeth cymorth a ddarperir ar gyfer ymgeisio am y Rhaglen.**

- 10.17 Codwyd cylch cyllido blynyddol y Rhaglen yn gyson fel problem yn ystod y gwaith maes. Roedd sefydliadau'n cael trafferth gwario'r arian mewn cyfnod a oedd yn ei hanfod yn ffenestr naw mis. Roedd tystiolaeth hefyd bod amserlen mor fyr i gyflawni prosiectau cyfalaf, yn anochel, yn llesteirio'r math o syniadau y gellid eu cyflwyno i'r Rhaglen. Byddai trawsnewidiad mwy uchelgeisiol neu gymhleth yn anochel yn gofyn am amserlen hwy i'w gyflawni. **Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i dull diwygiedig o ddarparu cyllid am gyfnod o ddwy flynedd. Dylid cyfleu'n glir hefyd i sefydliadau cymwys bod y dull newydd hwn (a'r terfyn uwch o £500,000 os caiff ei weithredu) yn golygu ei bod bellach yn bosibl gwneud mwy o geisiadau trawsnewidiol a/neu geisiadau partneriaeth ac y byddent yn cael eu croesawu.**
- 10.18 Canfu'r adolygiad bod angen gwell dealltwriaeth ymhlith ymgeiswyr o ba gostau y gellid eu cynnwys mewn cais am gyllid cyfalaf. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bu rhywfaint o ddryswch neu ddiffyg cysondeb yn y gorffennol o ran y ffordd y mae canllawiau wedi'u darparu neu eu dehongli gan staff Llywodraeth Cymru. At hynny, un o ganfyddiadau clir yr adolygiad hwn yw y byddai sefydliadau'n croesawu mwy o hyblygrwydd o fewn y Rhaglen fel y gall prosiectau addasu i newidiadau cynllunio a chynnydd mewn costau a sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith orau bosibl. Yn hyn o beth, **rydym yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i geisiadau ddarparu cost gyffredinol ar gyfer eu prosiect (gyda dadansoddiad dangosol o'r costau) ond bod hyblygrwydd yn cael ei ddarparu o fewn cyfanswm cyllideb y Rhaglen i ailddyrannu cyllid, yn ôl yr angen. Rydym hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyfleu neges gyson ynghylch pa gostau y gellir eu cynnwys fel gwariant cyfalaf a dylid nodi yn y canllawiau y gellir defnyddio cyfran fach o'r cyllid ar gyfer cyllid refeniw ar raddfa fach mewn rhai achosion.**

- 10.19 Gyda'r newidiadau a amlinellir uchod, dylai gallu prosiectau i gael arian cyfatebol neu i ymchwilio i ffynonellau cyllid perthnasol eraill (gan gynnwys cyllid nad yw'n arian cyfalaf) ochr yn ochr â'r Rhaglen fod yn haws. Gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gyfeirio at yr opsiynau hyn a chefnogi sefydliadau i lunio pecyn o gyllid ar gyfer prosiectau mwy, gan gydnabod y byddai hyn yn golygu y byddai angen cynyddu ymhellach yr adnoddau gweinyddol sydd ar gael. **Rydym yn argymhell y dylai'r Rhaglen ddarparu cronfa fach o gyllid datblygu i gefnogi'r sector i ddatblygu cynlluniau o'r fath. Gellid defnyddio'r gronfa sbarduno neu'r gronfa ddatblygu hon i dalu am astudiaethau dichonoldeb neu wasanaethau proffesiynol ar y cam cynllunio.**
- 10.20 O ran y gwahaniaeth a wneir i'r Rhaglen, ceir tystiolaeth mewn adroddiadau diwedd prosiect, lle maent yn bodoli, bod yr allbynnau yn cael eu cyflawni yn unol â'r bwriad. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod canlyniadau canolraddol yn cael eu cyflawni'n gymharol dda, ond gellid gwella'r sylfaen dystiolaeth. Wrth ystyried y canlyniadau disgwylidig tymor hwy, fel yr amlinellir yn y model rhesymeg Damcaniaeth Newid, mae llai o dystiolaeth hyd yma bod y rhain yn cael eu cyflawni. Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd bod gwasanaethau'n fwy cynaliadwy, ac mewn rhai achosion wedi'u hachub rhag gorfod cau, o ganlyniad i gyllid y Rhaglen. Er bod rhai enghreifftiau o brosiectau cydleoli llwyddiannus, mae'r rhain fel arfer wedi deillio o becyn cyllido ehangach. Nid yw'n ymddangos bod y Rhaglen wedi canolbwyntio ar gynyddu cydweithio neu gydleoli gwasanaethau hyd yma, yn y ffordd a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'n debyg mai'r strwythur presennol a'r cyllid sydd ar gael drwy'r Rhaglen yw'r rheswm am hyn. Os bydd y newidiadau a argymhellir uchod e.e., i'r cyfnod cyllido a maint y cyllid sydd ar gael, yn cael eu gweithredu'n llawn, credwn fod mwy o debygolrwydd y bydd y canlyniadau mwy strategol, hirdymor hynny yn cael eu cyflawni.
- 10.21 Er mwyn cofnodi effaith y cyllid hyd yma, **rydym yn argymhell y dylid gofyn am adroddiadau diwedd prosiect ar gyfer pob prosiect sydd wedi'i gwblhau nad yw wedi cyflwyno'r rhain hyd yma, ac y dylid datblygu templed gwerthuso syml ar gyfer diwedd prosiect, i'w gwblhau 12 mis ar ôl i brosiect ddod i ben, er mwyn casglu allbynnau a thystiolaeth yn**

erbyn y canlyniadau canolraddol a amlinellir yn y Ddamcaniaeth Newid. Dylid comisiynu astudiaeth gwerthuso effaith maes o law i ddilysu'r dystiolaeth hon ac i ddadansoddi i ba raddau y mae unrhyw ganlyniadau tymor hwy wedi'u cyflawni.

Crynodeb o'r argymhellion

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- i. dylai Llywodraeth Cymru geisio dyblu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Rhaglen os yw'n parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r nodau hyn, a dyrannu adnoddau gweinyddol mewnol ychwanegol i reoli a monitro'r Rhaglen os caiff yr argymhellion eu gweithredu
- ii. dylid addasu meini prawf y Rhaglen i adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi a nodwyd yn y strategaeth ddiwylliant newydd pan gaiff ei chyhoeddi
- iii. dylid ehangu meini prawf Band A y Rhaglen i gyfeirio'n benodol at welliannau cynnal a chadw
- iv. dylai Llywodraeth Cymru roi proses syml, un cam ar waith ar gyfer prosiectau a ariennir ym Mand A, a chynnal y broses dau gam ar gyfer prosiectau a ariennir ym Mand B
- v. dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r ffurflenni cais a'r prosesau cysylltiedig o fewn cynlluniau grant eraill, a dylid mabwysiadu'r arferion da lle y bo modd
- vi. dylai'r broses ymgeisio ar gyfer y Rhaglen fod yn broses ar-lein neu dylid defnyddio ffurflenni cais electronig yn y dyfodol
- vii. dylid ailedrych ar feini prawf y Rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hyblyg ac mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion amrywiol ac unigryw y sectorau llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd. Gallai hyn gynnwys rhoi

pwysoliad sector-benodol i bob maen prawf prosiect neu gynnwys rhai meini prawf sector-benodol

- viii. dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi galwad bob tair blynedd ar gyfer y prosiectau partneriaeth mawr hyn o dan y Rhaglen, pe bai cyllid ychwanegol ar gael
- ix. dylid cynyddu terfyn uchaf y gronfa i £500,000
- x. dylai'r deunyddiau cyfathrebu am y Rhaglen (ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy e-bost uniongyrchol at ddarpar ymgeiswyr) gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus yn ogystal â thynnu sylw at y ffurflen gais a'r canllawiau sydd ar gael
- xi. dylid gwahodd pob sefydliad cymwys i weithdy (bob dwy neu dair blynedd) lle y cyflwynir enghreifftiau o astudiaethau achos ac arferion gorau, a lle y cynhelir trafodaethau sy'n canolbwyntio ar unrhyw agwedd ar y Rhaglen lle y byddai angen cymorth pellach
- xii. dylid rhoi diweddariadau rheolaidd am y gronfa a'i heffaith i arweinwyr cynghorau ac aelodau etholedig, ac uwch reolwyr allweddol mewn awdurdodau lleol
- xiii. dylid neilltuo cynghorydd penodedig o'r cychwyn cyntaf fel cyswllt uniongyrchol i bob ymgeisydd ar y cam Datgan Diddordeb
- xiv. dylai'r panel asesu gynnwys aelodau sy'n annibynnol ar y swyddogaeth gymorth a ddarperir ar gyfer ceisiadau i'r Rhaglen
- xv. dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i dull diwygiedig o ddarparu cyllid am gyfnod o ddwy flynedd. Dylid cyfleu'n glir hefyd i sefydliadau cymwys bod y dull newydd hwn (a'r terfyn uwch) yn golygu ei bod bellach yn bosibl

gwneud mwy o geisiadau trawsnewidiol a/neu geisiadau partneriaeth ac y byddent yn cael eu croesawu

- xvi. dylai fod yn ofynnol i geisiadau ddarparu cost gyffredinol i'w prosiect (gyda dadansoddiad dangosol o'r costau), ond bod hyblygrwydd yn cael ei ddarparu o fewn cyfanswm cyllideb y Rhaglen i ailddyrannu cyllid, yn ôl yr angen
- xvii. dylai Llywodraeth Cymru gyfleu neges gyson ynghylch pa gostau y gellir eu cynnwys fel gwariant cyfalaf, a dylid nodi yn y canllawiau y gellir defnyddio cyfran fach o'r cyllid ar gyfer cyllid refeniw ar raddfa fach mewn rhai achosion
- xviii. dylai'r Rhaglen ddarparu cronfa fach o gyllid datblygu i gefnogi'r sector i ddatblygu cynlluniau o'r fath. Gellid defnyddio'r gronfa sbarduno neu'r gronfa ddatblygu hon i dalu am astudiaethau dichonoldeb neu wasanaethau proffesiynol ar y cam cynllunio
- xix. dylid gofyn am adroddiadau diwedd prosiect gan bob prosiect a gwblhawyd ac sydd heb gyflwyno'r rhain hyd yma
- xx. dylid datblygu templed gwerthuso syml ar gyfer diwedd prosiect, i'w gwblhau 12 mis ar ôl i brosiect ddod i ben, er mwyn casglu allbynnau a thystiolaeth yn erbyn y canlyniadau canolraddol a amlinellir yn y Ddamcaniaeth Newid
- xxi. dylid comisiynu astudiaeth gwerthuso effaith maes o law i ddilysu'r dystiolaeth hon ac i ddadansoddi i ba raddau y mae unrhyw ganlyniadau tymor hwy wedi'u cyflawni.

Atodiad A: Prosiectau a ariannwyd gan y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

2021/2022

Sefydliadau	Teitl y Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
CBS Castell-nedd Port Talbot	Llyfrgell Ganolog Castell-nedd	£250,000
CARAD	Amgueddfa ac Oriol Rhaeadr	£140,589
Cyngor Sir Gâr	Amgueddfa Cyflymder Tir	£150,000
Cyngor Sir Penfro	Llyfrgell Penfro a Chanolfan Harri Tudur	£250,000
CBS Caerffili	Tŷ Weindio	£62,700
CBS Rhondda Cynon Taf	Hyb Diwylliannol Treorci	£128,400
Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	Adnewyddu Llyfrgell Maesteg / Neuadd y Dref	£46,833
Cyngor Sir Caerdydd	Hyb Cymunedol Rhiwbeina	£120,000
Cyngor Sir Caerdydd	Llyfrgell plant Llyfrgell Ganolog Caerdydd	£80,000

2020/2021

Sefydliadau	Teitl y Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Cyngor Sir Gâr	Llyfrgell Llanelli	£71,276
Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	Llyfrgell Maesteg	£250,000
CBS Rhondda Cynon Taf	Parc Treftadaeth y Rhondda	£80,780
Oriel Plas Glyn y Weddw	Gwasanaethau cynaliadwy ym Mhlas Glyn y Weddw	£190,000
Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon	Datblygiadau Amgueddfa Cwm Cynon	£60,000
Cyngor Sir Ceredigion	Amgueddfa Ceredigion - ennyn chwilfrydedd	£83,975

Cyngor Sir Gâr	Amgueddfa Sir Gâr	£201,709
Cyngor Sir Sir Fynwy	Hyb Cymunedol y Fenni	£100,000
Amgueddfa Penmaenmawr	Amgueddfa Penmaenmawr	£55,154.97
Cyngor Bro Morgannwg	Llyfrgell Penarth (blaenoriaeth 2 o 2)	£120,000
Cyngor Sir Caerdydd	Amgueddfa Caerdydd	£120,000

2019/2020

Sefydliadau	Teitl y prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Cyngor Sir Gwynedd	Llyfrgell Pwllheli	£120,000
CBS Castell-nedd Port Talbot	Llyfrgell Sgiwen	£106,707
CBS Rhondda Cynon Taf	Hyb Llyfrgell Glynrhedynog	£50,300
Canolfannau Hamdden a Llyfrgelloedd Aura	Llyfrgell y Fflint	£300,000
Cyngor Sir Caerdydd	Hyb llesiant cymunedol Rhydpennau	£120,000
Cyngor Sir Caerdydd	Hyb llesiant cymunedol yr Eglwys Newydd	£105,000
Amgueddfa Gerfluniau Andrew Logan	Glanhau'r Amgueddfa	£9,737.00
Cyngor Sir Penfro	Gardd Reilffordd Scolton Manor	£86,070.00
Cyngor Sir Ceredigion	Archifdy Ceredigion	£120,000

2018/2019

Sefydliadau	Teitl y Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
CBS Conwy	Yr Hen Ysgol, Bodlondeb	£300,000
Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen	Amgueddfa Pont-y-pŵl	£99,000
CBS Rhondda Cynon Taf	Hyb Llyfrgell Tonypany (2/2)	£120,000

Ymddiriedolaeth Chardon	Amgueddfa Llandudno	£51,000
Judge's Lodging Trust Ltd	Llety'r Barnwr	£141,402
Cyngor Sir Penfro	Hyb Cymunedol Neyland	£120,000
Cyngor Sir Casnewydd	Hyb Cymdogaeth Ringland	£245,000
Cyngor Sir Gâr	Llyfrgell Caerfyrddin	£120,000
Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	Llyfrgell y Pîl	£84,844

2017/2018

Sefydliadau	Teitl y prosiect	Grant a Ddyfarnwyd
Cyngor Sir Powys	Llyfrgell Trefyclo	£96,610
Cyngor Sir Gâr	Llyfrgell Rhydaman	£72,454
CBS Rhondda Cynon Taf	Llyfrgell Pontypridd	£300,000
Cyngor Sir Ceredigion	Amgueddfa Ceredigion	£31,608
Cyngor Abertawe (Dinas a Sir)	Llyfrgell Townhill	£125,840
Oriel Plas Glyn y Weddw	Cyfleusterau storio	£108,238
Cyngor Sir Ynys Môn	Llyfrgell Caerdybi	£152,068
Cyngor Sir Penfro	Amgueddfa Scolton Manor	£77,500
Amgueddfa Pontypridd	Gwelliannau i Amgueddfa Pontypridd	£50,000
Cyngor Sir Ynys Môn	Gwelliannau i Oriel Ynys Môn	£115,368
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell Dinbych	£120,000
CBS Wrecsam	Arddangosfeydd a storfeydd yn yr amgueddfa	£87,680

Atodiad B: Sefydliadau yn y sector sydd wedi cyfrannu at y gwerthusiad

Cyngor Archifau Cymru
Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol
Cymdeithas yr Amgueddfeydd
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau
Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad C: Adolygiad y DU gyfan o ffynonellau cyllid cyfalaf ar gyfer y sector

Cyllid cyfalaf ar gyfer y DU gyfan

Fframwaith ariannu strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Dreftadaeth) 2019-2024

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi dosbarthu £8 biliwn i fwy na 44,000 o brosiectau ers ei sefydlu ym 1994, ac mae 29% o'r swm hwnnw wedi'i ddyrannu i amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a chasgliadau. Mae ei fframwaith ariannu strategol yn amlinellu'r weledigaeth a'r egwyddorion a fydd yn llywio'r buddsoddiad dros gyfnod o bum mlynedd. Noda fod pob penderfyniad hyd at £5 miliwn yn cael ei wneud yn lleol (sy'n cyfateb i 80% o'r holl gyllid a ddyrennir), a bod Bwrdd y DU yn penderfynu ar ymyriadau mwy strategol ledled y DU sy'n uwch na'r gwerth hwnnw. Dyrennir cyllideb y pen o 4.8% i Gymru.

Mae'n pennu chwe amcan penodol o fewn ei fframwaith ariannu strategol i:

- barhau i adfer treftadaeth i gyflwr gwell
- ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu treftadaeth yn fwy
- sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol
- cefnogi'r sefydliadau y mae'n eu hariannu i fod yn fwy cadarn a blaengar ac i ddangos mwy o fentergarwch
- dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu
- cynyddu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud i'r economi.⁵²

Ymhellach, mae'n nodi dau faes blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, sef:

- tirweddau a natur
- treftadaeth gymunedol.

Mae sefydliadau sy'n gwneud cais am y tro cyntaf yn cael eu blaenoriaethu am gymorth ychwanegol, ac mae disgwyl i sefydliadau treftadaeth prif ffrwd greu mwy o gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid eraill. Nodwyd 13 o ardaloedd awdurdod lleol

⁵² Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (2019), Fframwaith Ariannu Strategol 2019-2024, t.14

sydd wedi'u tangynrychioli yng nghyllid y Gronfa Dreftadaeth hyd yma ac maent yn cynnwys dwy ardal yng Nghymru: Rhondda Cynon Taf a Chastell Nedd Port Talbot.

Mae'r dull portffolio ariannu yn ddull wedi'i symleiddio, gydag un rhaglen ariannu agored ar gyfer pob math o dreftadaeth. Mae'r prosesau a'r gofynion ymgeisio hefyd wedi'u crynhoi a'u symleiddio ar gyfer grantiau llai (o dan £250,000) gyda phroses benderfynu gyflym ar waith. Disgwylir i grantiau mwy (£250,000 i £5 miliwn) fynd drwy broses dau gam – cam Mynegi Diddordeb cynnar (ble y cyflwynir cynnig prosiect cryno) wedi'i ddilyn gan gais llawn.

Mabwysiadwyd dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau tuag at fuddsoddi. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell
- bydd treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well
- bydd gan bobl sgiliau datblygedig
- bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a chymau gweithredu
- bydd llesiant pobl yn well
- bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth
- bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth
- bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef
- bydd yr economi leol yn cael ei hybu.

Disgwylir i bob prosiect a ariennir gyflawni'r canlyniad cynhwysiant: 'bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth'⁵³.

Mae'r fframwaith yn amlinellu'r bwriad i gynnal ymgyrchoedd penodol yn ystod y cyfnod pum mlynedd gyda'r nod o ddiwallu anghenion strategol neu fylchau ariannu ac ysgogi arloesedd. Roedd disgwyl i'r rhain gynnwys ymgyrch 'Galluoedd Digidol' yn ystod 2019-21, 'ymgyrch Casgliadau Dynamig' (2020-21) a 'Lle' (2021-22).

Noda adran benodol o'r fframwaith ar 'Amgueddfeydd a chasglu' fwriad y Gronfa Dreftadaeth i 'adeiladu ar ein buddsoddiad blaenorol mewn casglu strategol i gefnogi amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd ledled y DU drwy ymgyrch treftadaeth sy'n canolbwyntio ar gasglu dynamig' a allai gynnwys datblygu datrysiadau storio;

⁵³ Ibid., tud.32

datblygu ac ad-drefnu casgliadau, a defnyddio casgliadau er budd pobl a chymunedau.⁵⁴

Rhaglenni cyllid cyfalaf ar gyfer Lloegr yn unig

*Libraries Improvement Fund (Arts Council England)*⁵⁵

Nod y Libraries Improvement Fund (LIF) yw galluogi gwasanaethau llyfrgell yn Lloegr i fuddsoddi ac uwchraddio adeiladau a thechnoleg. Ei nod yw:

- galluogi llyfrgelloedd i ddatblygu mannau mwy hyblyg, mwy masnachol
- cynyddu a gwella mynediad digidol
- cysylltu llyfrgelloedd â'u cymunedau
- cynyddu'r potensial ar gyfer trawsnewid
- cynyddu'r defnydd o lyfrgelloedd a
- chynyddu cynaliadwyedd.

Mae cyfanswm cyllid y gronfa yn £5 miliwn ar gyfer 2021/22, a gellir dyfarnu grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf o rhwng £50,000 a £5 miliwn. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan awdurdod lleol ar ran ei wasanaeth llyfrgelloedd ond gall gynnwys un neu fwy o ganghennau. Gall sefydliadau eraill fod yn bartneriaid yn y ceisiadau.

Pennir y meini prawf ar gyfer y gronfa gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac Arts Council England (ACE), a chaiff y grantiau eu gweinyddu, eu dyfarnu a'u monitro gan ACE. Er nad oes gofyniad sylfaenol am gyllid partneriaeth, mae natur gystadleuol y cyllid yn golygu bod hyn yn cael ei annog lle bynnag y bo modd. Mae'n ofynnol i weithgareddau a ariennir fod yn barod i ddechrau erbyn diwedd Ebrill 2022 a gallant bara hyd at 31 Mawrth 2025.

Mae'r gweithgareddau cymwys a ariennir yn cynnwys:

- prosiectau adeiladu i adnewyddu, gwella neu ehangu adeiladau llyfrgell presennol
- prynu asedau (dodrefn, cyfarpar, neu gerbydau)
- gwella mynediad
- gwaith i gynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol llyfrgelloedd

⁵⁴ Ibid., tud.54

⁵⁵ [arts council](#)

- ffioedd proffesiynol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau uchod.

Mae dau gam i broses ymgeisio LIF – Datgan Diddordeb a chais llawn. Ar gyfer y cam Datgan Diddordeb, mae angen cyflwyno cynnig gan ddefnyddio llai na 2,500 o nodau (tua 400 o eiriau) sy'n amlinellu'r hyn y mae'r prosiect yn bwriadu ei wneud; sut y mae'n cyfrannu at nodau ac amcanion y Gronfa; y gwaith paratoi a wnaed eisoes a manylion unrhyw gyllid partneriaeth sydd ar waith. Mae'n ymddangos bod y broses wedi symud yn ddiweddar i borth ceisiadau digidol, 'Grantium'.

Mae tair adran i'r cais llawn:

- bodloni'r briff
- trefniadau llywodraethu a rheoli
- hyfywedd ariannol.

Rhaid i'r cais llawn hefyd gynnwys llif arian, cofrestr risg wedi'i chostio a datganiad dull caffael. Rhaid i brosiectau adeiladu gynnwys cynllun cost, manylebau dylunio ac archwiliad o fynediad hefyd.

Mae Panel Cyngori'r Rhaglen yn ystyried y ceisiadau ac yn ystyried pedwar ffactor i benderfynu pa mor dda y maent yn cyd-fynd â phortffolio cytbwys o grantiau:

- Daearyddiaeth – lleoliad y prosiect a'r math o ardal leol a fydd yn elwa ohono
- Risg – maint y risgiau i gydbwysedd cyffredinol y prosiect
- Cydweddiad strategol (gyda strategaeth 'Let's Create' ACE)
- Y math o brosiect.

Museum Estate and Development Fund (Arts Council England)⁵⁶

Cronfa gyfalaf mynediad agored i amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol achrededig er mwyn eu galluogi i wneud gwaith seilwaith hanfodol a gwaith cynnal a chadw brys yw'r Museum Estate and Development Fund (MEND). Ei nod yw sicrhau bod y buddsoddiad yn creu:

- amgueddfeydd sy'n ariannol gadarn ac yn amgylcheddol gyfrifol
- gwella perfformiad amgylcheddol adeiladau a chyfarpar, gan gefnogi gostyngiad mewn allyriadau carbon
- gwella'r gallu i gynnig mynediad a diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr

⁵⁶[Arts Council](#)

- cyfraniad cryfach at gymuned leol ac adfywio drwy warchod adeiladau nodedig a sicrhau casgliadau hygyrch i'r cyhoedd.

Cyfanswm cyllid y gronfa yw £18 miliwn ar gyfer 2021/22 ac mae'n dyfarnu grantiau o rhwng £50,000 a £5 miliwn. Mae amgueddfeydd achrededig nad ydynt yn rhai cenedlaethol neu awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw adeiladau amgueddfa achrededig nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn gymwys i wneud cais.

Pennir y meini prawf gan DCMS, ACE a Historic England (HE) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri tra bod ACE yn gweinyddu'r grantiau. Mae'r gweithgareddau cymwys a ariennir yn cynnwys:

- gwaith sy'n diogelu'r adeiladwaith (e.e., toeau, gwaith carreg, atgyweirio system gwaredu dŵr glaw, muriau, drysau a ffenestri allanol, nodweddion eraill)
- uwchraddio gwasanaethau adeiladu (e.e., systemau gwresogi, awyru, lifftiau, cyflenwadau ynni, diogelwch tân, draenio dŵr a systemau plymio)
- gwaith sy'n diogelu arddangosion a chasgliadau
- gwaith sy'n gwella perfformiad amgylcheddol seilwaith amgueddfeydd (e.e., goleuadau LED, technolegau cynaliadwy, mesurau i leihau'r perygl o lifogydd)
- gwaith sy'n gwella cydraddoldeb a mynediad.

Mae'r broses ymgeisio yn debyg i'r LIF – gyda dull dau gam – Datgan Diddordeb, wedi'i ddilyn gan gais llawn yn amlinellu sut mae'r cynnig yn bodloni'r briff; trefniadau llywodraethu a rheoli'r gweithgaredd a hyfywedd ariannol yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Mae'n ofynnol i bob cais gynnwys amlinelliad o lif arian, cynllun cost, arolwg o gyflwr yr adeilad wedi'i gostio, manylebau dylunio, datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth, datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol a chyfrifon rheoli diweddaraf, tystiolaeth o gyllid partneriaeth neu gynllun codi arian, datganiad ar ddull caffael, a chofrestr risgiau. Ar gyfer ceisiadau rhwng £500,000 a £5 miliwn, mae angen cynllun busnes, strwythur rheoli prosiect ac amserlen hefyd.

Mae Panel Cyngori'r Rhaglen yn ystyried pob cais yn erbyn pedwar ffactor:

- gwasgariad daearyddol – gydag awydd i gefnogi amgueddfeydd ledled Lloegr ac i ystyried ardaloedd lle nad oes llawer o ymgysylltiad diwylliannol yn arbennig

- risg – maint y risgiau yn erbyn cydbwysedd cyffredinol y prosiectau
- math o amgueddfa – o ran maint, math o gasgliad a model llywodraethu
- maint y prosiect – gydag awydd i gyllido cymysgedd o brosiectau o ran maint y grant a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni.

DCMS/Cronfa Wolfson

Mae DCMS a Sefydliad Wolfson wedi cydweithio ers dros 20 mlynedd i gyd-ariannu grantiau i gefnogi amgueddfeydd i:

- wella arddangosiadau a dehongliad o gasgliadau er mwyn gwella profiad ymwelwyr
- gwella mynediad/dehongliad i ymwelwyr ag anableddau a
- gwella rheolaethau amgylcheddol, storio casgliadau a chyfleusterau cadwraeth er mwyn gofalu'n well am gasgliadau.

Ar hyn o bryd mae'r gronfa yn cynnig grantiau rhwng £20,000 a£300,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf cymwys ac mae ar gael i amgueddfeydd/gwasanaethau amgueddfeydd a phrifysgolion sydd â chasgliadau dynodedig⁵⁷; amgueddfeydd/gwasanaethau amgueddfeydd achrededig a'r rhai a noddir yn uniongyrchol gan DCMS. Dim ond un cais fesul gwasanaeth amgueddfa a ystyrir yn ystod pob cylch ceisiadau. Mae cyfanswm o 370 o amgueddfeydd ac orielau ar draws 130 o amgueddfeydd a grwpiau amgueddfeydd yn gymwys ar gyfer y cynllun. Ni all y cyllid fod yn fwy na 75% o gyfanswm y costau cymwys ac ni all dalu ffioedd proffesiynol, ffioedd ymgynghori, costau staff mewnol na chostau gwaith cynnal a chadw.

Mae £4 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y cylch presennol o geisiadau ar gyfer 2022-24. Cyflwynwyd y cynigion rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, a disgwylir i banel asesu sy'n cynnwys cynrychiolwyr DCMS a Sefydliad Wolfson ac aseswyr allanol arbenigol ymgynnull yn yr hydref i asesu'r ceisiadau yn erbyn y meini prawf craidd (a nodir yn 5.25). Wrth asesu'r cynigion, bydd y Panel hefyd yn ystyried effaith y buddsoddiad ar gynaliadwyedd ariannol yr amgueddfa (gan gynnwys y cynnydd a ragwelir yn nifer yr

⁵⁷ Ers 1997, mae gan Loegr Gynllun Dynodi sy'n nodi ac yn dathlu casgliadau rhagorol a gedwir mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Y nod yw codi proffil y casgliadau ac annog pawb i'w diogelu. Mae gan yr Alban Gynllun Cydnabyddiaeth. Nid oes cynllun cyfatebol yng Nghymru.

ymwelwyr); y rôl a chwaraeir gan y sefydliad yn y gymuned leol, gwasgariad daearyddol y safleoedd a gefnogwyd, ac unrhyw gefnogaeth flaenorol a dderbyniwyd. Bydd enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2022. Gall prosiectau hawlio eu cyllid mewn hyd at bedwar cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Rhaid cyflwyno gwerthusiadau o brosiectau o fewn chwe mis i hawlio'r swm terfynol.

*Cronfa Datblygu Diwylliant*⁵⁸

Yn 2022, sefydlwyd y Gronfa Datblygu Diwylliant i ddarparu buddsoddiad cyfalaf mewn mentrau creadigol a diwylliannol trawsnewidiol sy'n seiliedig ar le.⁵⁹ Ei nod yw datgloi twf a chynhyrchiant a hyrwyddo adferiad economaidd a chymdeithasol ar ôl y pandemig COVID-19. Mae'n anelu at gefnogi lleoedd sy'n gallu:

- datgloi twf economaidd a chynhyrchiant lleol
- dod yn lleoedd mwy deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt ac i ymweld â nhw
- cryfhau arweinyddiaeth, partneriaeth a gallu lleol⁶⁰.

Mae cyfanswm o £30 miliwn ar gael ar gyfer 2022-23 a dyfernir grantiau gwerth £2-5 miliwn. Mae ymgeiswyr yn gwneud cais am weithgaredd cyfalaf gyda chyfran gyfyngedig hefyd yn cael ei chaniatáu ar gyfer gweithgaredd refeniw hyd at uchafswm o £700,000 o gyfanswm y gyllideb. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus am grant yn cael eu hysbysu a fu eu cais yn llwyddiannus erbyn mis Mawrth 2023 a bydd gofyn iddynt ddod o hyd i o leiaf 15% o arian cyfatebol. Bydd angen gwario'r grant erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Disgwylir ceisiadau partneriaeth, wedi'u harwain gan awdurdod lleol, Partneriaeth Menter Leol neu gorff priodol arall yn Lloegr.

Mae dau gam i broses ymgeisio'r gronfa. Adolygir y Datganiadau o Ddiddordeb gan Banel Cynghori Arbenigol sy'n gwahodd darpar ymgeiswyr i gyflwyno cais llawn.

⁵⁸ [Arts Council](#)

⁵⁹ Ibid.

⁶⁰ [Arts Council](#)

Yr Alban

Mae Museums Galleries Scotland (MGS) yn gyfrifol am sawl ffrwd gyllido ar ran Llywodraeth yr Alban i gefnogi amgueddfeydd yn benodol i ymdrin ag effaith barhaus y pandemig COVID-19 ac i feithrin cydnerthedd. Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban fod £1 miliwn o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi prosiectau cydnerthedd sy'n seiliedig ar gyfalaf. Mae'r rhaglen gyllido yn cynnwys:

*Cronfa Grantiau Bach*⁶¹

Mae'r gronfa hon yn cefnogi gweithgareddau prosiect ar raddfa fach sydd â'r nod o feithrin cydnerthedd gweithredol, ailgysylltu â chynulleidfaoedd, mynd i'r afael â gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw hanfodol, neu wella cynaliadwyedd amgylcheddol.

Gellir gwneud ceisiadau am hyd at £15,000 (neu £10,000 ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt wedi'u hachredu⁶²). Mae'r gronfa'n hyblyg ac yn gallu cwmpasu amrywiaeth o gostau refeniw a chyfalaf gan gynnwys:

- adnoddau a chyfarpar ar gyfer prosiectau ymgysylltu
- diweddariadau a gwelliannau i arddangosiadau
- arddangosfeydd newydd
- mynediad digidol gwell
- atgyweiriadau brys i adeiladau a chyfleusterau
- gwaith cadwraeth brys ar gasgliadau
- gwelliannau i storio a rheoli casgliadau
- uwchraddio systemau gwresogi neu oleuadau i systemau mwy effeithlon o ran ynni
- gosod paneli solar, pypiau gwres ffynhonnell aer neu ddulliau eraill o wella perfformiad ynni a lleihau costau rhedeg
- gosod ffenestri gwydr dwbl, deunydd inswleiddio, neu fesurau eraill.

Ni ellir cyflwyno mwy na dau gais yn ystod 2021/22 ac mae'n rhaid i'r cyllid gwmpasu gweithgaredd am hyd at flwyddyn o ddyddiad y dyfarniad. Mae proses ymgeisio syml yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ateb cwestiynau ynghylch disgrifio'r materion

⁶¹ [Museums Galleries Scotland](#)

⁶² Mae cymhwysedd wedi'i ymestyn i amgueddfeydd heb eu hachredu ar gyfer cylch 2022 o Grantiau Bach yn unig, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sy'n deillio o effaith barhaus COVID-19.

penodol y maent yn ceisio mynd i'r afael â hwy; sut y nodwyd yr angen neu pam ei fod yn waith brys; a thystiolaeth o'r angen am y gwaith.

*Museum Capital Resilience Fund*⁶³

Nod y gronfa gyfalaf £1 miliwn hon yw cefnogi prosiectau cyfalaf sydd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 a gall gefnogi ystod o fesurau sydd â'r nod o leihau costau megis:

- cynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau costau rhedeg
- gwelliannau i'r hyn a gynigir i ymwelwyr
- buddsoddi mewn creu incwm (e.e., gofod ar gyfer digwyddiadau, caffi, neu fanwerthu)
- gwaith atgyweirio hanfodol a gwaith cynnal a chadw ataliol.

Mae grantiau rhwng £3,000 a £75,000 ar gael (ond uchafswm y dyfarniad ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt wedi'u hachredu yw £20,000). Mae costau cymwys yn cynnwys gwaith adeiladu a phrynu a gosod asedau a fydd yn cael eu defnyddio am o leiaf dair blynedd. Gellir talu ffioedd rheoli prosiectau a ffioedd proffesiynol hefyd.

Mae'r ffurflen gais yn seiliedig ar bedwar maen prawf allweddol:

- angen – am y gwaith arfaethedig a'r cymorth ariannol i'w gyflawni
- effaith – y gwahaniaeth amlwg y bydd yn ei wneud
- y gallu i gyflawni – pa mor dda y mae'r prosiect dan sylw wedi'i gynllunio a'i gostio
- effaith amgylcheddol – rhoddir blaenoriaeth i geisiadau a all leihau allyriadau carbon yn uniongyrchol a chreu effaith amgylcheddol gadarnhaol.

Gogledd Iwerddon

Ni chanfuwyd unrhyw enghreifftiau o gyllid grant cyfalaf penodol gan y llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon.

⁶³ [Museums Galleries Scotland](#)

Cynlluniau grant a ddarperir gan ymddiriedolaethau a sefydliadau

Art Fund⁶⁴

Mae partneriaeth gyllido newydd gyda'r Rhwydwaith Datblygu Amgueddfeydd i gefnogi amgueddfeydd ledled y DU nad ydynt wedi gallu manteisio ar grantiau mewn argyfwng, neu i gefnogi amgueddfeydd llai sy'n diwallu anghenion lleol penodol yn cael ei lansio'n fuan. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd y gronfa hon yn cyllido unrhyw waith cyfalaf.

Sefydliad Garfield Weston⁶⁵

Mae'r sefydliad yn cyfrannu dros £80 miliwn y flwyddyn ac yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau elusennol mewn sawl sector gan gynnwys amgueddfeydd a threftadaeth. Mae'n well gan y sefydliad gefnogi elusennau sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau'n uniongyrchol i'r rhai mewn angen. Bydd y sefydliad yn cyfrannu at gostau refeniw, prosiectau penodol a/neu gyfalaf, ond nid yw'n tueddu i gefnogi mwy na 10% o'r gyllideb gyfan. O'r herwydd, mae disgwyl i sefydliadau sicrhau o leiaf hanner y cyllid gofynnol cyn iddynt wneud cais.

Sefydliad Clore Duffield⁶⁶

Mae cymorth grant y sefydliad wedi'i gyfeirio at y celfyddydau perfformio a gweledol, diwylliant, a threftadaeth - yn enwedig lle mae'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn celf a diwylliant. Mae'n cefnogi elusennau cofrestredig ledled y DU. Nid yw'r sefydliad yn derbyn ceisiadau am gyllid ar hyn o bryd.

Sefydliad Wolfson⁶⁷

Mae prif raglen grantiau'r sefydliad yn darparu cymorth ar gyfer lleoedd. Mae'n cyllido mentrau cyfalaf (adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau) a chyfarpar ar gyfer sefydliadau ar draws ystod o sectorau gan gynnwys addysg, gwyddoniaeth a meddygaeth, iechyd, treftadaeth, y dyniaethau, a'r celfyddydau.

Mae'r sefydliad yn cefnogi llyfrgelloedd ac archifau sy'n gofalu am gasgliadau o bwys cenedlaethol ac sydd â phwyslais clir ar ddarparu mynediad i'r cyhoedd ac

⁶⁴ [Art Fund](#)

⁶⁵ [Garfield Weston](#)

⁶⁶ [Clore Duffield](#)

⁶⁷ [Wolfson](#)

ymgysylltu â nhw. Mae'r grantiau'n tueddu i gael eu dyfarnu ar gyfer cyfleusterau storio casgliadau a mannau addysg/dehongli.

Mae'r sefydliad hefyd yn dyfarnu grantiau ar gyfer adnewyddu neu greu orielau newydd, ac o bryd i'w gilydd, mannau addysg a dysgu ar gyfer amgueddfeydd sy'n ymgymryd â phrosiectau i wella'r ffordd y caiff casgliadau sydd o bwys cenedlaethol i'r cyhoedd eu harddangos a'u dehongli.

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r amgueddfeydd, llyfrgelloedd neu archifau gael eu gweithredu gan elusen gofrestredig neu awdurdod lleol. Rhaid i'r amgueddfeydd neu'r archifau gael eu hachredu'n llawn. Rhaid bod gan bob un gasgliad parhaol o arwyddocâd cenedlaethol⁶⁸.

Rhaid i'r prosiect gynhyrchu o leiaf un o'r canlyniadau canlynol:

- Dehongliad rhagorol
- Gwella ymgysylltiad y cyhoedd â chasgliadau a'u dealltwriaeth ohonynt
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr
- Gwella cynaliadwyedd y sefydliad yn y dyfodol
- Gwarchod treftadaeth bensaernïol.

Isafswm y grant yw £15,000. Ystod arferol y grant ar gyfer llyfrgelloedd ac archifau yw £15,000-£100,000. Ystod arferol y grant ar gyfer amgueddfeydd yw £50,000-£500,000. Mae angen arian cyfatebol os yw cost y prosiect yn fwy na £50,000. Ni fydd y grantiau'n cwmpasu gorbenion, costau cynnal a chadw a TAW.

Ceir proses ymgeisio dau gam ar-lein, gyda dau gylch cyllido bob blwyddyn. Yn ystod y cam cyntaf mae angen disgrifiad byr o'r prosiect gan gynnwys cyfanswm y gost, y diffyg presennol yn y cyllid a'r amserlen arfaethedig. Yna bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i gwblhau cais cam 2. Bydd y gwahoddiad hwn ar agor am dri chylch cyllido. Ar y pwynt hwn, mae angen i brosiectau sy'n gwneud cais am fwy na £50,000 ddangos bod o leiaf 25% o gostau cyfalaf wedi'u sicrhau. Mae panel o adolygwyr arbenigol yn ystyried y ceisiadau ac yna'n gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

⁶⁸ Nid oes gan Gymru gynllun cyfatebol sy'n cydnabod casgliadau o arwyddocâd cenedlaethol a gedwir gan Amgueddfeydd nad ydynt yn rhai Cenedlaethol.

Atodiad Ch: Canllaw Trafod ar gyfer cyfweiliadau â staff Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y sector

Cefndir

1. Dywedwch wrthyf am:
 - eich rôl
 - gwybodaeth am a/neu'ch ymwneud â'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid

Nodau, amcanion a sail resymegol

2. Beth yw nodau ac amcanion y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid?
 - a. Pa faterion y mae'r Rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
3. Pa flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd y byddech yn disgwyl i'r Rhaglen gyfrannu atynt? Holwch ynglŷn â'r cyfraniad at:
 - a. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
 - b. Blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu - 2016-21 a 2021-26
 - c. Yr agenda cydraddoldeb
 - d. Blaenoriaethau newid hinsawdd
 - e. Pa mor briodol yw'r blaenoriaethau hyn ar gyfer eich sector?
4. Pa fath o weithgareddau y mae'r Rhaglen yn bwriadu eu cyllido?
 - a. Mae'r term trawsnewid wedi'i gynnwys yn nheitl y rhaglen grant. Beth mae hynny'n ei olygu i chi?
 - b. I ba raddau y mae'r gweithgareddau a ariennir gan y Rhaglen yn arwain at drawsnewidiad?
5. I ba raddau y mae'r rhaglen grant yn targedu cyllid at y sefydliadau hynny sydd fwyaf angen buddsoddiad?
 - a. A oes grwpiau penodol sy'n colli cyfleoedd ar gyfer cyllid cyfalaf drwy'r Rhaglen ar hyn o bryd? Os felly, pam?
 - b. Pa newidiadau i gwmpas y rhaglen a allai fod yn ofynnol er mwyn targedu'r grwpiau/sefydliadau hyn yn fwy effeithiol?

Pa mor briodol yw'r ffordd y dyluniwyd y rhaglen a'r ffordd y caiff ei gweinyddu

6. Pa mor briodol yw'r ffordd y dyluniwyd y gronfa? Holwch ynglŷn â:
 - a. ei blaenoriaethau strategol (canllaw / meini prawf grant)?
 - b. y meini prawf cymhwysedd i ymgeiswyr?
 - c. lefel a hyd y cyllid sydd ar gael?
 - d. pa mor briodol yw terfynau cyllido Band A a Band B?
 - e. y cam Datgan Diddordeb a'r broses ymgeisio?
 - f. y cylch cyllido blynyddol?

- g. Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud i ddyluniad y gronfa?
7. Beth sy'n gweithio'n dda / ddim cystal o ran y broses ymgeisio?
- Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hyrwyddo'r cyllid grant a chyfathrebu â darpar ymgeiswyr? (h.y., pa mor adnabyddus yw'r Rhaglen?)
 - Pa mor effeithiol yw'r broses o arfarnu ceisiadau a gwneud penderfyniadau?
 - Pa welliant ydych chi wedi'i weld i'r broses ymgeisio, os o gwbl, yn ystod y cyfnod pum mlynedd 2017-22?
8. Beth yw proffil nodweddiadol ymgeiswyr llwyddiannus?
- Beth, yn eich barn chi, yw eu cymhelliant dros wneud cais?
